

Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf
Adroddiad Monitro Blynyddol 2017–2018

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017–31 Mawrth 2018

Tudalen		CYNNWYS
	Crynodeb Gweithredol	3
1	Cyflwyniad	9
2	Fframwaith Monitro	10
3	Newid Cyd-destunol	14
4	Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol	28
5	Monitro'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd	71
6	Casgliad ac Argymhellion	98
Atodiad 1	Statws Safleoedd wedi'u Dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol	105

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Rhondda Cynon Taf ei fabwysiadu ar 2 Mawrth 2011. Yn rhan o broses y cynllun datblygu statudol, rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB). Bydd yr AMB yn fodd o fonitro cynnydd a chyflawniad y CDLI, ei gynaliadwyedd ac unrhyw newidiadau perthnasol a allai ddylanwadu ar y broses o'i weithredu.

Dyma'r seithfed AMB i gael ei baratoi ers i Rondda Cynon Taf fabwysiadu'r CDLI. Mae'n rhoi cyfle ychwanegol i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar les cymdeithas, economi ac amgylchedd y Fwrdeistref Sirol.

Canfyddiadau Allweddol o Broses Monitro Blynnyddol 2017–2018

Newid Cyd-destunol

Yn yr adran yma mae trafodaeth ynghylch ffactorau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiadau o ran defnydd tir yn Rhondda Cynon Taf, ac o ganlyniad i hynny, ar weithredu'r CDLI yn ystod 2017–2018. Mae'r rhain yn cynnwys:

A. Polisi, Canllawiau neu Ddeddfwriaeth Genedlaethol:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) (Diwygio) (Cymru) 2017;
- Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10;
- Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

B. Ystadegau Cenedlaethol ac Ymchwil Polisi:

- Trothwyon a'r meini prawf ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (WSP Parsons Brinckerhoff, Mehefin 2017).
- Permitted Development Rights and Small-Scale, Low Risk Hydropower (Dulas Cyf, Tachwedd 2017).
- Cynllunio ar gyfer telathrebu symudol: asesiad hawliau datblygu a ganiateir (Arcadis ar ran Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017).

CYNGOR Amgylchiadau Allanol:

- Er gwaethaf y cynnydd o 0.1% yn y GDP yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2018, dyma'r twf arafaf ers Chwarter 4 2012;
- Tyfiant araf ac ansefydlog yn y nifer sy'n gweithio;
- Nifer y bobl sy'n gweithio wedi cynyddu wrth i gyfraddau diweithdra leihau;
- Mae gwaith adeiladu tai cenedlaethol yn parhau i fod yn sefydlog ac mae prisiau tai wedi cynyddu ychydig;
- Mesurau cyni pellach yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

D. Y Cyd-destun Datblygu Rhanbarthol:

- Y Fargen Ddinesig;



- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
- Cynllun Datblygu Strategol;
- Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynlluniau Datblygu Lleol yn y Rhanbarth (De Ddwyrain Cymru).

E. Cyd-destun Datblygu Lleol

- Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Rhondda Cynon Taf 2018;
- Atodlen Argaeledd Tir Cyflogaeth 2018;
- Amgylchiadau'r Economi Leol;
- *Ein Cwm Taf* – Cynllun Drafft Lles Cwm Taf 2018-2023;
- Cyllid ar gyfer y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat a buddsoddiad ynddyn nhw.

Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae canlyniadau'r ymarfer monitro allbwn lleol ar gyfer 2017–2018 yn creu darlun diddorol ac amrywiol o ddatblygiad yn Rhondda Cynon Taf.












Mae dau sector o'r economi sy'n berthnasol yn arbennig o ran ystyried sut y gellir gweithredu'r CDLI yn llwyddiannus, sef gweithgarwch ym marchnadoedd tai a masnach. Dyma'r canfyddiadau mwyaf hynod yr AMB o ran y rhain:

- Cafodd 552 o anheddau newydd eu hadeiladu yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2017–2018. Mae hyn yn ostyngiad o 22.9% ar nifer yr anheddau newydd a gafodd eu hadeiladu yn ystod 2016-2017 (716 o anheddau). Ffigur 2016-2017 oedd yr uchaf ers mabwysiadu'r CDL. Y ffigur 716. Mae canlyniadau eleni yn uwch na ffigurau 2010-2014 ac maen nhw'n cymharu â ffigurau 2014-2015 a 2015-2016.
- Cafodd 198 o anheddau fforddiadwy eu hadeiladu yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2017–2018. Mae hyn yn ostyngiad o 20.1% ar gyfanswm y llynedd (248 o dai fforddiadwy). Ffigur 2016-2017 oedd yr uchaf ers mabwysiadu'r CDLI. Y ffigur oedd 248. Canlyniadau eleni yw'r ail ffigur uchaf, sef 100 o anheddau yn uwch na 2015-2016. Y ffigur ar gyfer y flwyddyn honno yw 98.
- Cymeradwyodd y Cyngor gynlluniau arfaethedig am 1,153 o anheddau newydd yn ystod 2017–2018; Mae hyn yn cymharu â 569 o anheddau yn 2016-2017 a 2,264 yn 2015-2016.
- 11.5% oedd y gyfradd wacter yng nghanolfannau manwerthu Prif Drefi ac Aneddiadau Allweddol yn ystod 2017–2018. Mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â chyfradd y flwyddyn flaenorol, sef 12.5%. Mae hyn 2.2% yn uwch na chyfradd swyddi gwag cyfartalog y DU, sef 9.3% ym mis Hydref 2017 ond yn well na chyfartaledd Cymru o 11.7% ar gyfer yr un cyfnod.



Mae ystyriaeth fanwl o ganlyniadau'r ymarfer monitro wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch natur cynnydd yn ystod 2017–2018 o ran cyflawni targedau, ac yn sgil y rheini, polisiâu'r CDLI.

Mae modd gweld canlyniadau o ran cyflawniad pob un o'r targedau yn y tabl dros y dudalen (ynghyd ag esboniad o'r system lliwiau):

MONITRO'R CDLI		
Targed Polisi Craidd		Result (Canlyniad)
SG 1	Datblygiadau yn y Gogledd	
SG 2	Datblygiadau yn y De	
SG 3	Safleoedd Strategol	
SG 4	Anghenion o ran Tai	
SG 5	Tai fforddiadwy	
SG 6	Anghenion o ran Cyflogaeth	
SG 7	Manwerthu	
SG 8	Gwasanaeth Trafnidiaeth	 
SG 9	Trin Gwastraff	
SG 10	Mwynau	

Mae canlyniadau'r broses fonitro ar gyfer 2017-2018 yn nodi bod y targedau mewn perthynas â 3 o'r 10 polisi craidd yn parhau, yn cael eu diwallu neu'n cael eu bodloni (wedi'u nodi yn wyrdd). Maen nhw hefyd yn nodi bod Polisi CS8 yn cael ei fodloni'n rhannol ac mae'n annhebygol y bydd raid ymyrryd i gyflawni'r targedau yma (gwyrdd / ambr). Dyw 4 targed ddim yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ond mae modd gwella'r sefyllfa, neu y bydd cynnydd digonol, heb ymyrraeth uniongyrchol. Dyw 2 darged polisi ddim yn cael eu cyflawni ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid heb ymyrraeth benodol.

Monitro'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd (GG)


















Dyma ganfyddiadau allweddol a ddaeth i'r amlwg ar ôl y broses o fonitro'r GG:

- Cafodd 72.46% o anheddau newydd eu hadeiladu ar dir a oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen.
- Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.



- Mae 100% o'r holl gyflogaeth a gafodd caniatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 100% o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd caniatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un dull teithio neu fwy.
- Chafodd dim datblygiadau agored iawn i newid ganiatâd mewn parthau risg llifogydd Dosbarth C2 heb lwyddo pob prawf yn Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15.

Mae modd gweld canlyniadau o ran cyflawniad pob un o dargedau'r GG yn y tabl dros y dudalen (ynghyd ag esboniad o'r system lliwiau):

MONITRO'R GWERTHUSIAD O GYNALIADWYEDD		
Targedau		Result (Canlyniad)
GG 1	Tai	
GG 2	Diwylliant a Threftadaeth	
GG 3	Cymunedau	
GG 4	y Gwasanaeth Iechyd	
GG 5	Economi	
GG 6	Cyflogaeth	
GG 7	Trafnidiaeth	
GG 8	Yr Amgylchedd Adeiledig	
GG 9	Tirwedd	
GG 10	Bioamrywiaeth	
GG 11	Dŵr	
GG	Newid hinsawdd	
GG 13	Ynni	
GG 14	Tir a Phridd	
GG 15	Gwastraff	
GG 16	Mwynau	
GG 17	Ansawdd Aer	

Mae canlyniadau'r broses fonitro ar gyfer y rhan helaethaf o dargedau yn parhau, yn bodloni'r targedau perthnasol neu'n well na'r targedau (y rhai gwyrdd). Maen nhw'n awgrymu nad oes angen ymyrraeth uniongyrchol yn achos lleiafrif o'r targedau er nad ydyn nhw'n bodloni'r targedau, naill ai oherwydd bod modd gwella'r sefyllfa, neu

oherwydd bod disgwyl y bydd cynnydd digonol (y rhai oren). Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod angen ailddiffinio dangosydd ar gyfer mwynau (gwyn) oherwydd nad yw'n rhoi'r wybodaeth briodol sydd ei hangen i asesu'r targed.

Dim ond y camau cyntaf o'r cynllun sydd wedi cael eu gweithredu hyd yn hyn, ond mae modd gwneud rhai sylwadau cyffredinol ynghylch cynnydd ynddo o ran cynaliadwyedd. Ar y cyfan, mae'r cynllun yn symud mewn cyfeiriad cadarnhaol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar gynaliadwyedd. Serch hynny, mae rhai dangosyddion yn awgrymu y gallai fod angen rhagor o ystyriaeth o sut y mae modd cyflawni'r targedau perthnasol.

Casgliad ac Argymhellion

Mae tyfiant mewn rhai meysydd yn arafach na'r hyn a gafodd ei ddisgwyl wrth ysgrifennu'r cynllun. Serch hynny, mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod o broses monitro yn awgrymu bod cynnydd da o ran cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau'r CDLI mewn perthynas â gweithredu polisiâu a dynodiadau'r Cynllun. Mae disgwyl y bydd y gwaith datblygu sydd wedi digwydd yn Rhondda Cynon Taf ers mabwysiadu'r CDLI ynghyd â buddsoddiad arfaethedig gan y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y dyfodol yn sicrhau y caiff strategaeth graidd y CDLI ei chyflawni'n llwyddiannus. Bydd Adroddiadau Monitro Blyneddol yn rhan o'r dystiolaeth a fydd yn bwydo'r Cynllun Datblygu Lleol.





1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Rhondda Cynon Taf ei fabwysiadu ar 2 Mawrth 2011. Mae'r Cynllun yn fframwaith ar gyfer defnydd tir sy'n ffurfio sail i benderfyniadau ynghylch datblygiadau i'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.
- 1.2 Yn rhan o'r broses o weithredu cynllun datblygu statudol, rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Bydd yr AMB yn fodd o fonitro cynnydd a chyflawniad y CDLI, ei gynaliadwyedd ac unrhyw newidiadau perthnasol a allai ddylanwadu ar y broses o'i weithredu. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i mewn i ddadansoddiad parhaus y CDLI.
- 1.3 Dyma'r seithfed AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Rhondda Cynon Taf. Mae'r adolygiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Mae'n gyfle pwysig i'r Cyngor asesu'r effaith y mae'r Cynllun yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.
- 1.4 Dyma strwythur yr Adroddiad Monitro Blynyddol;
 - **Cyflwyniad** – amlinellu pam y mae angen yr AMB, ei ddiben a'i strwythur;
 - **Fframwaith Monitro** – egluro'r broses o fonitro'r CDLI, sut i fesur data ohono a sut y gallai canlyniadau'r broses fonitro lywio'r adolygiad ffurfiol;
 - **Newid Cyd-destunol** – dadansoddi effaith bosibl ffactorau fel newidiadau i bolisiâu cynllunio cenedlaethol, yr hinsawdd economaidd a materion lleol ar weithredu'r CDLI;
 - **Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol** – dadansoddi effeithiolrwydd fframwaith polisi'r Cynllun o ran cyflawni targedau'r cynllun;
 - **Monitro'r Gwerthusiad o Gynladwyedd** – dadansoddi'r effaith y mae'r Cynllun yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Rhondda Cynon Taf a:
 - **Casgliadau ac Argymhellion** – trosolwg o gasgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac argymhellion ynghylch materion sydd angen sylw pellach.
- 1.5 Mae'r AMB wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005; Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Asesu Cynefinoedd (2004).



2 FFRAMWAITH MONITRO

- 2.1 Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys 3 elfen allweddol. Mae'r rheini yn cynnwys monitro'r canlynol:
- Strategaeth, polisiau a chynigion craidd y CDLI;
 - Y Gwerthusiad o Gynaliadwyedd (GG) sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylchedd Strategol (AAS);
 - Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (ARC) y CDLI.
- 2.2 Bydd llwyddiannau'r dogfennau hyn a'r polisiau sydd ynddyn nhw yn cael eu mesur yn erbyn cyfres o dargedau sy'n cael eu pennu'n rhan o broses y CDLI. Mae dangosyddion wedi cael eu llunio i benderfynu a yw'r targedau hyn wedi cael eu bodloni. Os na fydd targedau yn cael eu bodloni, ac os byddan nhw'n dangos bod dogfennau'r CDLI (neu rannau/polisiau perthnasol) yn llawer llai effeithiol na'r disgwyl, bydd raid ystyried sut y dylai'r adolygiad ffurfiol o'r Cynllun barhau.

Targedau a Dangosyddion y CDLI

- 2.3 Mae fframwaith monitro'r Cynllun yn nodi 19 o dargedau unigol sy'n berthnasol i bob un o'r polisiau strategaethau craidd (gan gynnwys Safleoedd Strategol unigol). Caiff y targedau hyn eu hasesu yn erbyn 12 o ddangosyddion allbwn craidd ac 19 o ddangosyddion allbwn sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer monitro cyflawniad y Cynllun. Noder: er bod y targedau a'r dangosyddion yn berthnasol i bob polisi strategaeth graidd, mae'r fframwaith wedi cael ei lunio'n benodol at ddiben sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu nodi rhwng polisiau strategol craidd, polisiau maes cyfan, polisiau maes strategaeth ac amcanion y Cynllun. Mae monitro cyflawniad polisiau strategaeth graidd felly yn ffordd o fonitro'r CDLI yn ei gyfanrwydd.

Targedau a Dangosyddion y Gwerthusiad o Gynaliadwyedd (GG)

- 2.4 Mae GG y cynllun yn adnabod set o dargedau a dangosyddion o effaith sylweddol. Nod y rhain yw mesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI. Mae'r GG yn adnabod 22 o dargedau a 25 o ddangosyddion sydd yn benodol ar gyfer monitro gwybodaeth am y CDLI ynghylch ei effaith ar yr amgylchedd.

Targedau a Dangosyddion yr Asesiad Rheoli Cynefinoedd (ARhC)

- 2.5 Yn ystod cam y Cynllun Drafft, penderfynwyd y dylai'r ARhC gael ei fonitro yn rhan o ddangosyddion y GG.



Newid Targedau a Dangosyddion

- 2.6 Pan nad oedd yn bosibl i'r Cyngor fonitro targed neu ddangosydd, neu os cafodd dangosydd ei newid, bydd esboniad yn yr adran berthnasol a bydd dangosydd newydd yn cael ei nodi.
- 2.7 Weithiau mae'n bosibl y bydd rhaid addasu targed neu ddangosydd. Efallai y bydd angen gwneud dangosydd yn gliriach neu sicrhau ei fod yn cyfateb yn gywir i'r setiau data. Mewn achosion o'r fath, bydd esboniad yn yr adran berthnasol a manylion am y targed neu ddangosydd newydd.

Monitro Cynnydd

- 2.8 Caiff y broses monitro ei dadansoddi ar ffurf asesiadau ysgrifenedig manwl o ganlyniadau'r dangosyddion a thrafodaeth ar ôl hynny ynghylch llwyddiant y targedau ac effeithiolrwydd ei bolisiau. Mae manylion am hyn i'w cael yn adrannau monitro perthnasol yr adroddiad yma ar gyfer CDLI a GG. Er mwyn dangos y canlyniadau monitro hyn yn weledol, mae system lliwiau syml wedi cael ei llunio. Caiff hon ei chynnwys yn nhablau unigol polisi craidd a chanlyniadau GG, fel a ganlyn:

	Mae'r canlyniadau'n parhau, yn bodloni targedau neu yn well na'r targedau
	Dyw'r targedau ddim yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ond mae modd gwella'r sefyllfa, neu y bydd cynnydd digonol, heb ymyrraeth uniongyrchol.
	Dyw'r targedau ddim yn cael eu cyflawni ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid heb ymyrraeth benodol.

- 2.9 Pan nad oes unrhyw wybodaeth newydd, bydd y blwch canlyniadau monitro yn aros yn wag.

Adolygiad o'r CDLI

- 2.10 Bydd gwaith monitro'r CDLI yn rhan sylfaenol o'r broses o benderfynu ynghylch graddfa'r adolygiad.
- 2.11 Dyma faterion eraill a fydd yn dylanwadu ar raddfa'r adolygiad:
- A fu newidiadau sylweddol mewn polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol?
 - A fu newidiadau allanol sylweddol?



- A fu newidiadau sylweddol yn y cyd-destun lleol e.e. safle cyflogaeth pwysig yn cau gan danseilio'r economi lleol, neu effaith gyfun nifer o safleoedd cyflogaeth yn cau?
- A fu newidiadau sylweddol o ran pwysau datblygu, neu o ran anghenion a strategaethau buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat pwysig?
- Pryderon sylweddol ynghylch canfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisi, cyflawniad safle, cyfraddau cynnydd ac unrhyw broblemau wrth roi'r cynllun ar waith.

Cynllun Datblygu Lleol Cymru (2005) a'r Canllaw CDLI (2015)

2.12 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi arweiniad ynghylch proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n cynnwys y canlynol ynghylch Adroddiadau Monitro Blynyddol ym mharagraffau 9.4.2 – 9.4.3:

"Dylai'r AMB asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisiau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu cyflawni... Yr AMB yw'r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol o dueddiadau sefydlwyd a nodwyd yn yr 2^{il} neu'r 3^{ydd} AMB. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, dylai fod gan yr adroddiad ffocws pendant iawn yn hytrach na chynhyrchu crynodeb ystadegol" (Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2015, p117).

2.13 Gan nad oes yn Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2015 fframwaith monitro cenedlaethol; mae'r AMB yma wedi parhau i ddilyn y saith amcan yn CDLI Cymru (2005) er mwyn sicrhau cysondeb, dilyniant a modd hwylus o ddadansoddi rhwng adroddiadau.

2.14 Felly, yn ogystal â'r fframwaith monitro sydd wedi cael ei amlinellu yn CDLI y Cyngor, mae Llywodraeth Cymru, yn CDLI Cymru Paragraff 4.43 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol:

"i'r AMB adnabod unrhyw bolisi nad yw'n cael ei roi ar waith gan roi rhesymau ac unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi yn cael ei roi ar waith. Dylai hefyd gynnwys unrhyw fwrriad o adolygu'r CDLI i ddisodli neu addasu'r polisi. Dylai'r AMB gynnwys asesiad o'r canlynol:

- *A yw'r strategaeth sylfaenol yn gadarn o hyd (os nad yw, mae'n bosibl y bydd angen adolygiad cynllun cyfan)?*
- *Pa effaith y mae'r polisiau yn ei chael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol?*
- *A oes angen newid y polisiau er mwyn adlewyrchu newidiadau i bolisi cenedlaethol?*
- *A yw'r polisiau a'r targedau perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol wedi cael eu cyflawni neu yng nghanol cael eu cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) perthnasol?*



- *Os nad oes cynnydd wedi bod, beth yw'r rhesymau dros hyn a pha effaith gynyddol a allai ei gael?*
- *Pa agweddau, os oes rhai, o'r CDLI sydd angen cael eu haddasu neu eu newid oherwydd nad ydyn nhw'n gweithio'n gywir, neu oherwydd nad ydyn nhw'n cyflawni amcanion y strategaeth a/neu amcanion datblygu cynaliadwy; ac*
- *Os oes angen newid polisiâu neu gynigion, pa gamau gweithredu posibl sydd eu hangen i gyflawni hyn?*

Rhaid i'r AMB hefyd gynnwys manylion am y cyflenwad o dir ar gyfer tai (o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai cyfredol), am y nifer o anheddau fforddiadwy a chyffredinol y fasnach sydd wedi cael eu hadeiladu ar dir yr awdurdod, ac am ddangosyddion eraill yn y CDLI."



3 NEWID CYD-DESTUNOL

- 3.1 Mae canfyddiadau Fframwaith Monitro'r AMB yn rhan sylfaenol o werthuso cynnydd y CDLI yn nhermau ei weithredu a'i gyflawni. Serch hynny, mae deall sut y mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wedi dylanwadu ar y gwaith o weithredu'r CDLI yr un mor bwysig.
- 3.2 Drwy anelu at ddeall sut y mae ffactorau gwahanol wedi effeithio ar y broses o gyflawni'r CDLI, bydd y Cyngor yn deall yn well sut y gall gynorthwyo i'w weithredu. Drwy ganolbwyntio ar y ffactorau y mae'n gallu dylanwadu arnyn nhw a chan dderbyn bod rhai ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth, bydd y Cyngor yn gallu rhoi cymorth i gyflawni ei amcanion yn well ac i lywio strategaethau'r dyfodol.
- 3.3 Mae'r adran nesaf yn edrych yn benodol ar y ffactorau hynny sy'n dylanwadu ar ddatblygiad yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau yn y meysydd canlynol:
- Polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol;
 - Ystadegau Cenedlaethol ac Ymchwil Polisi;
 - Amgylchiadau Allanol;
 - Y cyd-destun rhanbarthol;
 - Y cyd-destun o ran datblygiadau lleol;

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol

- 3.4 Rhaid i'r Cyngor ystyried yn barhaus p'un a fydd goblygiadau i'r CDLI yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol ym maes cynllunio. Os bydd y goblygiadau yn sylweddol, bydd raid i'r Cyngor benderfynu ar sut y bydd yn mynd i'r afael â phroblemau.
- 3.5 Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, cafodd y dogfennau polisi canlynol eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru:

Polisi Cynllunio Drafft Cymru (Argraffiad 10) (Wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar 18 Chwefror 2018)

- 3.6 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Drafft Cymru 10 sydd, o ran y dylunio, yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r fersiynau blaenorol lle mae'r fformat yn dyddio'n ôl i 2002. O gofio'r gwahanol ddarnau o deddfwriaeth sydd wedi'u cyflwyno dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Deddf Cynllunio (Cymru); Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), y gred oedd bod angen



ailstrwythuro'r ddogfen i ddangos gofynion deddfwriaethol y Deddfau yma, yn fwy clir.

- 3.7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol) feddwl am y tymor hir, gweithio ar y cyd â phobl a chymunedau i atal problemau, a mabwysiadu agwedd gydlynol wrth gyflwyno datblygiad cynaliadwy. Mae'r ddogfen hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynllunwyr croesawu'r cysyniad o greu lleoedd wrth wneud penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu, er mwyn sicrhau lleoedd cynaliadwy. O gofio bod creu lleoedd yn ganolog i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); y gred yw bydd raid manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial y gymuned leol, gyda'r bwriad o greu datblygiad sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a lles pobl (Llywodraeth Cymru, 2017). Cyhyd bod fformat a chynnwys y ddogfen yn aros yr un peth pan gaiff ei chyhoeddi; bydd yr holl newidiadau ynddi yn cael ystyriaeth briodol yn ystod proses adolygu'r CDLI.

Nodyn Cyngor Technegol 20: Y Gymraeg

- 3.8 Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru TAN 20 wedi'i ddiweddarau i gymryd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ar sut mae modd rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio ac ar sut i gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall. Wrth ddechrau ar y gwaith o baratoi'r cynllun, mae'r TAN yn datgan ei bod yn hanfodol ystyried sut y mae'r strategaeth a'r polisiâu'n debygol o effeithio ar yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau. Mae'n bosibl bydd ystyriaeth yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei rhoi wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, i'r graddau y maen nhw'n berthnasol i'r cais. Mae'r TAN hefyd yn nodi bod gofyn i gynlluniau ystyried y berthynas rhwng strategaeth, polisiâu, dyraniadau safleoedd, anghenion y gymuned a chyfleoedd y CDLI trwy Arfarniad Cynaliadwyedd, lle mae ystyried y Gymraeg yn elfen orfodol.
- 3.9 Mae Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050 yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd hawdd eu cyrraedd i siaradwyr Cymraeg er mwyn iddyn nhw ddefnyddio'u sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi'r angen hanfodol i greu amgylchiadau ffafriol i annog a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

- 3.10 Ym Mai 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y TAN 24 newydd, yn dilyn cyflwyno Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar 21 Mawrth 2017. Mae'r TAN yn darparu rhai diffiniadau allweddol gan gynnwys yr hyn sy'n cyfateb i'r 'amgylchedd hanesyddol' ac 'asedau hanesyddol'; ystyrir bod y diffiniadau yn eang ac yn cynnwys popeth. Mae'r TAN hefyd yn nodi y dylai Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol ac i'r graddau



y mae newid yn cael ei gynnig. Disgwylir i HIAs gynnwys digon o wybodaeth fel bod arwyddocâd yr ased ac effaith newid yn cael eu deall.

- 3.11 Mae'r TAN yn ymwneud ymhellach â 'lleoliad' ac yn amlinellu bod modd i asedau hanesyddol dynodedig ac an-ddynodedig gael lleoliad. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw dyfarnu barn fesul achos ynghylch a allai datblygiad arfaethedig niweidio lleoliad yr ased hanesyddol, fodd bynnag, rhaid iddo ystyried yr ymatebion a gafodd eu derbyn gan y sawl a wnaeth ymgynghori. Mae'r TAN hefyd yn amlwg bod clustogfa (buffer zone) y safle treftadaeth y byd, ceisiadau sy'n debygol o effeithio ar safle parc neu ardd hanesyddol gofrestredig a chadwraeth gweddillion archeolegol oll yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ymhellach, mae'r TAN yn nodi bod rhaid i'r rhestr o adeiladau fod yn seiliedig ar ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad, yn ogystal â phennu pan fo angen Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer datblygiadau penodol o fewn ardal gadwraeth.
- 3.12 Mae'r Cyngor yn nodi'r newidiadau i bolisi, canllawiau a deddfwriaeth genedlaethol a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol iddyn nhw yn rhan o broses adolygu'r CDLI. Ar hyn o bryd, ystyrir na fydd y ddeddfwriaeth a'r polisi a restrir uchod yn cael fawr o effaith ar gyflwyno'r CDLI. Mae strategaeth y CDLI yn gadarn ac ystyrir ei bod yn cydymffurfio â'r newidiadau wedi'u nodi yn y tymor byr. Deuir i'r casgliad, felly, bod dim angen unrhyw welliannau mawr ar hyn o bryd.

Ystadegau Cenedlaethol ac Ymchwil Polisi

- 3.13 Yn ystod y flwyddyn 2017-18, cafodd y dogfennau ystadegol ac ymchwil canlynol eu cyhoeddi:

Trothwyon a'r meini prawf ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

- 3.14 Ysgrifennodd WSP Parsons Brinckerhoff yr adroddiad uchod ym Mehefin 2017 ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn archwilio categorïau datblygu newydd a rhai presennol i benderfynu a ddylid eu cynnwys yn y drefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mae'r adroddiad yn ystyried y data a gafodd ei gasglu gan yr holl awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru ar draws 13 categori datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys: mwyngloddio brig; datblygiad masnachol, hamdden a manwerthu ar raddfa fawr; storio ynni; a chynhyrchu ynni o dyrbinau â nwy a disel. Mae'r adroddiad yn pennu'r tebygolrwydd y bydd prosiect o'r fath yn codi yng Nghymru; yn ystyried a yw'r datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o ran ei gymhlethdod a'i effeithiau; yn ystyried a yw'r prosiect yn seilwaith o natur strategol; yn adolygu cyflawniad cydsynio awdurdodau cynllunio lleol; ac yn penderfynu beth fyddai'n cael ei ystyried fel trothwyon priodol ar gyfer datblygu (Llywodraeth Cymru, 2017).



Hawliau Datblygu a Ganiateir ac Ynni Dŵr Risg Isel, ar Raddfa Fach

3.15 Ysgrifennodd Dulas Ltd yr adroddiad yma ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017. Mae'n gwneud argymhellion ar gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cynlluniau ynni dŵr risg isel, ar raddfa fach yng Nghymru. Comisiynwyd yr adroddiad ymchwil hwn yn dilyn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ynni dŵr a gyflwynodd ei ganfyddiadau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Ionawr 2017. Mae'r adroddiad yn nodi gwahanol elfennau cynlluniau ynni dŵr, sut maen nhw'n gweithredu a sut maen nhw'n cael eu hadeiladu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy bŵer dŵr. Nododd yr effeithiau cynllunio posib yn ymwneud â phob cynllun ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir yn yr ardal yma gan geisio lliniaru'r effaith ar fwynderau neu'r amgylchedd naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017).

Cynllunio ar gyfer telathrebu symudol: asesiad hawliau datblygu a ganiateir

3.16 Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Arcadis ar ran Llywodraeth Cymru a chafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Comisiynwyd yr adroddiad i asesu'r posibilrwydd o ddiwygio'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith telathrebu symudol er mwyn cynorthwyo i gynnig signal mewn rhagor o lefydd ledled Cymru. Mae'r adroddiad yn defnyddio technegau GIS, ymchwil maes ac arolwg o ddata ceisiadau cynllunio / penderfyniad er mwyn asesu'r agweddau gwahanol ar yr effaith y gallai codi uchder mastiau ei chynnig. Mae'r ymchwil yma'n cyflawni un o ymrwymadau Cynllun Gweithredu Symudol Llywodraeth Cymru.

Amgylchiadau Allanol

Y DU

3.17 **Economi:** Mae data ONS yn dangos bod yr economi yn parhau i wella, er bod hynny'n digwydd yn ara' deg. Mae data ONS diweddar yn dangos yr amcangyfrifir bod GDP wedi cynyddu 0.1% rhwng Chwarter 1 (mis Ionawr tan fis Mawrth) 2018 o'i gymharu â Chwarter 4 (mis Hydref tan fis Rhagfyr) 2017. Roedd twf GDP y DU ar ei arafaf ers Chwarter 4 2012. Cynyddodd gwaith cynhyrchu 0.7%, gyda thwf gweithgynhyrchu yn arafu i 0.2%; roedd yr arafu mewn gweithgynhyrchu wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan y cynnydd mewn cynhyrchu ynni oherwydd tymereddau is na'r cyfartaledd. Y diwydiannau gwasanaeth oedd y cyfraniad mwyaf i dwf GDP, gan gynyddu 0.3% yn Chwarter 1 (mis Ionawr tan fis Mawrth) 2018, er bod y duedd hirdymor yn parhau i ddangos gwanhad yn nhwf y gwasanaeth. Effeithiodd amaethyddiaeth hefyd ar GDP, a oedd yn is na 1.4% o'i chymharu â'r chwarter blaenorol. Er bod yr eira yn chwarter cyntaf 2018 wedi cael effaith ar y GDP o safbwynt gwerthiannau adeiladu a manwerthu, roedd yr effeithiau ar y cyfan yn fach, gydag effaith fach iawn mewn manau eraill o'r economi (ONS, 2018).



- 3.18 **Tai:** Mae'r data diweddaraf ynghylch tai yn dangos bod y sector tai wedi tyfu'n rhesymol gryf a chyson yn ystod y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2018. Dengys ffigurau ONS fod prisoedd tai, ar gyfartaledd, wedi codi 4.2% yn y DU ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2018. Mae hyn yr un peth a mis Chwefror 2018. Mae'r gyfradd dwf flynyddol wedi arafu ers canol 2016 ond mae wedi parhau o dan 5%, ac eithrio Hydref 2017, trwy gydol 2017 a dechrau 2018. Gostyngodd prisiau tai cyfartalog yn y DU 0.2%. Yn gyffredinol, mae hyn ychydig yn well na chyflawniad y flwyddyn flaenorol. Mae prisoedd tai yn parhau i gynyddu, ond roedd y farchnad wedi arafu'n fawr yn Chwarter 1 (mis Ionawr tan fis Mawrth) 2018. Pris tŷ yn y DU, ar gyfartaledd, ym mis Mawrth 2018 oedd £224,000; mae hyn £8,000 yn uwch na mis Mawrth 2017 a £500 yn is na mis Chwefror 2017. Roedd y pris a dalodd prynwyr tro cyntaf 4.0% yn uwch ar gyfartaledd na Chwefror 2017, sef £189,574. Ar gyfer perchnogion-meddianwyr (pobl sy'n berchnogion eisoes), cynyddodd prisoedd 4.6% (£260,975 ar gyfartaledd) yn ystod yr un cyfnod. Noda'r data, er gwaethaf y ffaith bod y farchnad dai wedi gwella'n gyffredinol, roedd y farchnad wedi arafu ers canol 2016. Er gwaethaf hyn, mae twf o hyd ar hyd a lled y DU i raddau (ONS, 2018).
- 3.19 Lloegr yn bennaf sy'n gyfrifol am y cynnydd ym mhrisiau tai y DU. Yno, cynyddodd prisiau tai 4.0% hyd at fis Mawrth 2018. Y pris cyfartalog yn Lloegr bellach yw £241,000. Yng Nghymru, cynyddodd prisiau tai 3.5% dros y 12 mis diwethaf. £153,000 yw pris tŷ ar gyfartaledd. Yn yr Alban, cododd y pris cyfartalog 6.7%. Bellach, £146,000 yw pris tŷ ar gyfartaledd. Ar hyn o bryd, y pris cyfartalog yng Ngogledd Iwerddon yw £130,000, sef cynnydd o 4.2% hyd at Chwarter 1 (mis Ionawr tan fis Mawrth) 2018 (ONS, 2018).
- 3.20 **Cyflogaeth:** Mae amcangyfrifon o'r Arolwg o'r Llafurlu yn dangos bod nifer y bobl sy'n gweithio yn cynyddu, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr tan fis Mawrth 2018. Hefyd, gostyngodd nifer y bobl sy'n ddi-waith a nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed nad ydyn nhw'n gweithio ac nad ydyn nhw'n edrych am waith neu ar gael i weithio (economaidd anweithgar). Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017, roedd 32.34miliwn mewn cyflogaeth, sef 197,000 yn fwy o'i gymharu â mis Hydref tan fis Rhagfyr 2017, a 396,000 yn fwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gyfradd gyflogaeth (cyfran y bobl 16-64 oed oedd mewn cyflogaeth) oedd 75.6%, y gyfradd uwch ers i'r cofnod cyntaf gael ei gofnodi yn 1971. Yn ogystal â hyn, doedd 1.42miliwn o bobl 16-64 oed ddim mewn cyflogaeth (pobl doedd ddim yn gweithio ond yn chwilio am waith ar gael i weithio. Roedd hyn 46,000 yn llai na'r cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017 ac 116,000 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y gyfradd ddiweithdra (cyfran y bobl sy'n gweithio a phobl ddi-waith, a oedd yn ddi-waith) oedd 4.2%, sef 4.6% yn is na'r flwyddyn flaenorol, a'r ffigwr isaf ers 1975. Yn ogystal â hyn, doedd 8.66miliwn o bobl 16-64 oed ddim mewn cyflogaeth, ddim yn chwilio am waith, a ddim ar gael i weithio (economaidd anweithgar). Roedd hyn 115,000 yn llai na'r cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017 ac 171,000 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y gyfradd anweithgarwch (y gyfran o bobl rhwng 16 a 64 oed oedd yn economaidd anweithgar) oedd 21.0%, sef ffigwr is na'r flwyddyn flaenorol (21.5%) a'r ffigwr isaf ers dechreuwyd casglu cofnodion cymharol yn 1971. Mae'r ffigurau diweddaraf yn pwysleisio bod enillion wythnosol cyfartalog gweithwyr ym



Mhrydain Fawr o ran ffigurau enwol (hynny yw, nid ydyn nhw wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant prisiau) wedi cynyddu 2.9% heb gynnwys bonysau, a 2.6% gan gynnwys bonysau, o'u cymharu â blwyddyn yn gynharach. Yn ôl amcangyfrifon diweddar, cynyddodd enillion wythnosol gweithwyr y DU 0.4% (heb gynnwys bonysau), o'u cymharu â'r llynedd. Fe wnaeth enillion doedd ddim yn cynnwys bonysau aros yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.

- 3.21 Gan ystyried yr 8.66 miliwn o bobl 16-64 oed a oedd yn economaidd anweithgar rhwng Ionawr a Mawrth 2018, y ddau gategori mwyaf oedd myfyrwyr (26.7% o'r cyfanswm) a phobl sy'n gofalu am gartref y teulu (23.6%). Nid oedd 2.31 miliwn o bobl yn chwilio am waith oherwydd eu bod yn astudio, 11,000 yn fwy na blwyddyn yn gynharach. Roedd 2.05 miliwn o bobl nad oedden nhw'n chwilio am waith oherwydd eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref, 162,000 yn llai na blwyddyn yn gynharach a'r ffigwr isaf ers dechreuwyd casglu cofnodion cymharol yn 1993. Y trydydd a'r pedwerydd categori mwyaf oedd salwch hirdymor (22.8%) ac wedi ymddeol (13.4%). Roedd 1.97 miliwn o bobl nad oedden nhw'n chwilio am waith oherwydd salwch hirdymor, 12,000 yn llai na blwyddyn yn gynharach. Roedd hefyd 1.16 miliwn o bobl nad oedden nhw'n chwilio am waith oherwydd eu bod wedi ymddeol, 14,000 yn llai na blwyddyn yn gynharach (ONS, 2018). Mae'r data yn pwysleisio'r ffaith bod yr economi yn parhau i dyfu, yn araf deg.

Cymru

- 3.22 **Tai:** Yn ystod 2017–2018 dechreuwyd adeiladu cyfanswm o 6,037 o anheddau newydd yng Nghymru. Mae hyn 834 o anheddau yn llai na'r nifer y dechreuwyd eu hadeiladu yn 2016-2017 (6,871), sef 12.13% yn llai na'r llynedd. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru ynghylch cwblhau anheddau yn ystod 2017–2018 yn dangos y cafodd 6,663 o anheddau eu cwblhau yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn yn lleihad o 2.48% ers y llynedd (6,833) ac mae'n dangos bod cynnydd cadarnhaol o flwyddyn i flwyddyn, er nad yw Cymru wedi adfer yn llawn i lefelau cyn y dirwasgiad. Roedd y mwyafrif o anheddau newydd a gafodd eu cwblhau yn cynnwys 3 ystafell wely (2,457); roedd 1,556 yn cynnwys 4 ystafell wely neu ragor; roedd 1,880 yn cynnwys 2 ystafell wely ac roedd 770 yn cynnwys 1 ystafell wely (StatsCymru).
- 3.23 **Cyflogaeth:** Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ystadegau economaidd allweddol i Gymru yn seiliedig ar amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu. Yn ôl y rhain, roedd 73.4% o'r rheini rhwng 16 a 64 oed yn gweithio yn ystod Ionawr–Mawrth 2018, sy'n is na'r gyfradd o 73.7% flwyddyn yng nghynt, ond cynnydd o 0.9% o 2015-2016. Cyfradd y DU ar gyfer yr un cyfnod oedd 75.6% o'i chymharu â chyfradd o 74.8% ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.
- 3.24 Y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru oedd 4.4% (ar gyfer y boblogaeth oedd yn economaidd weithgar) o fis Ionawr tan fis Mawrth 2018 Mae hyn 0.6% yn is ar y chwarter a 0.3% yn is o'i chymharu â blwyddyn yn gynharach. Cyfradd y DU ar gyfer yr un cyfnod oedd 4.2%. Mae hyn 0.2% yn is o'i gymharu â'r un chwarter y



llynedd a 0.4% yn is na'r llynedd (ar gyfer pobl 16-64 oed). Mae hyn yn dangos bod ffigurau Cymru yn gyffredinol yn ymdebygu i ffigurau gweddill y DU.

- 3.25 Y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru oedd 23.0%; mae hyn 0.4% yn is ar y chwarter a 0.6% yn uwch ar y flwyddyn. Cyfradd anweithgarwch economaidd y DU oedd 21.0%, roedd hyn 0.3% yn is ar y chwarter a 0.5% yn is ar y flwyddyn. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod tueddiadau'r DU yn cael eu hadlewyrchu yng Nghymru.
- 3.26 Roedd 388,900 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2017, sef 27.4% o'r cyfanswm mewn cyflogaeth. Mae hyn yn cymharu â 6,810,200 yn y sector cyhoeddus yn y DU gyfan, sy'n cyfateb i 21.4% o'r cyfanswm mewn cyflogaeth (Statscymru). Fodd bynnag, mae'r ONS yn adrodd bod 5.35 miliwn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2017, 132,000 yn llai na mis Medi 2017 a 100,000 yn llai na mis Rhagfyr 2016.
- 3.27 Mae'r economi wedi parhau i ddangos arwyddion bach o welliant trwy gydol 2017-2018, er mai'r twf yw'r arafaf ers Chwarter 4 yn 2012. Wedi dweud hynny, mae'r twf gwael i'w weld yn Chwarter 4 (mis Ionawr tan fis Mawrth 2018) ynghyd ag arafu sylweddol ers canol 2016, wedi arwain at y gyfradd dwf flynyddol yn parhau i fod o dan 5%. Er bod twf wedi bod yn yr economi, fel y gwelir yn y lleihad yn y nifer sy'n ddi-waith; cynnydd mewn prisoedd tai ar draws y DU; a chyfraddau adeiladu tai uwch, y disgwyl yw bydd y twf yn yr economi yn arafu wrth i chwyddiant barhau i gynyddu. Mae'n bosibl bydd hyn, law yn llaw â'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, yn arwain at ddirywiad yn y sectorau sy wedi'u nodi eisoes, fel y diwydiant cynhyrchu, y diwydiant adeiladu, a'r diwydiant amaeth, neu fydd dim cynnydd yn y diwydiannau yma. Mae'n bosibl, felly, bydd yn anodd annog datblygiad dros y blynyddoedd nesaf, yn unol â'r CDLI. Er gwaethaf hyn, bydd y Cyngor yn parhau i fynd ar drywydd atebion arloesol, gyda'r gobaith o fynd i'r afael â'r amodau economaidd fydd yn ei wynebu.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Bargen Ddinesig

- 3.28 Cafodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei harwyddo yn ystod seremoni arbennig a gafodd ei chynnal ar Ddydd Gŵyl Dewi 2017. Bydd y Fargen, sy werth £1.2 biliwn yn trawsffurfio economi de-ddwyrain Cymru. Nod y Fargen Ddinesig yw sefydlu swyddi a thyfu'r economi, a hynny drwy wella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, adeiladu ar seiliau arloesedd, buddsoddi yn y seilwaith ffisegol a digidol, a rhoi cymorth i fusnesau. Y nod yw sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa o'r holl fuddion economaidd a ddaw yn sgil y Fargen Ddinesig.



- 3.29 Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys talu am Fetro De Cymru sy werth £734 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £500 miliwn, ac mae Llywodraeth San Steffan wedi rhoi £125 miliwn tuag ato. Yn rhan o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach, mae Llywodraeth San Steffan wedi rhoi £375 miliwn, ac mae'r 10 awdurdod lleol wedi cytuno i fenthyg £120 miliwn. Yn dilyn arwyddo'r Fargen Ddinesig, bydd y broses bontio nawr yn digwydd.
- 3.30 Ar 12 Chwefror 2018, cymeradwyodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n cynnwys arweinwyr y 10 awdurdod lleol y cynllun busnes strategol sy'n nodi sut y bydd y 'Gronfa Fuddsoddi Ehangach' o £1.2 biliwn yn cael ei defnyddio dros y pum mlynedd nesaf er mwyn bwrw camau ymlaen. Mae'r Cynllun yn pennu amcanion strategol rhanbarthol y Fargen Ddinesig, sef: ffyniant a chyfle; cynhwysiant a chydaddoldeb; a hunaniaeth, diwylliant, cymuned a chynaliadwyedd. Amcanion economaidd cyffredinol y Fargen Ddinesig yw creu 25,000 o swyddi newydd a rhoi £4 biliwn mewn buddsoddiad yn y sector preifat.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

- 3.31 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chadw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol diweddar yn lle Cynllun Gofodol Cymru. Bydd gyda'r Fframwaith sawl rôl a swyddogaeth, gan gynnwys nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran defnydd tir a chynnig fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer cynlluniau strategol a datblygu lleol (Llywodraeth Cymru, 2017). Bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar broblemau defnydd tir a datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol y bydd modd i'r system gynllunio eu llywio a'u cyflwyno.
- 3.32 Yn dilyn y galw am dystiolaeth rhwng Rhagfyr 2016 a Mawrth 2017, dadansoddiwyd yr wybodaeth a dechreuwyd ymgynghoriad ar y Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafir ar 30 Ebrill 2018. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2018. Bydd y Fframwaith yn: nodi lle mae angen twf a seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol a sut y bydd modd i'r system gynllunio – yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol – gyflawni; darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol a chefnogi penderfyniad Datblygiadau o Bwys Arwyddocaol Cenedlaethol; gweithredu ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir; cefnogi strategaethau cenedlaethol economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau bod modd eu darparu drwy'r system gynllunio; ac adolygu bob pum mlynedd.

Cynllun Datblygu Strategol:

- 3.33 Yn yr un modd â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnig fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod tystiolaeth i'w chael sy'n dangos bod yna sawl problem cynllunio strategol dyw'r CDLlau cynharaf ddim wedi mynd i'r afael â nhw. O ganlyniad i hyn, mae modd i'r problemau hynny sy'n



'fwy na lleol' gael eu goresgyn ar lefel strategol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a bod cynlluniau cynhwysfawr ar eu cyfer. Mae tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth yn enghreifftiau o'r rhain. Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng y 10 awdurdod lleol i nodi a chytuno ar y materion paratoi allweddol, gan gynnwys ffiniau, llywodraethu a chynnwys. Bydd raid i RCT weithio ar y cyd ag awdurdodau De Ddwyrain Cymru eraill, a hynny er mwyn llunio cynllun ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; mae'n bosibl bydd yr ardal yma'n cynnwys rhan o RCT neu RCT cyfan. Mae Awdurdodau De Ddwyrain Cymru hefyd wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o nodi proses casglu tystiolaeth safonol ar gyfer y rhanbarth.

CDLI Awdurdodau Lleol Eraill De-ddwyrain Cymru

- 3.34 **Caerdydd:** Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd ei fabwysiadu ar 28 Ionawr 2016. Mae'n bosibl bydd tri safle strategol tir glas yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn cael effaith syfrdanol bosibl ar RCT, er bod yr effeithiau wedi'u trafod mewn perthynas â pholisïau. Bydd llwyddiant y polisi yn amodol ar gydweithrediad a chytundeb y ddau awdurdod, yn benodol o safbwynt y cam ceisiadau cynllunio. Mae'r newidiadau polisi yn datgan y caiff darpariaethau ar gyfer cartrefi newydd a chyfleoedd cyflogaeth leol yn yr ardaloedd hyn eu cyflawni yn raddol. Bydd yn cynnwys gwasanaeth bysiau cyflym drwy'r lleoliadau; seilwaith oddi ar y safle; estyniadau o'r rhwydwaith bysiau a rhagor o fysiau o fewn y gwasanaeth i'w wneud yn fwy dibynadwy; cyfleuster parcio a theithio strategol i'r gogledd o Gyffordd 33 yr M4; a chysylltiadau gwell â Rhondda Cynon Taf.
- 3.35 **Merthyr Tudful:** Cafodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ei gynnal ym mis 2015. Yn dilyn hyn, cafodd Adroddiad Adolygu ei lunio. Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 20 Ebrill 2016. Argymhellodd baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Cafodd Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2016-2031 Merthyr Tudful ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 13 Gorffennaf 2016, a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru ar 10 Awst 2016. Yna, bwriodd Cyngor Merthyr Tudful ymlaen ag Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffafir) o 14 Gorffennaf 2017 tan 6 Hydref 2017. Mae'r Cyngor nawr yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn darparu Adroddiad Ymgynghorol ar y CDLI wedi'i ddiweddarau cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun a drefnwyd i'w gynnal ym mis Mehefin / Gorffennaf 2018. Yn ogystal â hyn, yn ystod 2016 fe wnaeth Cyngor Merthyr Tudful wahodd cyflwyno Safleoedd Ymgeisio i'w cynnwys yn y Cynllun; daeth 103 i law. Gwahoddwyd sylwadau ar Gofrestr Safleoedd Ymgeisio a safleoedd SA hyd at 24 Tachwedd 2017.
- 3.36 **Sir Fynwy:** Dechreuodd adolygiad llawn o CDLI Sir Fynwy yn 2017 wrth gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Drafft. Roedd yr adroddiad yma'n destun ymgynghoriad am gyfnod o wyth wythnos rhwng 11 Rhagfyr 2017 a 5 Chwefror 2018. Ystyriwyd pob ymateb a ddaeth i law ac fe'i hymgorfforwyd yn yr Adroddiad Adolygu terfynol, fel y bo'n briodol. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad y dylid cychwyn ar weithdrefn adolygu llawn yn seiliedig ar y dystiolaeth, a dylid cynnwys y cyfnod 2018-2033. Bydd y Cyngor nawr yn paratoi Cytundeb Cyflawni, a fydd yn cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a chynllun cynnwys y



gymuned. Cafodd y Cytundeb Cyflawni ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mai 2018 a bydd nawr yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi ei gymeradwyo.

- 3.37 **Pen-y-bont ar Ogwr:** Dechreuodd adolygiad statudol o Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2017. Y cam cyntaf oedd cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad Drafft a oedd yn destun cyfnod ymgynghori o bedair wythnos o 30 Ebrill tan 25 Mai 2018. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r materion a ystyriwyd yn rhan o broses adolygu'r CDLI. Yn dilyn hynny, mae'n nodi'r newidiadau posib sy'n debygol o fod eu hangen i unrhyw gynllun diwygiedig. Mae hefyd yn nodi'r opsiynau posibl ar gyfer diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 3.38 **Torfaen:** Dechreuodd Cyngor Torfaen adolygiad statudol o'i Gynllun Datblygu Lleol yn 2017. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu Drafft ym mis Ebrill 2018 yn dilyn chwe wythnos o ymgynghori rhwng 31 Ionawr a 14 Mawrth 2018. Yn ei gyfarfod ar y 17 Ebrill 2018, cymeradwyodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddechrau adolygiad llawn o'i Gynllun Datblygu Lleol, a fydd yn arwain at CDLI newydd ar gyfer Torfaen am y cyfnod hyd at 2033. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Adolygu i'w gyhoeddi a'r Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid. Cafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y cytundeb cyflwyno. Daeth i ben ar 16 Mai 2018 gyda dros 100 o randdeiliaid yn cymryd rhan. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun a chynllun cynnwys y gymuned sy'n egluro sut a phryd mae modd i randdeiliaid a'r gymuned gyfrannu at baratoi'r CDLI diwygiedig.
- 3.39 **Blaenau Gwent:** Dechreuodd Blaenau Gwent adolygu'i CDLI ym mis Tachwedd 2016. Cynhaliwyd ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol wedi'u targedu, gan gynnwys ymgysylltiad mewnol ag ystod o sefydliadau lleol, ymgynghoreion statudol a sefydliadau eraill. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol ar bapur trafod a chynnal gweithdy â rhanddeiliaid. Roedd yr Adroddiad Adolygu, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn seiliedig ar ganfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol cyhoeddedig, newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r Adroddiad Adolygu'n nodi bod angen diwygio'r CDLI yn dilyn y broses adolygu lawn a bydd yn cynnwys ailystyried y strategaeth ac ymestyn cyfnod y cynllun. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn llunio Cytundeb Cyflawni, a fydd yn nodi sut mae'r Cynllun i'w baratoi. Bydd yn cynnwys cynllun cynnwys y gymuned ac amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cynllun.

Cyd-destun Datblygu Lleol

- 3.40 Er mwyn deall cyd-destun lleol y CDLI yn llawn, mae angen ystyried ystod o ffactorau sy'n effeithio ar weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i fframwaith polisiâu lleol, amodau economaidd lleol a strategaethau buddsoddi sefydliadau mawr y sector cyhoeddus a phreifat.



Fframwaith y Polisi Lleol

3.41 Mae'r ddogfen ganlynol wedi'i hychwanegu at y fframwaith polisi yn 2017-2018:

Canllawiau Cynllunio Atodol – Tai Amfeddiannaeth

3.42 Mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol – Tai Amfeddiannaeth ym mis Mai 2018 yn dilyn cyfnod ymgynghori o 25 Ionawr tan 23 Mawrth 2018. Ystyriwyd bod Canllawiau Cynllunio Atodol – Tai Amfeddiannaeth yn angenrheidiol gan fod y mathau yma o eiddo wedi'u clystyru'n drwm o gwmpas campws Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest. Mae'r gymuned leol wedi mynegi pryderon cynyddol bod crynhoad y tai amfeddiannaeth wedi cyrraedd lefel sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar gydlyniant cymunedol. Mae dau ddiben i'r Canllawiau Cynllunio Atodol, sef: yn gyntaf, amlygu'r adeg pan fydd crynhoad y tai amfeddiannaeth mewn ardal benodol yn dechrau cael effaith anffafriol ar y gymuned; ac yn ail, roi arweiniad ar safonau tai amfeddiannaeth, a sut dylen nhw gael eu datblygu.

3.43 Nod Canllawiau Cynllunio Atodol – Tai Amfeddiannaeth yw cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â Phobl, Lle ac Economi, trwy sicrhau na chaiff cymunedau sefydledig eu dadleoli ac na chaiff cydlynu ei danseilio gan grynodiadau tai sy'n dod i'r amlwg ar gyfer preswylwyr tymor byr. Bydd y ddogfen hefyd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod modd i gymunedau gynnal eu cyfleusterau, a bod modd iddyn nhw barhau'n fannau bywiog, a hynny drwy atal clystyrau mawr o dai amfeddiannaeth. Yn ogystal â hyn, gan fod y canllawiau wedi'u cynllunio i osgoi effeithiau negyddol crynodiadau o dai amfeddiannaeth, byddan nhw hefyd yn cyfrannu at yr amcanion lles a gafodd eu nodi o ganlyniad uniongyrchol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

3.44 Mae'r dogfennau canlynol wedi'u hychwanegu at sail dystiolaeth y CDLI yn 2017-2018:

Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Rhondda Cynon Taf 2017, wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018

3.45 Mae'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn rhoi gwybodaeth fanwl am argaeledd tir yn Rhondda Cynon Taf. Er bod angen digon o dir ar gyfer tai am y 5 o flynyddoedd nesaf, mae canfyddiadau'r astudiaeth yn dangos nad oedd dim ond digon ar gyfer 1.4 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2018. Roedd digon ar gyfer 1.3 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2017, 1.5 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2016, ac roedd digon ar gyfer 2.4 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2015. Mae'r cyflenwad wedi lleihau blynedd ers astudiaeth 2015. Mae'r Cyngor wedi amlinellu nifer o gamau gweithredu er mwyn gwella'r sefyllfa yn Adroddiad y CAATT. Ystyrir bod y diffyg yn ffactor bwysig i'w hystyried yn ystod proses diwygio Cynllun Datblygu Lleol.

Atodlen Argaeledd Tir Cyflogaeth 2018



- 3.46 Mae Atodlen Argaeledd Tir Cyflogaeth 2018 yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â thir cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn dangos bod gan Ronda Cynon Taf 729.40 hectar o dir cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys tir wedi'i ddyrannu, safleoedd presennol a safleoedd gwag/sy ddim yn cael eu defnyddio mwyach a gâi eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau cyflogaeth. Mae 156.12 hectar o dir ar gael o hyd ar gyfer ei ddatblygu (yn syth neu'n hir dymor) ac mae 98.69 hectar ar gael at ddibenion cyflogaeth yn syth. Bydd angen asesu'r portffolio o dir cyflogaeth yn rhan o weithdrefn adolygu i bennu beth ddylid ei gadw at ddibenion cyflogaeth a beth ddylai fod ar gael at ddefnydd arall.

Amgylchiadau'r Economi Leol

- 3.47 Dau sector o'r economi leol sy'n berthnasol i waith gweithredu'r CDLI yn llwyddiannus yw'r farchnad dai a'r farchnad eiddo masnachol.
- 3.48 Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 yn dangos bod gan y Cyngor ddigon o dir ar gyfer tai am 1.4 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2018 yn seiliedig ar y dull gweddilliol. Mae hyn blynedd yn llai ers astudiaeth 2015. Dangosodd CAATT 2017 bod gennym ni ddigon o dir ar gyfer tai am 1.3 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2017; mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad o 1.1 o flynyddoedd ers astudiaeth 2015. Er hynny, cyfanswm y tai a gafodd eu hadeiladu yn RhCT yn 2017-2018 oedd 552 annedd. Tai fforddiadwy oedd 198 ohonyn nhw. Mae'r ffigur cwblhau ar gyfer 2017-2018 yn llai na'r ffigur uchel o 716 o anheddau y flwyddyn flaenorol (2016-2017). Yn ystod y flwyddyn, caniatwyd 1,153 o dai ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gyfrannu at gyfanswm cyffredinol o 8,742 o unedau ers mabwysiadu'r Cynllun.
- 3.49 Yn ystod 2017-2018, caniatwyd 11,453.7 metr sgwâr o ddatblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr yn y Fwrdeistref. Roedd hyn yn cynnwys 8,488m² o ofod swyddfa B1 a 1,038m² o ofod llawr hamdden D2 ar hen safle Canolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale yn nhref Pontypridd; 169.7m² o arwynebedd llawr manwerthu A1 yn yr hen Boot Hotel ym mhrif dref Aberdâr ac archfarchnad fanwerthu fach sy'n cynnwys 1,758m², ychydig y tu allan i'r ardal fanwerthu yn y Porth. O'r cyfanswm yma, mae 9,695.7m² wedi'i ganiatáu mewn lleoliadau yng nghanol y dref yn Rhondda Cynon Taf yn 2017-2018, mae hyn yn cyfateb i 84.65% o'r holl ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fod £2.58miliwn o arian Ewrop wedi'i sicrhau tuag at becyn o £3.93miliwn i greu unedau busnes modern ar Safle Strategol Tresalem (Robertstown). Hefyd, cymeradwyodd y Cyngor dri chais am dyrbinau gwynt gyda chyfanswm o 9MW o allu cynhyrchu.
- 3.50 Mae effaith y dirwasgiad economaidd byd-eang ar economi Rhondda Cynon Taf wedi cael effaith sylweddol ar gyflwyno'r CDLI yn y blynyddoedd ar ôl ei fabwysiadu yn 2011. Er bod yr economi yn dangos arwyddion o welliant cyson ac er gwaethaf tystiolaeth bod y marchnadoedd tai a masnachol yn y Fwrdeistref Sirol yn tyfu, mae'r anawsterau economaidd ar ddechrau cyfnod y cynllun, yn anochel, yn cael effaith andwyol ar gyflawni rhai elfennau o'r CDLI. Bydd



canlyniad y refferendwm i adael yr UE hefyd yn siwr o gael effaith andwyol ar y twf yma, serch hynny, does dim modd mesur graddfa'r effaith.

Ein Cwm Taf – Cynllun Drafft Lles Cwm Taf 2018-2023

- 3.51 Yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn ardal Cwm Taf wedi cytuno i gydweithio i wella lles pawb yn yr ardal. Mae'r ymagwedd newydd yn ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd gynaliadwy, wrth weithio tuag at y saith nod o ran lles. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi cytuno i ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus cydweithredol sy'n rhoi pobl yng nghymunedau Cwm Taf wrth ei galon. Yr amcan yw torri'r rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a newid y ffordd y maen nhw'n gweithio fel eu bod yn atal problemau rhag digwydd yn hytrach na gorfod ymateb iddyn nhw.
- 3.52 Mae'r Cynllun Lles yn datgan yn glir bod y CDLI yn bwysig wrth weithio gyda'n cymunedau i leihau lefelau gordewdra. Gwneir hyn trwy gynyddu mynediad diogel i'r awyr agored ac annog cerdded a beicio. Mae'r cynllun yn pwysleisio ymhellach rôl y CDLI wrth dyfu economi leol gref gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n caniatáu i bobl fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf. Ystyrir bod CDLIau yn rhan annatod o dargedu adfywio ar gyfer cymdogaethau difreintiedig a chynyddu cyfleoedd i gysylltu â'n manau gwyrdd a'n seilwaith er mwyn helpu i wella lles corfforol a meddyliol.

Cyllid ar gyfer y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat a buddsoddiad ynddyn nhw

Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

- 3.53 Derbyniodd Rhondda Cynon Taf grant gwerth £6.678 miliwn drwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen adnewyddu yn ardal Pontypridd.
- 3.54 Mae'r rhaglen yn cynnwys y mentrau canlynol:
- **Creu Cartrefi Uwchben Eiddo Manwerthu** sy'n adnewyddu eiddo gwag uwchben eiddo manwerthu yng Nghanol Tref Pontypridd.
 - Mae **Homestep Plus** yn prynu ac yn adnewyddu eiddo, gan dargedu'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf drwy gynllun perchentyaeth cost isel/rhannu ecwiti.
 - **Gwresogi ac Arbed** sy'n cynnig mesurau effeithlonrwydd ynni i dros 300 o gartrefi.
 - **Adfywio Hen Safle Glofa Lady Windsor** sy'n paratoi gwybodaeth waelodlin yn gefn i ddatblygu'r safle ar gyfer cartrefi newydd yn y dyfodol.



- **Hwb Pontypridd** a fydd yn newid cynllun adeilad yr YMCA i greu cyfleuster amlddefnydd a fydd yn cynnig cyfleusterau newydd a gwell, gan gynnwys man gwaith ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau, ystafell ffitrwydd, caffi ac ystafell ar gelf.
 - **Rhaglen Gwella Treflun a Mwy Pontypridd** sy'n adnewyddu a gwella adeiladau masnachol yng nghanol y dref.
 - **Adfywio Canolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale** sy'n gwneud y mwyaf o botensial y safle ac sy'n cynnig cyfle euraidd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yng nghanol Canol Tref Pontypridd.
- 3.55 Daeth cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen i ben ym mis Mawrth 2017. Fodd bynnag, parhaodd prosiectau cydrannau i gael eu cyflwyno yn 2017/18.
- 3.56 Mae prosiectau pellach yn cael eu datblygu ar drothwy cyflwyno rhaglen ariannu adfywio Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Cynlluniau Eraill

- 3.57 **Ardal Gwella Busnes** – Pleidleisiodd busnesau ym Mhontypridd o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes yn y dref. Cafodd 'Eich Pontypridd/Your Pontypridd' ei sefydlu yn swyddogol ym mis Mai 2016 ac mae sawl menter yn cael ei gweithredu i wella masnach yn y dref.



4 MONITRO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

- 4.1 AMB 2018 yw'r seithfed adroddiad monitro i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Rhondda Cynon Taf. Mae'n gyfle pwysig i'r Cyngor asesu'r effaith y mae'r Cynllun yn ei chael ar les y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae modd i saith mlynedd ddechrau rhoi darlun hirdymor o lwyddiant proses y cynllun datblygu yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol yma'n caniatáu nodi patrymau datblygu sy'n dod i'r amlwg a materion cysylltiedig.
- 4.2 Bydd yr adran yma o'r adroddiad yn amlinellu'r Dangosyddion Craidd (DC) ac Allbwn Lleol yn y lle cyntaf ynghyd â'u Canlyniadau Monitro ar gyfer 2017–2018. Byd yna'n dadansoddi'r canlyniadau mewn perthynas â'r Polisiâu Craidd, gan asesu cyflawniad y polisiâu yma wrth gyflawni targedau'r cynllun.

Dangosyddion Craidd	Allbwn	Canlyniadau Monitro
DC 1	Y cyflenwad o dir ar gyfer tai o'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CAATT) ddiweddaraf yn flynyddol.	Dangosodd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CAATT) 2018 fod gan Rhondda Cynon Taf dir ar gyfer tai am 1.4 o flynyddoedd; mae cyflenwad o 5 mlynedd yn ofynnol. Dangosodd CAATT 2017 fod gan RhCT ddigon o dir ar gyfer tai am 1.3 o flynyddoedd.
DC 2	Y nifer o anheddau fforddiadwy ac anheddau marchnad cyffredinol ychwanegol (net) sy'n cael eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn flynyddol.	<p>Y cyfanswm o dai a gafodd eu cwblhau (fforddiadwy a marchnad)</p> <p>2017-2018 – 552 2016-2017 – 716 2015-2016 – 569 2014-2015 – 553 2013-2014 – 534 2012-2013 – 414 2011-2012 – 357 2010-2011 – 462</p> <p>Tai fforddiadwy a gafodd eu cwblhau (ac eithrio rhai'r farchnad)</p> <p>2017-2018 – 198 2016-2017 – 248 2015-2016 – 98 2014-2015 – 114 2013-2014 – 75 2012-2013 – 77 2011-2012 – 39</p>



		<p>2010-2011 – 7</p> <p>Tai marchnad a gafodd eu cwblhau (ac eithrio'r rhai fforddiadwy)</p> <p>2017-2018 – 354 2016-2017 – 480 2015-2016 – 471 2014-2015 – 439 2013-2014 – 459 2012-2013 – 337 2011-2012 – 318 2010-2011 – 384</p>																														
DC 3	Y cyflenwad/datblygiad (net) o dir cyflogaeth yn flynyddol.	Mae 98 o hectarau o dir cyflogaeth wedi'u dynodi yn y CDLI. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygiad safle 4.17ha yn Ystad Ddiwydiannol Hirwaun (ASO 14.2 – tua'r gogledd o 5 th Avenue, Hirwaun). Yn ystod 2017-2018, chafodd dim un datblygiad ei gynnal ar y safleoedd wedi'u dyrannu sy'n weddill.																														
DC 4	Canran y datblygiadau, gan gynnwys tai, sydd wedi cael caniatâd ar safleoedd wedi'u dynodi o'r holl safleoedd wedi'u dynodi yn y cynllun datblygu ac o'r holl ddatblygiadau sydd wedi cael caniatâd (ha ac unedau).	<p>Yr holl ddatblygiadau a gafodd ganiatâd ar safleoedd wedi'u dynodi yn ystod 2017–2018 (o gyfanswm o 841 o hectarau):</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Maint (ha)</th> <th>% o Dir wedi'i Ddynodi</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Hyd at 2011</td> <td>36.93ha</td> <td>4.4%</td> </tr> <tr> <td>2011 – 2012</td> <td>10.98ha</td> <td>1.3%</td> </tr> <tr> <td>2012 – 2013</td> <td>5.37ha</td> <td>0.6%</td> </tr> <tr> <td>2013 – 2014</td> <td>28.46ha</td> <td>3.4%</td> </tr> <tr> <td>2014 – 2015</td> <td>109.5ha</td> <td>13%</td> </tr> <tr> <td>2015 – 2016</td> <td>76.12ha</td> <td>9%</td> </tr> <tr> <td>2016 – 2017</td> <td>0.6ha</td> <td>0.07%</td> </tr> <tr> <td>2017 – 2018</td> <td>24.3ha</td> <td>3%</td> </tr> <tr> <td>Cyfansymiau i'r dyddiad</td> <td>291.72ha</td> <td>34.77%</td> </tr> </tbody> </table> <p>Yr holl ddatblygiadau o breswylfeydd a gafodd</p>		Maint (ha)	% o Dir wedi'i Ddynodi	Hyd at 2011	36.93ha	4.4%	2011 – 2012	10.98ha	1.3%	2012 – 2013	5.37ha	0.6%	2013 – 2014	28.46ha	3.4%	2014 – 2015	109.5ha	13%	2015 – 2016	76.12ha	9%	2016 – 2017	0.6ha	0.07%	2017 – 2018	24.3ha	3%	Cyfansymiau i'r dyddiad	291.72ha	34.77%
	Maint (ha)	% o Dir wedi'i Ddynodi																														
Hyd at 2011	36.93ha	4.4%																														
2011 – 2012	10.98ha	1.3%																														
2012 – 2013	5.37ha	0.6%																														
2013 – 2014	28.46ha	3.4%																														
2014 – 2015	109.5ha	13%																														
2015 – 2016	76.12ha	9%																														
2016 – 2017	0.6ha	0.07%																														
2017 – 2018	24.3ha	3%																														
Cyfansymiau i'r dyddiad	291.72ha	34.77%																														



		<p>ganiatâd ar safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer preswylfeydd 2017–2018 (cyfanswm o 386 o hectarau wedi'u dynodi ar gyfer preswylfeydd a thua 9,200 o unedau);</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Maint (ha)/Unedau</th> <th>% o Dir wedi'i Ddynodi/ % o Unedau wedi'u Dynodi</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Hyd at 2011</td> <td>30.76 / 589</td> <td>7.96% / 6.4%</td> </tr> <tr> <td>2011 – 2012</td> <td>10.98 / 244</td> <td>2.84% / 2.65%</td> </tr> <tr> <td>2012 – 2013</td> <td>5.37 / 151</td> <td>1.39% / 1.64%</td> </tr> <tr> <td>2013 – 2014</td> <td>19.38 / 531</td> <td>5.02% / 5.77%</td> </tr> <tr> <td>2014 – 2015</td> <td>50.58 / 950</td> <td>13.1% / 10.32%</td> </tr> <tr> <td>2015 – 2016</td> <td>76.12 / 1,852</td> <td>19.7% / 20.1%</td> </tr> <tr> <td>2016 – 2017</td> <td>0.6 / 14</td> <td>0.16% / 0.152%</td> </tr> <tr> <td>2017 – 2018</td> <td>19.8 / 460</td> <td>5.13% / 5%</td> </tr> <tr> <td>Cyfansymiau i'r dyddiad</td> <td>213.4 / 4,791</td> <td>55.3% / 52.03%</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r 24.3 o hectarau sydd wedi cael caniatâd ar safleoedd wedi'u dynodi yn ystod 2017–2018 yn 45% o'r holl hectarau lle mae datblygiad wedi cael caniatâd yn ystod y flwyddyn, sef 54.0.</p> <p>Cafodd 49.44% o'r holl anheddau a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 (570 o 1,153) eu hadeiladu ar safleoedd wedi'u dynodi.</p>		Maint (ha)/Unedau	% o Dir wedi'i Ddynodi/ % o Unedau wedi'u Dynodi	Hyd at 2011	30.76 / 589	7.96% / 6.4%	2011 – 2012	10.98 / 244	2.84% / 2.65%	2012 – 2013	5.37 / 151	1.39% / 1.64%	2013 – 2014	19.38 / 531	5.02% / 5.77%	2014 – 2015	50.58 / 950	13.1% / 10.32%	2015 – 2016	76.12 / 1,852	19.7% / 20.1%	2016 – 2017	0.6 / 14	0.16% / 0.152%	2017 – 2018	19.8 / 460	5.13% / 5%	Cyfansymiau i'r dyddiad	213.4 / 4,791	55.3% / 52.03%
	Maint (ha)/Unedau	% o Dir wedi'i Ddynodi/ % o Unedau wedi'u Dynodi																														
Hyd at 2011	30.76 / 589	7.96% / 6.4%																														
2011 – 2012	10.98 / 244	2.84% / 2.65%																														
2012 – 2013	5.37 / 151	1.39% / 1.64%																														
2013 – 2014	19.38 / 531	5.02% / 5.77%																														
2014 – 2015	50.58 / 950	13.1% / 10.32%																														
2015 – 2016	76.12 / 1,852	19.7% / 20.1%																														
2016 – 2017	0.6 / 14	0.16% / 0.152%																														
2017 – 2018	19.8 / 460	5.13% / 5%																														
Cyfansymiau i'r dyddiad	213.4 / 4,791	55.3% / 52.03%																														
DC 5	Y dwysedd, ar gyfartaledd, o ddatblygiadau tai a gafodd ganiatâd ar safleoedd datblygu wedi'u dynodi yn y Cynllun.	24.2 o ddatblygiadau fesul hectar (dfh) yw'r dwysedd, ar gyfartaledd, o ddatblygiadau tai ar safleoedd wedi'u dynodi.																														
DC 6	Y datblygiadau newydd (ha) a gafodd ganiatâd ar dir wedi'i	Yn ystod 2017–2018, roedd 24.97 o'r 54 o hectarau o dir lle cafodd datblygiadau ganiatâd yn dir wedi'i ddatblygu eisoes neu'n dir lle cafodd datblygiadau eu																														



	ddatblygu o'r blaen wedi'u mynegi'n ganran o'r holl ddatblygiadau wedi'u caniatáu yn flynyddol.	gwneud o fewn hen adeiladau. Mae hyn yn cyfateb i 46.44%.
DC 7	Datblygiadau sylweddol ar gyfer manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a gafodd ganiatâd yng nghanol trefi wedi'u mynegi'n ganran o'r holl ddatblygiadau sylweddol ar gyfer manwerthu, swyddfeydd a hamdden. (Dangosydd wedi'i ddiwygio yn sgil cytundeb).	Yn ystod 2017-2018, cafodd 11,453.7m ² o ddatblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr ei ganiatáu yn y Fwrdeistref. Roedd hyn yn cynnwys 8,488m ² o ofod swyddfa B1 a 1,038m ² o ofod llawr hamdden D2 yn hen safle Canolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale yn nhref Pontypridd; 169.7m ² o arwynebedd llawr manwerthu A1 yn yr hen Boot Hotel ym mhrif dref Aberdâr ac archfarchnad fanwerthu fach sy'n cynnwys 1,758m ² , ychydig y tu allan i'r ardal fanwerthu yn y Porth. O'r cyfanswm yma, mae 9,695.7m ² wedi ei ganiatáu mewn lleoliadau yng nghanol trefi yn Rhondda Cynon Taf yn 2017-2018. Mae hyn yn cyfateb i 84.65% o'r holl ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden.
DC 8	Y nifer o ddatblygiadau (yn ôl y categori o ddatblygiad wedi'i nodi ym mharagraff 5.1 o NCT 15) a gafodd ganiatâd mewn ardaloedd o orlifdir C1 ac C2 nad ydyn nhw'n bodloni gofynion yr holl brofion yn NCT 15 (paragraff 6.2i-v).	Yn ystod 2017–2018, chafodd dim datblygiadau agored iawn i niwed ganiatâd mewn ardaloedd o orlifdir categori C1 neu C2 heb fodloni gofynion yr holl brofion yn NCT 15.
DC 9	Y cyfanswm o dir glas a gofodau agored a gafodd eu defnyddio ar gyfer datblygiadau nad ydyn nhw'n rhan o'r cynllun datblygu.	Yn ystod 2017–2018, cafodd datblygiadau ganiatâd ar 9.29 o hectarau o dir glas nad ydyn nhw wedi'u dynodi yn y CDLI.
DC 10	Y tir a gafodd ganiatâd ar gyfer rheoli gwastraff wedi'i fynegi'n ganran o'r holl dir sydd ei angen at y dibenion hyn yn unol â'r Cynllun Rheoli	Yn ystod 2017–2018, chafodd dim un hectar ganiatâd ar gyfer rheoli gwastraff.



	Gwastraff Rhanbarthol (NCT 21) yn flynyddol.	
DC 11	Yr agregau crai a gafwyd o'r tir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ynghylch Agregau wedi'u mynegi'n ganran o'r cyfanswm sydd ei angen. Mae hwn wedi'i nodi yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).	Chafodd dim gwaith ganiatâd i gloddio am agregau crai yn ystod 2017–2018.
DC 12	Cyfanswm yr ynni y mae modd ei gynhyrchu yn sgil datblygiadau Ynni Adnewyddadwy (MW) yn Ardaloedd Chwilio Strategol yn flynyddol.	Chafodd dim un datblygiad ynni adnewyddadwy ei gyflwyno o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol F yn ystod 2017-2018. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Cyngor dri chais ar gyfer tyrbinau gwynt y tu allan i Ardal Chwilio Strategol F gyda chyfanswm cynhyrchu o 9MW.

Dangosyddion Cynnyrch Lleol		Canlyniadau Monitro
DLI 1	Y nifer o anheddau sy'n cael caniatâd y tu allan i ffiniau aneddiadau sydd wedi'u diffinio yn flynyddol.	Cafodd 15 o anheddau ganiatâd y tu allan i ffiniau aneddiadau sydd wedi'u diffinio yn ystod 2017–2018. Roedd 6 o'r anheddau yma'n ymwneud â'r un cais, a chyfagos i'r ffin aneddiadau yn unol â pholisi ASO 12. Roedd 3 o'r anheddau yma ar gyfer annedd menter gwledig. Roedd 1 ar gyfer adnewyddu caniatâd blaenorol.
DLI 2	Y nifer o anheddau fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd eithriedig gwledig ledled Rhondda Cynon Taf yn flynyddol.	Yn ystod 2017-2018, chafodd dim un annedd fforddiadwy ei hadeiladu ar safleoedd eithriedig gwledig.
DLI 3	Pris tai ar gyfartaledd yn Rhondda Cynon Taf yn flynyddol.	Y pris gwirioneddol ar gyfer gwerthu tai yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2017-2018 oedd £124,346; mae hyn yn debyg i'r flwyddyn



		flaenorol a 3% yn uwch na 2015-2016 (£120,645) (Rightmove, 2018). Pris tŷ teras, ar gyfartaledd, yn Rhondda Cynon Taf oedd £84,502; pris tŷ par oedd £140,649 a phris tŷ ar wahân oedd £233,489. Ardal ddrutach y Fwrdeistref oedd Groes-faen (£424,000 ar gyfartaledd) a thref Tylorstown oedd y lleiaf drud (£51,589 ar gyfartaledd).
DLI 4	Y nifer o dai fforddiadwy y mae Grant Tai Cymdeithasol yn eu hariannu yn flynyddol.	Ariannodd Grant Tai Cymdeithasol 69 o dai fforddiadwy yn ystod 2016-2017.
DLI 5	Y ganran o dir cyflogaeth sy'n cael ei golli at ddibenion eraill yn flynyddol.	Chafodd dim tir cyflogaeth ei golli at ddibenion eraill yn ystod 2017–2018.
DLI 6	Y cyfanswm o ofod llawr sy'n cael ei ddatblygu at ddibenion manwerthu nwyddau cyfleus/cymharol yn flynyddol.	Cafodd cyfanswm o 1,787.84m ² ei ddatblygu yn 2017-2018 ar gyfer arwynebedd llawr manwerthu. Roedd hyn yn cynnwys 1,305m ² ar gyfer archfarchnad leol yng Nghwm-bach, 389.07m ² o arwynebedd llawr manwerthu yn Nhonpentre a siop gyfleuster fach ym mhentref Llwydcoed.
DLI 7	Cyfraddau gwacter pob Prif Dref ac Anheddiad Allweddol.	Dyma gyfraddau gwacter blynyddol y Prif Drefi ac Anheddiadau allweddol canlynol yn ôl yr Arolwg Manwerthu Canol Tref yn ystod 2017-2018: Aberdâr 14.09% Pontypridd 7.31% Llantrisant / Tonysguboriau 5.3% Glynrhedynog 13.04% Hirwaun 21.73% Llanharan 0% Aberpennar 11.70% Y Porth 11.57% Tonypany 16.44% Tonyrefail 18.51% Treorci 7.37% Y gyfradd wacter gyffredinol ar gyfer y



		canolfannau yma yn 2017-2018 oedd 11.55%; yn 2016-2017, y gyfradd oedd 12.5%; yn 2015-2016, y gyfradd oedd 10.6%; ac yn 2014-2015, y gyfradd oedd 10.8%.
DLI 8	Y nifer o geisiadau sy'n cael eu cymeradwyo yn flynyddol i ddefnyddio safleoedd siopa cynradd ac eilaidd at ddibenion heblaw manwerthu.	Chafodd dim ceisiadau eu cymeradwyo yn ystod 2017–2018 i ddefnyddio safleoedd siopa cynradd ac eilaidd at ddibenion heblaw manwerthu.
DLI 9	Y nifer o briffyrdd, heolydd, llwybrau trafniadaeth gyhoeddus a chynlluniau cerdded a seiclo sy'n cael eu rhoi ar waith yn flynyddol.	Cafodd rhan o'r llwybr beicio rhwng Ystad Ddiwydiannol y Gelli a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda ei rhoi ar waith yn 2017-2018. Cafodd hyn ei ariannu gan y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Dechreuodd gwaith hefyd ar y Ffordd Gyswilt ar Draws y Cwm yn Ne Aberpennar. Y disgwyl yw bydd gwaith adeiladu'r brif bont yn dechrau yn ystod haf 2018.
DLI 10	Y gyfran o ddatblygiadau tai, cyflogaeth a manwerthu newydd y mae modd eu cyrraedd yn hawdd drwy sawl modd o deithio yn flynyddol.	Mae'r holl dai newydd ac eithrio un, neu 99.82% o 1,153 o dai a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Mae'r ddau ganiatâd nad oedden nhw o fewn 400 metr ar gyfer anheddau menter wledig. Mae'r holl safleoedd cyflogaeth a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Mae'r holl safleoedd manwerthu a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu ragor.
DLI 11	Y nifer o Safleoedd o Bwysigrwydd o ran Gwarchod Natur (SINC) sydd wedi cael eu heffeithio gan ddatblygiadau a'r nifer o gynlluniau lliniaru sydd wedi cael eu cadarnhau yn flynyddol (dangosydd wedi'i ddiwygio yn sgil cytundeb).	Yn ystod 2017-2018, cafodd 2 safle SINC eu heffeithio gan ddatblygiadau. Sicrhaodd cais am lwybr beicio gynllun lliniaru trwy amodau a sicrhawyd cynllun rheoli coetiroedd hirdymor trwy gytundeb S.106 ar gyfer cynnig archfarchnad fach.
DLI	Cyfraddau	Dyma'r cyfraddau ailgylchu/ailddefnyddio/compostio ar gyfer



12	ailgylchu/ailldefnyddio/compostio blynyddol.	<p>2016–2017:</p> <p>Ailgylchu – 45.99%; Ailldefnyddio – 0.79%; Compostio – 14.53%; Adfer Ynni – 45.98%; a Tirlenwi – 1.76%.</p>
DLI 13	Datblygiadau newydd sy'n gwneud dyddodion mwynau yn annefnyddadwy yn flynyddol.	<p>Dyma'r dyddodion mwynau sydd bellach o bosibl yn annefnyddadwy o ganlyniad i ddatblygiadau newydd yn ystod 2017–2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tywodfaen 0.56 o hectarau • Tywod a gro 0 o hectarau • Calchfaen 0 o hectarau • Glo 2.27 o hectarau <p>Yn unol â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (9), cafodd y penderfyniad ei wneud y byddai rhaid i ddatblygiad feddu ar sawl nodwedd cyn ei fod yn peri i adnodd fod yn annefnyddadwy: rhaid iddo fod yn barhaol; rhaid iddo gael ei ystyried yn sensitif; a rhaid iddo fod y tu allan i ffiniau aneddiadau. Ymhellach, fydd unrhyw ran o'r ardaloedd diogelu mwynau a oedd yn ymarferol annefnyddadwy eisoes oherwydd adeiladau presennol (sydd â'r nodweddion uchod) ddim yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r effaith ar y dyddodyn.</p>
DLI 14	Trafodaethau cyn gwneud cais ac ymarferion uwchgynllunio gyda datblygwyr mewn perthynas â datblygu Safleoedd Strategol.	<p>Bu trafodaethau cyn gwneud cais a/neu ymarferion uwchgynllunio mewn perthynas â Safleoedd Strategol yn Nhresalem/Abernant, y tir i'r de o Hirwaun, safle hen Bwll Glo Fernhill, Llanilid, Mwyndy/Tonysguboriau a hen safle Pwll Glo Cwm yn ystod 2017–2018.</p>
DLI 15	Caniatâd cynllunio ar gyfer Safleoedd Strategol.	<p>Yn 2017-2018, rhoddwyd caniatâd i 460 o anheddau yng Nghefn-yr-hendy ar Safle Strategol Mwyndy/Tonysguboriau.</p>
DLI 16	Y gyfradd ddatblygu flynyddol o breswylfeydd a/neu fasnach ar	<p>Yn ystod 2017-2018, cafodd 29 annedd eu hadeiladu ar St Iiid's Meadow, Llanilid, sy'n ffurfio rhan o'r Safle Strategol. Cyn 2017-</p>



	Safleoedd Strategol.	2018, cafodd 296 o anheddau eu hadeiladu ar y Safle Strategol.
DLI 17	Canolfannau lleol, ysgolion cynradd, lleoliadau awyr agored a chynlluniau rheoli bioamrywiaeth newydd ar Safleoedd Strategol yn flynyddol.	Mae dulliau o liniaru bioamrywiaeth wedi cael eu gweithredu yn sgil y gwaith ar y mwynglawdd brig ar Safle Strategol Hirwaun ac maen nhw'n parhau. Cytunwyd ar gynllun rheoli hefyd yng Nghefn-yr-hendy trwy gytundeb cyfreithiol Adran 106.
DLI 18	Seilwaith priffyrdd a chyfleustodau newydd ar Safleoedd Strategol yn flynyddol.	Mae mynedfa canol tref newydd Mwyndy/Tonysguboriau wedi cael ei chreu, ac mae gwaith datblygu seilwaith yn parhau.
DLI 19	Gweithredu Strategaethau Adfywio yn ystod 2010–2021.	Yn ystod 2017–2018, cafodd rhagor o elfennau o Strategaethau Adfywio Aberdâr a Phontypridd eu gweithredu.

Dadansoddi Proses Fonitro Polisi Craidd

POLISI:	AMCAN:	POLISIŶAU CYSYLLTIEDIG:
SG 1 – Datblygiadau yn y Gogledd	1, 2, 4, 5, 6 a 8	ASO 1 i ASO 28
TARGED MONITRO:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol yn ystod cyfnod y Cynllun.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: 40% o ddynodiadau	
	2021: 100% o ddynodiadau	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DC 2, DC 4, DC 5, DC 6, DC 8, DC 9, DC 12, DLI 9, DLI 11 a DLI 19		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
Elfen allweddol o strategaeth graidd CDLI Rhondda Cynon Taf yw adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol (ASO). Er mwyn adeiladu cymunedau		



cryf a chynaliadwy bydd raid atal y broses o ddiboblogi a dirywio a chyflawni datblygiadau buddiol a chynaliadwy yng ngogledd Rhondda Cynon Taf. I ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y targed yma, mae angen ystyried canfyddiadau'r ymarfer monitro sydd wedi eu nodi yn y dangosyddion uchod mewn perthynas â'r ffactorau cydberthynol canlynol:

Tai

Isod y mae'r ffigurau **cwblhau adeiladu tai** yn yr ASO ar gyfer 2017–2018, ac er cymhariaeth mae ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi'u nodi (DC 2);

	Marchnad Gyffredinol	Fforddiadwy	Cyfanswm
2017-2018	96	32	128
2016-2017	153	43	196
2015-2016	127	48	175
2014-2015	157	20	177
2013-2014	153	23	176
2012-2013	94	52	146
2011-2012	130	26	156
2010-2011	160	21	181

O ystyried y rhain a'r rheini a gafodd eu cwblhau yn gynharach, mae cyfanswm o 2,099 o **anheddu newydd** wedi cael eu hadeiladu yn yr ASO ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006.

Yn ystod 2017–2018, **cymeradwyodd** y Cyngor **536 o dai** yn yr ASO. Ers mabwysiadu'r cynllun yn 2011, mae **2,572** o dai wedi cael caniatâd cynllunio yn yr ASO.

Chafodd dim un annedd ganiatâd ar safleoedd wedi'u dyrannu o fewn Ardal Strategaeth Ogleddol yn ystod 2017-2018 (DC 5).

Hyd at y dyddiad yma, mae'r safleoedd wedi'u dynodi canlynol wedi cael caniatâd cynllunio ac mae datblygiadau wedi bod arnyn nhw: (DC 4)

- ASO 9.4 – Safle'n cynnwys yr Hen Weithfeydd Brics, Hen Laethdy a thir tomen y tu ôl i Birchwood, Llwydcoed;
- ASO 9.9 – Fferm Ynyscynon, Cwm-bach (rhannol)
- ASO 9.10 – Tir ar ddiwedd Stryd Godreaman, Godreaman
- ASO 9.11 – Tiroedd Gwernifor, Aberpennar
- ASO 9.8 – Dyffryn Row, Cwm-bach, Aberdâr (Amlinellol);

Hyd y dyddiad yma, mae'r safleoedd wedi'u dynodi canlynol wedi cael caniatâd cynllunio:

- ASO 9.8 – Dyffryn Row, Cwm-bach, Aberdâr (Amlinellol);
- ASO 9.9 – Fferm Ynyscynon, Cwm-bach (rhannol) (Amlinellol)



- ASO 9.18 – Ysbyty Llwynypïa (Amlinellol).

Safleoedd Strategol

Mae manylion am gynnydd y Safleoedd Strategol wedi'u nodi yn eu tablau dadansoddi perthnasol mewn perthynas â pholisïau SG 3.1 i SG 3.8.

Datblygu Cynaliadwy

Yn ystod 2017–2018, roedd 24.97 o'r 54.0 o hectarau o dir lle cafodd datblygiadau ganiatâd yn dir wedi'i ddatblygu eisoes neu'n dir lle cafodd datblygiadau eu gwneud o fewn hen adeiladau (DC 6). Mae hyn yn cyfateb i 46.44%.

O'r holl ddatblygiadau sydd wedi cael caniatâd ar dir o fewn yr ASO yn ystod 2017–2018 (sef cyfanswm o 23.35 o hectarau), roedd 17.57 o hectarau neu 75.24% yn dir wedi'i ddatblygu o'r blaen. Roedd 1.67 o hectarau, neu 7.15% o ddatblygiadau a gafodd ganiatâd, o fewn safleoedd datblygedig presennol. Roedd 4.1 o hectarau neu 17.5% o ganiatadau ar gyfer caeau glas ac roedd 0.4 o hectarau neu 0.17% o ganiatadau ar gyfer mannau agored.

Yn ystod 2017–2018, chafodd dim datblygiadau agored iawn i niwed ganiatâd mewn ardaloedd o orlifdir categori C1 neu C2 heb fodloni gofynion yr holl brofion yn NCT 15 (DC 8).

Chafodd dim un datblygiad ynni adnewyddadwy ei gyflwyno o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol F yn ystod 2017-2018.

Yn ystod 2017-2018, cafodd un safle SINC ei effeithio gan ddatblygiad yn yr ASO. Mae cais am archfarchnad ar gyrion canol tref y Porth wedi sicrhau cynllun lliniaru trwy gynllun rheoli coetiroedd hirdymor (DLI 11).

Gweithgarwch Economaidd

Yn y safle wedi'i ddynodi o 4.17ha yn Ystad Ddiwydiannol Hirwaun (ASO 14.2) mae gwaith yn mynd rhagddo ar weithredu'r cynlluniau ar gyfer ffatri adfer adnoddau gwastraff a chynhyrchu ynni yn Fifth Avenue a Ninth Avenue. Mae'r cynllun yn cynnwys ffatri gwres a phŵer cyfunedig a all gynhyrchu hyd at 20 MW. Mae dau adeilad wedi'u hadeiladu hyd yma, ac mae gwaith sylweddol ar y tir wedi'i wneud.

Mae'r datblygiad sylweddol ar gampws Coleg y Cymoedd, a fydd yn cymryd lle y campws presennol yn Nhrecynon, bellach wedi dod i ben yn Nhresalem.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fod £2.58miliwn o arian Ewrop wedi'i sicrhau tuag at becyn o £3.93miliwn i greu unedau busnes modern ar Safle Strategol Tresalem (Robertstown). Y disgwyl yw bydd y cynllun yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r gweithrediadau mwyngloddio brig wedi dod i ben ar elfen



cyflogaeth Safle Strategol Hirwaun. Cynhaliwyd gwaith ôl-lenwi parhaus yn y mwynglawdd a rhagwelir y bydd gwaith datblygu platlawdd ar gyfer datblygiadau masnachol yn y dyfodol yn mynd rhagddo erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r ASO wedi gweld caniatâd ar gyfer 5,948m² o ofod llawr diwydiannol yn 2017-2018. Mae hyn yn cynnwys 517m² o le B1 yn Hirwaun (300m²) a Phen-y-graig (217m²); 3,150m² o le B2 ar Ystad Ddiwydiannol Hirwaun ar gyfer man pacio wyau; 952m² ar gyfer 7 uned ddechreuol B1 / B2 / B8 ar Ystad Ddiwydiannol Pontcynon a 1,329m² o ddatblygiad cymysg B1 / B2 / B8 ar draws tair uned ar Ystad Ddiwydiannol y Gelli, Cwm Rhondda. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 1.84 hectar a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer cyflogaeth yn yr ASO yn ystod 2017-2018. Mae pob caniatâd yn dyst i'r twf yn yr economi a pharodrwydd cwmnïau i fuddsoddi yn Rhondda Cynon Taf. Maent hefyd yn cyfrannu tuag at fanc tir cyflogaeth y Cyngor.

Yn ychwanegol, cafodd 3,402.4m² o ganiatâd arwynebedd llawr manwerthu ei roi yn yr ASO yn 2017-2018. Mae hyn yn cynnwys 169.7m² o ddatblygiad A1 a 169.7m² o ddatblygiad A3 yn hen dafarn y Black Lion, Aberdâr; 1,305m² o ddatblygiad A1 ar gyfer siop Co-operative fach yn Heol y Gamlas, Cwmbach; a 1,758m² o ddatblygiad A1 ar gyfer siop Aldi ar hen safle Remploi ychydig y tu allan i ganol tref Porth. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 1.45 hectar a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu yn yr ASO yn ystod 2017-2018.

Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn yn y dadansoddiad o ganlyniadau perthnasol ar gyfer SG 6 a SG 7 isod. Mae rhagor o wybodaeth am unrhyw gynigion ynglŷn â dynodiadau o'r fath ym Mynegai 1 – Statws Dynodiadau.

Trafnidiaeth Gynaliadwy / Hygyrchedd

Mae'r rhestr isod yn nodi'r cynlluniau cludiant sy wedi'u cwblhau hyd yma (DLI 9):

- ASO 21.3 – Ehangu cyfleusterau parcio a theithio presennol yn Nhresalem;
- ASO 23.3 – Llwybr seiclo a chysylltiadau Blaenau'r Cymoedd i Ystad Ddiwydiannol Hirwaun;
- ASO 21.2 – Y tir i'r de o Dŷ Trevithick wrth ochr yr A470 yn Abercynon.

Yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i nodi uchod, bu cynnydd yng nghynlluniau wedi'u dynodi eraill. Yn yr Adran Strategol Ogleddol, mae'r Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yn Ne Aberpennar wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer ffordd gyswllt dwyrain-orllewin a phont newydd drwy welliannau i gyffordd ar yr A4059. Dechreuodd y gwaith adeiladu yn 2017 a'r disgwyl yw bydd gwaith ar y brif bont ffordd yn dechrau yn haf 2018. Mae'r Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yng Ngogledd Aberpennar wedi cael ei hadolygu'n rhan o ddatblygu ffordd gyswllt yn y de.

Mae'r gwasanaeth parcio a theithio Safle Strategol 5 (Hirwaun) wedi cael ei gynnwys yn rhan o gynllun Porth Cynon yn CTLI De Ddwyrain Cymru. Crëwyd mannau parcio ychwanegol yn ddiweddar yn gyfleuster parc a theithio yn Abercynon, yn dilyn ail asesiad o gynllun y maes parcio. Cafodd rhan o'r llwybr beicio rhwng Ystad Ddiwydiannol y Gelli a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda ei rhoi ar waith yn 2017-2018. Cafodd hyn ei ariannu



gan y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae'r holl lwybrau beicio eraill o fewn yr ASO wedi'u clustnodi ar gyfer gwelliant neu estyniadau yn rhan o Fap Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ymarfer ymgynghori gyda'r Cyngor yn ddiweddar ar alinio gwaith deuli'r A465, a ddylai symud ymlaen dros y blynyddoedd i ddod.

Mae rhagor o fanylion o ran dynodiadau trafndiaeth ym Mynegai 1 – Statws Dynodiadau.

Yn ystod 2017–2018, mae'r CDLI a'r broses Rheoli Datblygiadau wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau. Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.

Mae 100% (12 o 12) o'r datblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Mae'r holl ddatblygiadau manwerthu newydd (23 o 23) a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy (DLI 10).

Adfywio

Roedd elfennau eraill o Strategaeth Adfywio Canol Tref Aberdâr yn cael eu gweithredu yn ystod 2017–2018 (DLI 19).

Gan gymryd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) fel man cychwyn, a gan ystyried gweithgarwch economaidd diweddar, y potensial ar gyfer twf rhanbarthol sylweddol, gallu'r sector preifat a phartneriaid eraill i gyflawni, ynghyd â graddfa'r cyfle ac arwyddocâd yn rhanbarthol; rydyn ni wedi nodi a datblygu nifer o Ardaloedd Cyfle Strategol (SOA) yn RhCT. Mae Ardaloedd Cyfle Strategol yn ardaloedd daearyddol lle mae adnoddau'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Nod pob SOA yw darparu pecyn cynhwysfawr er mwyn annog buddsoddiad a menter. Ar 21 Medi 2017, cymeradwyodd y Cyngor bum Ardal Cyfle Strategol (SOA), sy'n cynnwys 'Porth Cynon' yn Ardal Strategaeth Ogleddol. Mae hyn i raddau helaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad Safle Strategol Hirwaun a'i berthynas â'r sector ynni adnewyddadwy yn yr ardal, ac yn arbennig Ystad Ddiwydiannol Hirwaun. Gan wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno prosiectau a fydd yn cyflawni dyheadau sylfaenol y strategaethau yma, yn enwedig wrth alluogi twf economaidd a swyddi sylweddol.

Gwybodaeth

Yn rhan o dargedau monitro Polisi SG1, rhaid i **40%** o ddynodiadau'r CDLI fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu fod wedi'u gweithredu erbyn 2015. Rhaid i 100% fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu fod wedi'i weithredu erbyn 2021. Hyd at y dyddiad yma, mae 18 o ddynodiadau wedi cael eu gweithredu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu mae rhan o'r dynodiad wedi cael caniatâd. Mae hyn yn gyfwerth â **40%** o 45 o ddynodiadau preswylfeydd, cyflogaeth, manwerthu a thrafnidiaeth Safleoedd Strategol yr ASO.

Mae'r Cyngor yn effro i'r ffaith y bydd cyflawni datblygiadau yn yr ASO mewn amgylchiadau



economaidd heriol yn weddol araf, yn enwedig yn achos dynodiadau mawr preswyl. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg bod tai yn cael eu cwblhau yn rheolaidd yn yr ASO, gan gynnwys rhai marchnad a rhai fforddiadwy. Cafodd 2,099 o anheddau eu hadeiladu yma ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006 a 128 yn ystod 2017–2018. Cafodd cyfanswm o 2,572 o anheddau eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r cynllun yn 2011, a chafodd 536 o'r rhain eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r safleoedd strategol i'r gogledd yn gwneud cynnydd yn araf deg. Mae gwaith datblygu'r campws coleg ar safle Tresalem yn mynd rhagddo. Mae trafodaethau cyn gwneud cais ar gyfer cyflwyno a chynllunio y Safleoedd Strategol yn parhau. Mae cwblhau gwaith cyn-echdynnu glo o Lofa'r Tŵr er mwyn caniatáu i'r safle cyflogaeth gael ei gyflwyno, ynghyd â chynnydd Llywodraeth Cymru ar ddeuli'r A465, Blaenau'r Cymoedd, yn dynodi dyfodol cadarnhaol iawn ar gyfer datblygiad safle Strategol Hirwaun.

O safbwynt y dyraniadau cyflogaeth, mae'r datblygiad yn parhau ar y tir i'r gogledd o Fifth Avenue (ASO 14.2), ac mae'n gweithredu ei ganiatâd ar gyfer adfer adnoddau gwastraff cynaliadwy ac offer cynhyrchu ynni. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd caniatâd yn y flwyddyn fonitro 2016-2017 ar gyfer cynllun defnydd cymysg ar gyfer cyflogaeth ar Ystadau Glynrhedynog a Highfield (ASO 14.1). Mae'r Cyngor yn credu y bydd y buddsoddiad sylweddol o du'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn yr ASO ers 2006, sydd wedi'i gynllunio i barhau, yn esgor ar dyfiant yn y dyfodol. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol hefyd ar waith o fewn RhCT, a fydd yn helpu i ariannu'r isadeiledd angenrheidiol yn y Gogledd. Bydd y tâl sero ar gyfer datblygiad preswyl yn yr ASO yn helpu ymhellach i annog buddsoddiad a chynorthwyo datblygiad yn yr ardal.

Serch hynny, yn sgil monitro polisi SG1 yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn effro i'r ffaith nad yw'r dynodiadau yn yr ASO yn cael eu rhoi ar waith ar y gyfradd sydd wedi'i nodi yn y targed. Mae trafodaeth ynghylch y rhesymau am hyn yn adrannau penodol y bennod. Noder bod nifer sylweddol o dai wedi cael eu hadeiladu yn yr ardal ac mae eraill wedi cael caniatâd yn ddiweddar. Mae hyn yn cael ei briodoli i weithgarwch yn y farchnad yn sgil galw yn y farchnad.

Gyda sylw penodol i dai o fewn Ardal Strategaeth Ogleddol, mae'r Cyngor wedi rhoi caniatâd i nifer o safleoedd annisgwyl sylweddol yn 2017-2018. Rhoddwyd caniatâd i 110 o dai yng Nghwm Cynon Gogledd ac mae'r datblygwyr eisoes ar y safle; caniatawyd 110 o dai pellach ar hen safle Coleg Aberdâr, Trecynon; rhoddwyd caniatâd i 40 o anheddau gofal ychwanegol yn Aberaman; cymeradwywyd 33 o anheddau yn Darren Road, Aberpennar a Teras Delwen, Treorci; a rhoddwyd caniatâd i 30 o anheddau yn Heol Ty, Aberaman – erbyn hyn, mae gwaith wedi dechrau yno. Dylid nodi ymhellach fod y 98 o anheddau a gafodd ganiatâd ar hen safle Ysgol Uwchradd Aberdâr yn 2016-2017 yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn dyst i ymrwymiad y Cyngor i ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy ac mae'n tynnu sylw at lwyddiant strategaeth y CDLI yn yr ASO.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ffyrdd arloesol ar waith o ran sbarduno'r diwydiant tai yn Rhondda Cynon Taf ymhellach. Un dull o'r fath yw ei Fforwm Datblygwyr unigryw, lle mae adeiladwyr tai preifat, landlordiaid rhent cymdeithasol ynghyd â'r Cyngor yn trafod eu profiadau wrth ddarparu tai, y rhwystrau i hyn ac atebion posibl.



Ym mis Gorffennaf 2015, cytunodd y Cabinet i gymeradwyo adroddiad 'Strategaeth Galluogi Datblygu Tai' sy'n nodi manylion am gynllun a fyddai'n cynnwys cael gwared ar dir mae'r Cyngor yn berchen arno er mwyn datblygu tai arno. Cafodd ardal Cwm Rhondda Fach ei dewis fel cynllun peilot oherwydd byddai'r fenter yn gwneud iawn am y gwendid yn y farchnad yn yr ardal. Byddai sbarduno datblygiad yn y modd yma hefyd yn cynorthwyo â chyflenwi darpariaeth dai newydd. Byddai hyn yn adfywio'r ardal leol ac yn helpu'r economi leol. Ystyriwyd safleoedd buddsoddi tai pellach yng Nghwm Gogledd Cynon.

Canlyniad arall o hyn yw dilyniant cynllun hunan-adeiladu peilot, lle mae rhai o'r safleoedd llai sy'n eiddo i'r Cyngor wedi'u nodi ar gyfer eu haddasrwydd i gynnwys lleiniau tai hunan-adeiladu. Dylai'r rhain ddod i'r farchnad yn fuan, ochr yn ochr â phrisiadau o'r safleoedd sy'n ystyried unrhyw faterion ar y safle a chostau paratoi ac opsiynau ar gyfer dylunio safonol tai er mwyn hwyluso'r broses gynllunio ymhellach.

Yn ystod 2016-2017, comisiynodd y Cyngor y cwmni GVA Billfinger i ymgymryd ag arfarniadau prisio cynhwysfawr ar gyfer rhai o'r safleoedd hyn ynghyd â'r holl ddyraniadau tai sydd heb eu datblygu yn y CDLI. Roedd hyn i ddeall y safleoedd yn well ac wedyn helpu i alluogi eu datblygiad. Yn ystod 2017-18, cytunodd y Cyngor ymhellach ar raglen Tai Hwyluso, i ganiatáu benthyciad neu grantiau arian i helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r dyraniadau CDLI heb eu datblygu. Cynhaliwyd dadansoddiad manwl pellach o'r safleoedd, a ddatblygwyd yn rhannol ar yr asesiadau gwerthuso GVA, ond hefyd gan eu gwerthuso yn erbyn meini prawf strategol angenrheidiol; er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer datblygu a chyllido. Cysylltwyd â pherchnogion ac asiantau ar gyfer y rhestr fer o safleoedd yn ystod gwanwyn 2018, a chafodd cyfarfodydd eu cynnal ar lawer. Mae hyn wedi cynyddu diddordeb ac wedi symud rhaid safleoedd yn eu blaenau. Yn ddiweddar, mae cais wedi'i dderbyn ar un.

POLISI:	AMCAN:	POLISIŌU CYSYLLTIEDIG:
SG 2 – Datblygiadau yn y De	1, 2, 4, 5, 6 a 8	ASDd (Ardal Strategaeth Ddeheuol) 1 i ASDd 27
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Sicrhau tyfiant cynaliadwy yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol sy'n fuddiol i Rondda Cynon Taf gyfan yn ystod cyfnod cyfan y Cynllun.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: 40% o ddynodiadau	
	2021: 100% o ddynodiadau	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		



DC 2, DC 4, DC 5, DC 6, DC 8, DC 9, DC 12, DLI 9, DLI 11 a DLI 19

DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:

Yr amcan yn yr Ardal Strategol Ddeheuol (ASDd) yw sicrhau tyfiant cynaliadwy sy'n fuddiol i Rondda Cynon Taf. Er mwyn cyflawni tyfiant cynaliadwy mae rhaid rheoli tyfiant preswylfeydd a thyfiant masnachol yn yr ASDd mewn ffordd sy'n cydbwysu potensial economaidd yr ardal â chyfyngiadau amgylcheddol. Er mwyn deall y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r targed yma yn llawn, mae angen ystyried canfyddiadau'r ymarfer monitro mewn perthynas â'r ffactorau cydberthynol canlynol:

Tai

Isod y mae'r ffigurau **cwblhau adeiladu tai** yn yr ASDd ar gyfer 2017–2018, ac er cymhariaeth mae ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi'u nodi;

	Marchnad Gyffredinol	Fforddiadwy	Cyfanswm
2017-2018	258	166	424
2016-2017	327	193	520
2015-2016	344	50	394
2014-2015	282	94	376
2013-2014	322	36	358
2012-2013	243	25	268
2011-2012	188	13	201
2010-2011	224	57	281

O ystyried y rhain a'r rheini a gafodd eu cwblhau yn gynharach, mae cyfanswm o **3,814 o anheddau newydd** wedi cael eu hadeiladu yn yr ASDd ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006 (DC 2).

Yn ystod 2017–2018, **cymeradwyodd** y Cyngor **617 o dai** newydd yn yr ASDd. Ers mabwysiadu'r cynllun yn 2011, mae **6,106 o dai** wedi cael caniatâd cynllunio yn yr ASDd.

24.2dph oedd dwysedd yr anheddau a gafodd ganiatâd ar safleoedd wedi'u dynodi yn yr ASDd yn ystod 2017–2018, sy'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig ym mholisi ASDd 11 (DC 5).

Hyd at y dyddiad yma, mae'r safleoedd wedi'u dynodi canlynol wedi cael caniatâd cynllunio ac mae datblygiadau wedi bod arnyn nhw (DC 4):

- ASDd – Hen Safle OCC, Llanilid (rhannol);
- ASDd – Tir yng Ngwern Heulog, Coed-elái;
- ASDd 10.12 – Tir i'r dwyrain o Ysgol Gynradd Sirol Dolau, Heol Pen-y-bont, Bryncae;
- ASDd 10.13 – Tir i'r gorllewin o Lechau, Llanhari;



- ASDd 10.15 – Tir i'r de o Lys Brynteg, y Beddau;
- ASDd 10.17 – Fferm Glyntaf, Rhydfelen;
- ASDd 10.18 – Tir i'r de o The Ridings, Ton-teg ac i'r dwyrain o Heol yr Orsaf, Pentre'r Eglwys.

Hyd y dyddiad yma, mae'r safleoedd wedi'u dynodi canlynol wedi cael caniatâd cynllunio:

- ASDd – Hen safle Glofa a Gwaith Glo Golosg Cwm, Tynant (amlinellol);
- ASDd 8 – Mwyndy/Tonysguboriau (rhannol) (amlinellol);
- ASDd 9 – Hen Safle OCC, Llanilid (rhannol);

Mae'r Cyngor wedi penderfynu cymeradwyo ceisiadau cynllunio i gynnal datblygiadau ar y safleoedd wedi'u dynodi canlynol ond mae angen i Gytundeb S106 gael ei lofnodi o hyd:

- ASDd 10.2 – Fferm Trane, Tonyrefail (Amlinellol).

Mynegai 1 – Mae Statws Dynodiadau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob dynodiad unigol.

Safleoedd Strategol

Mae manylion am gynnydd y Safleoedd Strategol wedi'u nodi yn eu tablau dadansoddi perthnasol mewn perthynas â pholisïau SG 3.1 i SG 3.8.

Datblygu Cynaliadwy

Yn ystod 2017–2018, roedd 24.97 o'r 54.0 o hectarau o dir lle cafodd datblygiadau ganiatâd yn dir wedi'i ddatblygu eisoes neu'n dir lle cafodd datblygiadau eu gwneud o fewn hen adeiladau (DC 6). Mae hyn yn cyfateb i 46.44%.

O'r holl ddatblygiadau a gafodd ganiatâd ar dir o fewn yr ASD yn ystod 2017–2018 (cyfanswm o 30.72 o hectarau), roedd datblygiadau ar 3.45 o hectarau, neu 11.23% ar dir wedi'i ddatblygu eisoes. Cafwyd caniatâd ar 2.28 o hectarau neu 7.42% ar ben hynny ar safleoedd presennol (DC 6). Roedd 23.09 o hectarau neu 75.16% o ganiatadau ar gyfer caeau glas (DC 9) ac roedd 1.9 o hectarau neu 6.18% o ganiatadau ar gyfer mannau agored.

Yn ystod 2017–2018, chafodd dim datblygiadau agored iawn i niwed ganiatâd mewn ardaloedd o orlifdir categori C1 neu C2 heb fodloni gofynion yr holl brofion yn NCT 15 (DC 8).

Er bod Ardal Chwilio Strategol F (AChSF) NCT 8 gyfan yn yr ASO, chafodd dim tyrbinau gwynt eraill eu gosod o fewn yr ardal chwilio 5 KM AChSF.

Yn ystod 2017-2018, Cafodd un safle SINC ei effeithio gan ddatblygiad yn yr ASDd. Sicraodd cais am drac beicio yng Nghanolfan Beicio Mynydd Ranch cynllun lliniaru trwy



amodau.

Gweithgarwch Economaidd

Yn ystod 2017-2018, rhoddodd y Cyngor ganiatâd ar gyfer 13,116.9m² o le diwydiannol o fewn yr ASDd. Roedd hyn yn cynnwys 8,488m² o ofod swyddfa B1 yn rhan o ailddatblygiad safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale; 359m² o ofod swyddfa B1 ar gyfer Canolfan Arloesi newydd ym Mharc Busnes Trelái; 121m² o estyniad ar gyfer gofod swyddfa B1 ym Mharc Busnes Llantrisant; 25m² o swyddfa amaethyddol ym Mhont-y-clun; 248m² o ofod swyddfa B1 ym Mharc Magden; 720m² o weithdy B2 yn Rhydfelen; a 3,155.9m² o ofod storio B8 yn nhref ddiwydiannol Tonyrefail, Heol Pentre-bach, Pontypridd ac Ystad Ddiwydiannol Coedcae.

Derbyniodd y datblygiad B1 ar gyfer swyddfeydd yn hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale ym Mhontypridd ganiatâd cynllunio llawn yn 2017-2018. Mae'r caniatâd olaf yn ymwneud â datblygiad cymysg – B1 (swyddfa), A3 (bwyd a diod), D1 (ddim at ddefnydd preswyl) a D2 (hamdden ac ymgynnull). Bydd y caniatâd yn creu gwagle llawr o 14,693m² mewn 3 adeilad.

At ei gilydd, mae cyfanswm y tir cyflogaeth a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod 2017-2018 at ddibenion cyflogaeth yn cyfateb i 2.46 hectar.

Er na fydd ar safleoedd wedi'u dynodi, mae'r datblygiad yn dystiolaeth bod yr economi yn gwella a bod cwmnïau yn fodlon buddsoddi yn RhCT. Mae hefyd yn gyfraniad ychwanegol at fanc tir cyflogaeth y Cyngor.

Cafodd hen safle Sogefi yn Llantrisant a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2016-2017 ar gyfer depo bysiau ar gyfer cwmni Edward's Coaches a lle diwydiannol arall ei weithredu yn 2017-2018. Crëwyd parc busnes newydd ynghyd ag adnewyddu'r ffatri hŷn, ac mae tua hanner yr unedau sydd wedi'u ffurfweddu eu meddiannu. Mae symud y cwmni i safle mwy yn sicrhau bydd y busnes llwyddiannus, lleol yma, sy'n cyflogi nifer o bobl yn RhCT, yn parhau i dyfu a ffynnu.

Mae datblygiad ymhell ar y blaen a gall y seilwaith gynnal datblygiadau manwerthu sydd wedi cael caniatâd ar Safle Strategol Mwyndy. Daeth datblygiad y dynodiad manwerthu ym Mhontypridd, ASDd 15.1, i ben gryn amser yn ôl.

Hefyd, cafodd nifer o ganiatadau manwerthu eu rhoi yn yr ASDda drwy gydol 2017-2018. Yn fwy pwysig na dim, cafodd caniatâd ar gyfer 312m² o ddatblygiad A2 / A3 ar Barc Magden, Llantrisant a 568m² o ddatblygiad A3 ei roi yn rhan o ailddatblygiad hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 1.0 hectar o dir a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer manwerthu yn Ardal Strategol y De yn ystod 2017-2018.

Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd cais am 14,884m² o ofod swyddfa B1 ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest. Bydd yr adeilad, a fydd yn ymestyn dros bum llawr, yn Bencadlys yr Adran Gwaith a Phensiynau a bydd yn dod â hyd at 1,550 o swyddi i'r safle.

Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn yn y dadansoddiad o ganlyniadau perthnasol ar gyfer SG 6 a SG 7 isod. Hefyd, mae rhagor o wybodaeth am unrhyw gynlluniau



arfaethedig ar gyfer y safleoedd hyn ym Mynegai 1 – Statws Dynodiadau.

Dylid nodi hefyd fod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cymeradwyo cyllid yn 2016 i brynu'r hen safle Forgemasters yn Ffynnon Taf, yn rhan o broses fuddsoddi y Cytundeb Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Sicrhawyd y tir hwn gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r cyfnod caffael ar gyfer 'Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau' a fydd yn cynnwys datblygu Metro De Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar brif linellau'r Cymoedd. Cyflwynwyd cais wedyn ar gyfer depo stoc dreigl a gwaith cysylltiedig yn Ystad Ddiwydiannol Gwaith Garth, Ffynnon Taf. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £100miliwn yn y depo Trafnidiaeth Cymru newydd, a fydd yn gartref ac yn gwasanaethu 36 o'r cerbydau metro newydd sy'n gweithredu ar linellau Dyffryn Taf/Taff Vale. Rhagwelir y bydd y depo yn gartref i 400 o weithwyr y trenau, 35 o staff cynnal a chadw cerbydau ac yn ganolfan reoli integredig i Metro De Cymru sy'n cyflogi 52 o staff.

Trafnidiaeth Gynaliadwy / Hygyrchedd

Isod y mae'r cynlluniau trafndiaeth sydd wedi cael eu cwblhau hyd at y dyddiad yma (DLI 9):

- ASDd 20.6 – Cynllun Parcio a Theithio Gorsaf Ffynnon Taf;
- ASDd 21.1 – Cynllun Connect 2 Trefforest
- ASDd 21.2 – Cynllun Extension to Connect 2 Pontypridd;
- ASDd 21.3 – Llwybr seiclo rhwng Maes-y-coed a'r Porth;
- ASDd 21.4 – Llwybr seiclo Glyn-taf i Nantgarw;
- ASDd 21.6 – Pontypridd i Donyrefail trwy Lantrisant; mae adrannau 1 a 2 bellach wedi'u cwblhau ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y drydedd adran. Mae cyllid wedi cael ei ddynodi ar gyfer gwaith ar y llwybr o'r pen gorllewinol hyd at dafarn y Cross Inn.
- ASDd 18.2 – Deuoli Ffordd Osgoi Tonysguboriau – mae cynllun adeiladu tymor hir wedi'i ddechrau er mwyn gwella cylchfan Mwyndy Cross ymhellach.

Yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol, mae Ffordd Osgoi A473 Llanharan wedi'i chynnwys o fewn CTLI Cymoedd De Ddwyrain Cymru ac roedd adroddiad cam 1 WeITAG wedi'i gwblhau o fewn 2017-2018. Mae gwelliannau i gyffyrdd allweddol yn parhau mewn perthynas â dyraniad Ffordd Osgoi A473 Tonysguboriau. Mae gan bob llwybr beicio arall gynigion i wella rhannau o'r llwybr sydd ar Fap Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Mae rhagor o fanylion o ran dynodiadau trafndiaeth ym Mynegai 1 – Statws Dynodiadau.

Yn ystod 2017–2018, mae'r CDLI a'r broses Rheoli Datblygiadau wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau. Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2017–2018 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.



Mae 100% (12 o 12) o'r datblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Mae'r holl ddatblygiadau manwerthu newydd (23 o 23) a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy (DLI 10).

Adfywio

Cafodd elfennau eraill o Strategaeth Adfywio Canol Tref Pontypridd eu gweithredu yn ystod 2017–2018. O ganlyniad i'r rhaglen adfywio bydd £14 miliwn o fuddsoddiad mewn eiddo masnachol a gwelliannau i strwythurau cyhoeddus yng nghanol y dref (DLI 19).

Gan gymryd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) fel man cychwyn, a gan ystyried gweithgarwch economaidd diweddar, y potensial ar gyfer twf rhanbarthol sylweddol, gallu'r sector preifat a phartneriaid eraill i gyflawni, ynghyd â graddfa'r cyfle ac arwyddocâd yn rhanbarthol; rydyn ni wedi nodi a datblygu nifer o Ardaloedd Cyfle Strategol (SOA) yn RhCT. Mae Ardaloedd Cyfle Strategol yn ardaloedd daearyddol lle mae adnoddau'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Nod pob SOA yw darparu pecyn cynhwysfawr er mwyn annog buddsoddiad a menter. Ar 21 Medi 2017, cymeradwyodd y Cyngor bum Ardal Cyfle Strategol (SOA), sy'n cynnwys 'Llanilid ar yr M4', 'Ardal Ehangach Pontypridd, Trefforest – Ar Gyrion y Ddinas, Wrth Galon y Rhanbarth', 'Tref Pontypridd – Wrth Wraidd y Rhanbarth' a 'Coridor yr A4119: Porth Cwm Rhondda Rhanbarthol' yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol. Gan wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno prosiectau a fydd yn cyflawni dyheadau sylfaenol y strategaethau yma, yn enwedig wrth alluogi twf economaidd a swyddi sylweddol.

Gwybodaeth

Fel yn achos Polisi SG 1, rhaid i **40%** o ddynodiadau fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu gael eu gweithredu erbyn 2015, a rhaid i 100% fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu gael eu gweithredu erbyn 2021 er mwyn bodloni targedau Polisi SG 2. Hyd at y dyddiad yma, mae 21 o ddynodiadau wedi cael eu gweithredu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu mae rhan o'r dynodiad wedi cael caniatâd. Dyma **55%** o gyfanswm o 38 o ddynodiadau preswylfeydd, cyflogaeth, manwerthu a thrafnidiaeth Safleoedd Strategol yn yr ASDd.

Hefyd, mae tystiolaeth o gyflenwad sylweddol parhaus o dai newydd yn yr ASDd, gan gynnwys rhai marchnad a rhai fforddiadwy, ac mae 3,814 o anheddau wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun a chafodd 424 eu hadeiladu yn ystod 2017–2018. Mae cyfanswm o 6,106 o dai wedi cael caniatâd yn yr ASDd ers mabwysiadu'r cynllun yn 2011, a chafodd 617 ganiatâd yn ystod y flwyddyn monitro. Eto, y gred yw y caiff y tai hyn eu cwblhau pan fo galw amdanyn nhw yn y farchnad. Mae'r ffigurau uchod yn gadarnhaol iawn o ystyried yr amodau economaidd anodd.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ffyrdd arloesol ar waith o ran sbarduno'r diwydiant tai yn Rhondda Cynon Taf ymhellach. Un dull o'r fath yw ei Fforwm Datblygwyr unigryw, lle mae adeiladwyr tai preifat, landlordiaid rhent cymdeithasol ynghyd â'r Cyngor yn trafod eu profiadau wrth ddarparu tai, y rhwystrau i hyn ac atebion posibl.

Yn ystod 2016-2017, comisynodd y Cyngor y cwmni GVA Billfinger i ymgymryd ag arfarniadau prisio cynhwysfawr ar gyfer rhai o'r safleoedd hyn ynghyd â'r holl ddyraniadau



tai sydd heb eu datblygu yn y CDLI. Roedd hyn i ddeall y safleoedd yn well ac wedyn helpu i alluogi eu datblygiad. Yn ystod 2017-18, cytunodd y Cyngor ymhellach ar raglen Tai Hwyluso, i ganiatáu benthygiad neu grantiau arian i helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r dyraniadau CDLI heb eu datblygu. Cynhaliwyd dadansoddiad manwl pellach o'r safleoedd, a ddatblygwyd yn rhannol ar yr asesiadau gwerthuso GVA, ond hefyd gan eu gwerthuso yn erbyn meini prawf strategol angenrheidiol; er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer datblygu a chyllido. Cysylltwyd â pherchnogion ac asiantau ar gyfer y rhestr fer o safleoedd yn ystod gwanwyn 2018, a chafodd cyfarfodydd eu cynnal ar lawer. Mae hyn wedi cynyddu diddordeb ac wedi symud rhaid safleoedd yn eu blaenau. Yn ddiweddar, mae cais wedi'i dderbyn ar un.

Mae'r Cyngor, felly, yn hyderus bod targed monitro SG 2 yn cael ei fodloni.

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.1 – Hen Lofa'r Maerdy	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASO 4
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu lleoliad gwaith categori B1 a/neu B2, canolfan ymwelwyr ac ardal hamdden anffurfiol ar 1ha o dir.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: Cyflwyno'r cais	
	2021: Cwblhau gwaith datblygu	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
<p>Er y bu gwaith adfer tir rhannol ar Safle Strategol Glofa'r Maerdy, mae angen cyllid cyhoeddus i adfer elfennau sylweddol y safle. Mae rhywfaint o gytundeb wedi bod ynghylch datblygiad y fferm wynt, sef cael mynediad ledled y safle, ac mae rhywfaint o gyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer gwaith. Serch hynny, ar y cyfan mae gwaith ar y prif gynllun adfer tir yn anffodus wedi peidio. Y gobaith yw bydd y fferm wynt yn creu cyllid ar gyfer gwaith dylunio mewn perthynas â'r safle; dyw adennill tir ddim yn flaenoriaeth o ran cyllid i Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cyllid gan y sector preifat.</p> <p>Yn rhan o'r cynnig ffermydd gwynt blaenorol, mae gwaith peirianyddol mawr wedi'i gynnal er mwyn caniatáu mynediad i'r fferm wynt ac, wrth wneud hynny, mae wedi gwella'r</p>		



mynediad i'r Safle Strategol a'r ardal a ddynodwyd ar gyfer canolfan i ymwelwyr. Bydd rhwymedigaethau cynllunio adran 106 yn achos y datblygiad yn rhoi cyfraniad sylweddol i elfennau hamdden y Safle Strategol.

Dyw'r dyraniad cyflogaeth ddim wedi'i gyflwyno eto ac, er bod mynediad o fewn y safle wedi gwella rhywfaint, dydyn ni ddim yn ystyried bod y safle cyffredinol yn mynd rhagddo fel y disgwylid a fydd e ddim yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.2 – Hen Lofa Fernhill	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASO 5
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu rhwng 350 a 400 o anheddau, canolfan manwerthu leol ac ardal hamdden anffurfiol.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: Cyflwyno'r cais	
	2021: Cwblhau'r datblygiad	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
Ers 2016-2017, mae perchnogion newydd wedi bod mewn trafodaethau cyn gwneud cais gyda'r Cyngor ynglŷn â chynllunio'r safle.		
Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro statws y safle ac i weithio gyda'r perchnogion er mwyn cynorthwyo i wneud paratodau ar y safle ar gyfer ei ddatblygu. Serch hynny, mae'n cydnabod y gallai'r targed yma fod yn anodd ei fodloni yn y dyfodol agos. Caiff ymyrraeth ei hystyried yn rhan o adolygu'r CDLI.		

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.3 – Hen Ffatri Phurnacite	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASO 6



TARGED:	TARGED MONITRO:
Adeiladu 500 o anheddau, 5.9ha o gyflogaeth, ysgol gynradd newydd ac ardal hamdden ffurfiol/anffurfiol.	MABWYSIADU: Dim
	2015: Cyflwyno'r cais cynllunio
	2021: Cwblhau'r datblygiad
CYFLAWNIAD:	
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:	
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18	
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:	
<p>Bu trafodaethau cyn gwneud cais rhwng y Cyngor a pherchnogion y safle CPL (Coal Products Limited). Bu buddsoddiad sylweddol eisoes mewn gwella'r safle. Mae uwchgyllun a briff wedi cael eu llunio ar gyfer y safle. Mae'r Awdurdod Glo sy'n berchen ar ran arall o'r safle ar hyn o bryd yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy dros waith ymchwilio'r safle</p> <p>Byddai angen gweithredu atebion adfer tir ychwanegol er mwyn galluogi datblygiadau ar y safle yma. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y safle'n gweld rhywfaint o waith arno, er y bydd mewn rhannau yn unig.</p>	

POLISI:	AMCAN:	POLISIÄU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.4 – Tir yn Nhresalem / Aber-nant	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASO 7
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu rhwng 500 a 600 o anheddau, 3.7 o hectarau o gyflogaeth/hamdden, ysgol gynradd newydd, canolfan feddygol ac ardal hamdden anffurfiol.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: Caniatâd cynllunio / gweithredu'r datblygiad	
	2021: Cwblhau'r datblygiad	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		



DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18

DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:

Cafodd cynllun ar gyfer archfarchnad ganiatâd yn elfen Tresalem y safle ar 1 Ebrill 2015 yn dilyn cael ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru ac yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2014.

Mae'r campws coleg newydd, a gafodd gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2015, wedi'i gwblhau ar ran is (cyflogaeth / hamdden) Safle Strategol Tresalem. Bydd yn parhau i gynnig nifer sylweddol o swyddi a chyfleoedd hyfforddi. Bydd y coleg hefyd yn cyfrannu at anghenion datblygu'r boblogaeth leol.

Cyhoeddodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fod £2.58miliwn o arian Ewrop wedi'i sicrhau tuag at becyn o £3.93miliwn er mwyn creu unedau busnes modern ar Safle Strategol Tresalem. Bydd y cynllun yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae cyfleusterau parcio a theithio arwyddocaol hefyd wedi'u datblygu ar y safle.

Mae'r datblygiad a'r diddordeb a ddangosir yn y safle yn golygu bod y Cyngor yn hyderus y bydd gwaith datblygu'n parhau ar y safle hyd at ddiwedd cyfnod y cynllun, er y bydd elfennau ohono yn digwydd ar ôl y cyfnod yma.

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.5 – Tir i'r de o Hirwaun	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASO 8
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu 400 o anheddau, 36ha o gyflogaeth, ysgol gynradd newydd, 2000m ² o lorïau ar gyfer manwerthu, canolfan feddygol/gymunedol ac ardal hamdden anffurfiol.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: Caniatâd cynllunio / gweithredu'r datblygiad	
	2021: Cwblhau'r datblygiad	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18		



DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:

Mae cais amlinellol i gynnal datblygiad manwerthu 2,000m² o faint yn elfen canolfan leol y safle wedi cael ei gymeradwyo. Mae'n cael ei ragweld y bydd y penderfyniad ar y cais yma yn rhoi sicrwydd ynglŷn â gallu rhannau eraill o'r Safle Strategol i gael eu datblygu.

Bu trafodaethau manwl cyn cais eraill ynghylch preswylfeydd a lleoliadau cyflogaeth y safle. Mae gweithdrefnau wedi cael eu gweithredu'n ymarferol i alluogi tirlfeddianwyr niferus y safle i weithio ar y cyd a dechrau ar ei ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoui ar gyfer deuoli ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd. Y gred yw y bydd modd i breswylfeydd y safle gae eu datblygu cyn i'r A465 gael ei gwneud yn ffordd ddeol.

Yn ogystal â hyn, mae'r gweithrediadau mwyngloddio brig wedi dod i ben ar elfen cyflogaeth Safle Strategol Hirwaun. Cynhaliwyd gwaith ôl-lenwi parhaus yn y mwynglawdd a rhagwelir y bydd gwaith datblygu platlawdd ar gyfer datblygiadau masnachol yn y dyfodol yn mynd rhagddo erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae 'Bargen Ddinesig' Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ardal Blaenau'r Cymoedd, gan gynnwys cynlluniau megis trydaneiddio'r rheilffyrdd yn rhan o gynllun Metro De Ddwyrain Cymru ac ymestyn y gwasanaeth rheilffyrdd ar gyfer teithwyr i Hirwaun. Mae'r ddau gynllun yma yn cyfrannu at ddatblygu Safle Strategol ASO 8, a gallai safleoedd cyflogaeth strategol greu swyddi a buddsoddiad yn yr ardal. Mae'n cael ei ragweld y bydd Hirwaun yn ganolfan i'r sector ynni ac y bydd datblygiadau sylweddol yn yr Anheddiad Allweddol yma a'r cylch o ganlyniad i ddatblygu seilwaith. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu ffordd osgoi Aberdâr i Hirwaun yr A465 a chyfnewidfa drafnidiaeth.

Mae RCT wedi nodi'r Ardaloedd Cyfle Strategol allweddol yng Ngogledd Cwm Cynon ymhellach, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adfywiad economaidd a sicrhau bod RhCT yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth fyd-eang ar gyfer buddsoddi. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae Ardaloedd Cyfle Strategol yn ardaloedd daearyddol lle mae adnoddau'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Nod pob SOA yw darparu pecyn cynhwysfawr er mwyn annog buddsoddiad a menter. Heb os, bydd yr ymagwedd aml-adrannol yma i geisio datblygu'r ardal yma yn arwain at fwy o gynnydd wrth gyflwyno'r safle.

Mae'r Cyngor yn hyderus bod y targedau monitro yn cael eu diwallu'n rhannol, er y bydd y datblygiad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd dyddiad y CDLI.

POLISI:	AMCAN:	POLISIŶAU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.6 – Glofa a Golosgfa Cwm	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASDd 7
TARGED:	TARGED MONITRO:	



Adeiladu rhwng 800 a 950 o anheddau, 1.9ha o gyflogaeth ysgol gynradd newydd ac ardal hamdden anffurfiol.	MABWYSIADU: Dim
	2015: Cyflwyno'r cais cynllunio
	2021: Cwblhau'r datblygiad
CYFLAWNIAD:	
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:	
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18	
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:	
<p>Mae cais amlinellol ar y safle i ddymchwel y strwythurau presennol (ac eithrio tŵr rhestredig), i wella'r safle, i adfer tir ac i gynnal datblygiadau amrywiol gan gynnwys 851 o anheddau (dosbarth defnydd C3), ysgol gynradd a gofod awyr agored wedi cael ei gymeradwyo.</p> <p>Mae trafodaethau ar y gweill i ddod o hyd i opsiynau mewn perthynas â sut i ddatgloi potensial datblygu'r safle, gan ystyried y costau clirio ac adfer sylweddol sy'n gysylltiedig â'r safle.</p> <p>Cyflawnwyd y targed monitro cychwynnol ac mae'r Cyngor yn hyderus bod modd dod o hyd i atebion i symud y safle ymlaen ar gyfer ei ddatblygu; er y bydd y datblygiad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd dyddiad y cynllun.</p>	

POLISI:	AMCAN:	POLISIŌU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.7 – Ardal Mwyndy/Tonysguboriau	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASDd 8
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu 500 o anheddau, 15ha o gyflogaeth, 23,400m ² o loriau manwerthu newydd, 10,000m ² o loriau hamdden, ysgol gynradd, llyfrgell/cyfleuster cymunedol ac ardal hamdden anffurfiol.	MABWYSIADU: Caniatâd Cynllunio B1 a Datblygiad Preswylfeydd	
	2015: Cyflwyno'r cais cynllunio a gweithredu'r datblygiad	
	2021: Cwblhau'r datblygiad	
CYFLAWNIAD:		



DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:

DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18

DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:

Mae archfarchnad yng nghanol tref arfaethedig y Safle Strategol, ynghyd â seilwaith ar gyfer y canol tref newydd ehangach, wedi cael caniatâd llawn. Mae gwaith adeiladu'r seilwaith yma ymhell ar y blaen. Mae canol y dref wedi cael caniatâd amlinellol ac yn rhan ohono y mae lle ar gyfer manwerthu A1, gwasanaethau ariannol ac arbenigol A2, bwyd a diod A3, swyddfeydd B1, sinema, gwesty, maes parcio a seilwaith cysylltiedig.

Mae'n cael ei ragweld y bydd datblygu elfennau manwerthu'r Safle Strategol yn llwyfan ar gyfer bwrw ymlaen â chynlluniau mewn perthynas â chyflogaeth a phreswylfeydd ledled y safle.

Cafodd cais ei gyflwyno ar gyfer tuag 460 annedd ar safle Cefn-yr-hendy, Mwyndy yn 2017-2018. Mae cynnydd sylweddol y safle yma'n debygol o arwain at gais am faterion wedi'u cadw'n ôl.

Cyflawnwyd y targed monitro cychwynnol ac mae'r Cyngor yn hyderus bod modd dod o hyd i atebion i symud y safle ymlaen ar gyfer ei ddatblygu; er y bydd y datblygiad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd dyddiad y cynllun.

POLISI:	AMCAN:	POLISIŌU CYSYLLTIEDIG:
SG 3.8 – Hen Safle OCC Llanilid	1, 2, 4, 5, 7 a 10	ASDd 9
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu rhwng 1950-2100 o anheddau, 2,500m ² o lorïau manwerthu, canolfan feddygol, llyfrgell/cyfleuster cymunedol, ysgol gynradd newydd a gofodau cyhoeddus awyr agored cysylltiedig.	MABWYSIADU: 248 o Anheddau	
	2015: Cael caniatâd cynllunio a gweithredu'r datblygiad	
	2021: Cwblhau'r datblygiad	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 14, DLI 15, DLI 16, DLI 17 a DLI 18		



DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:

Mae rhan o'r safle wedi cael caniatâd ar gyfer 243 annedd, ac mae wrthi'n cael ei datblygu. Hyd yma, mae 221 annedd wedi'u cwblhau. Cafodd 29 eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro 2017-2018.

Mae'r rhan o'r safle sy'n weddill yn elwa ar ganiatâd cynllunio sy'n cynnwys Ardoll Seilwaith Cymunedol. Cais cynllunio 'hybrid' cynhwysfawr (llawn ac amlinellol) yw hwn. Yn rhan ohono y mae hyd at 1,850 o anheddau a chanolfan cymdogaeth (sy'n cynnwys cyfleusterau cymunedol a hamdden, ysgol gynradd a lloriau ar gyfer masnach a manwerthu). Ymhlith elfennau eraill o'r cynllun arfaethedig y mae gwaith ar seilwaith priffyrdd, ardaloedd tirwedd strategol a gofod awyr agored cyhoeddus. Derbyniwyd cais am faterion wedi'u cadw'n ôl cyn y flwyddyn fonitro 2017-2018 a bydd cynnydd pellach yn cael ei adrodd yn adroddiad 2018-2019. Mae hyn yn cynnwys manylion ar gyfer y 220 o anheddau cyntaf, gyda phrif gynllun graddol ar gyfer gweddill y safle.

Mae RhCT wedi nodi'r Ardal Cyfle Strategol allweddol ymhellach, fel y trafodwyd uchod o gwmpas ardal ehangach Llanilid, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adfywiad economaidd a sicrhau bod RhCT yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth fyd-eang ar gyfer buddsoddi.

Mae RCT yn cymryd ymagwedd weithredol tuag at ddatblygu'r Ardal Cyfle Strategol 'Llanilid ar yr M4'. Mae wedi sefydlu Bwrdd Strategol ar ei chyfer, sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr ACLI sy'n cwmpasu caniatadau datblygu ar gyfer y tir sy'n cynnwys y Safle Strategol, ynghyd â Llywodraeth Cymru a'r prif berchnogion tir dan sylw. Mae'r Bwrdd yma dim ond newydd gael ei sefydlu, ond fel partneriaeth, cafodd ei sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â gwaith datblygu'r safle mewn modd sydd â buddiannau economaidd y rhanbarth wrth wraidd iddo.

Mae rhai elfennau o'r tarfed monitro cychwynnol wedi cael eu bodloni, ac mae'r Cyngor yn hyderus y caiff y targedau eraill eu bodloni, er y bydd y datblygiad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd dyddiad y cynllun.

POLISI:	AMCAN:	POLISIÂU CYSYLLTIEDIG:
SG 4 – Anghenion o ran Tai	1 a 9	SG 3, AE (Ardal Eang) 1, ASO 5, ASO 7 – 9 a ASDd 7 – 10
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Cyflenwi tir ar gyfer 14,385 o anheddau newydd yn ystod cyfnod y Cynllun.	MABWYSIADU: 1751 o Anheddau	
	2015: 8,631 o Anheddau	



	2021: 14,385 o Anheddau		
CYFLAWNIAD:			
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:			
DC 1, DC 2, DC 4, DC 6 a DLI 1			
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:			
<p>Mae angen tir ar gyfer 14,385 o anheddau newydd yn ystod cyfnod y cynllun ar gyfer Polisi SG 4. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 yn dangos bod gan Riondda Cynon Taf ddigon o dir ar gyfer tai am 1.4 o flynyddoedd ar 1 Ebrill 2018, sy'n llai na ffigur 2017, sef 1.3 o flynyddoedd (DC 1).</p> <p>Mae ffigurau cwblhau anheddau yn Rhondda Cynon Taf o 2010-2011 hyd at 2017-2018 isod:</p>			
	Marchnad Gyffredinol	Fforddiadwy	Cyfanswm
2017-2018	354	198	552
2016-2017	468	248	716
2015-2016	471	98	569
2014-2015	439	114	553
2013-2014	475	59	534
2012-2013	337	77	414
2011-2012	318	39	357
2010-2011	384	78	462
<p>O ystyried y rhain a'r rheini a gafodd eu cwblhau yn gynharach, mae cyfanswm o 5,913 o anheddau newydd wedi cael eu hadeiladu yn yr ASO ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006 (DC 2).</p> <p>Yn ystod 2017–2018, cymeradwyodd y Cyngor 1,153 o dai newydd yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r rhain yn cyfrannu at y cyfanswm cyffredinol o 8,742 o anheddau newydd ledled yr awdurdod ers mabwysiadu'r cynllun yn 2011. Mae hyn yn cyfateb i 1,248 o unedau yn flynyddol.</p> <p>Mae'r siart isod yn dangos y cyfanswm o dir ar gyfer preswylfeydd ac unedau perthnasol a gafodd ganiatâd hyd at ddiwedd y flwyddyn monitro. Mae'r data yma hefyd wedi'i nodi ar ffurf canrannau o'r holl dir wedi'i ddynodi ar gyfer preswylfeydd (DC 4). Yn y bôn, mae hyn yn dangos bod dros hanner ein holl unedau tai a thiroedd sylweddol wedi'u dyrannu drwy'r broses gynllunio yn Rhondda Cynon Taf, ac yn elwa ar ganiatâd cynllunio.</p>			
	Maint (ha)/Unedau	% o Dir wedi'i Ddynodi/ % o Unedau wedi'u Dynodi	



Hyd at 2011	30.76 / 589	7.96% / 6.4%
2011 – 2012	10.98 / 244	2.84% / 2.65%
2012 – 2013	5.37 / 151	1.39% / 1.64%
2013 – 2014	19.38 / 531	5.02% / 5.77%
2014 – 2015	50.58 / 950	13.1% / 10.32%
2015 – 2016	76.12 / 1,852	19.7% / 20.1%
2016 – 2017	0.6 / 14	0.16% / 0.152%
2017-2018	19.8 / 460	5.13% / 5%
Cyfansymiau i'r dyddiad	213.4 / 4,791	55.3% / 52.03%

Mae'r safleoedd preswyl sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, neu sydd â chaniatâd cynllunio amdanyn nhw, wedi'u rhestru yn y gwerthusiad o bolisiâu SG1 a SG2. Mae manylion ychwanegol am statws pob dynodiad yn Atodiad 1 – Statws Dynodiadau.

24.2 afh oedd dwysedd y tai a gafodd ganiatâd ar safleoedd wedi'u dynodi ar gyfartaledd yn ystod 2017–2018. Mae hyn yn is na'r dwysedd dymunol ym mholisiâu ASO10 ac ASDd11 (DC5) Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r gyfradd adeiladu o 552 annedd yn ystod 2017-2018 yn llai na'n targed cwblhau blynyddol a gaiff ei nodi yn y CDLI ac mae'n cynrychioli gostyngiad canrannol o 22.9% ar ffigwr adeiladu'r flwyddyn flaenorol (716 o anheddau). Fodd bynnag, mae'n unol â'r hyn a gafodd ei gwblhau yn y blynyddoedd diweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r ffigur ar gyfer nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau ostwng ers y cyfanswm cwblhau isaf yn 2011-2012. Mae'r nifer o anheddau sydd wedi cael eu hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun, sef 5,913, hefyd yn dystiolaeth o gyflenwad parhaus o dai newydd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhain yn cynnwys rhai marchnad a rhai fforddiadwy.

Cafodd y dirwasgiad economaidd byd-eang effaith sylweddol ar weithgarwch yn y farchnad dai yn ystod blynyddoedd cynnar y CDLI. Roedd y sefyllfa yn Rhondda Cynon Taf yn debyg i sefyllfa nifer o awdurdodau yn ne ddwyrain Cymru. Cafodd tangyflawniad y farchnad dai yn lleol ei briodoli i amgylchiadau economaidd, ac nid o reidrwydd i argaeledd y tir. Gan fod gwaith adeiladu tai bellach wedi gwella yn unol â'r hinsawdd economaidd, mae'n dod yn bwysicach ailystyried yr angen am dir ar gyfer tai a materion cyflenwi tir.

Pris tŷ yn RhCT, ar gyfartaledd, yn 2017-2018 oedd £124,346. Mae hyn yn rhesymol debyg i'r llynedd, yn uwch na 3% o'i chymharu â 2015-2016 yn uwch na 13.6% o'i chymharu â chyfnod monitro 2013-2014. Yn ystod y cyfnod yma, pris tŷ, ar gyfartaledd, oedd £109,470.



Mae canlyniad Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2018) yn dangos problem mewn perthynas ag argaeledd tir tymor byr, gan ei bod yn dangos bod digon o dir ar gyfer tai am ddim ond 1.4 blynedd (sy hwy na 2017 (1.3 blynedd) ond yn llai na 2016 (1.5 mlynedd) a 2015 (2.4 blynedd)). Mae hyn yn cymharu â'r gofyniad i awdurdodau gael cyflenwad 5 mlynedd. Mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai yn cael ei gyfrifo yn y dull gweddilliol, yn seiliedig ar y tir ar gyfer tai sydd ei angen yn ôl y CDLI a fabwysiadwyd, dynodiadau tir ar gyfer tai'r CDLI a safleoedd eraill sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae adroddiadau blynyddol CAATT wedi priodoli'r ffigur isel yma yn rhannol i'r gyfran dir llwyd yn y cyflenwad (sydd angen mwy o amser ar gyfer ei baratoi yn dilyn cael caniatâd cynllunio), ac yn rhannol i effaith Safleoedd Strategol mawr (sydd â rhaglenni hwy o lawer na 5 o flynyddoedd).

Mae hefyd yn dod yn fwyfwy amlwg bod gofyniad y CDLI am dir ar gyfer tai yn afrealistig o uchel. Fel yn achos awdurdodau eraill yng Nghymru sydd â CDLI a fabwysiadwyd, mae'r gofyniad am dir ar gyfer tai yn uwch o lawer na gallu'r diwydiant i'w gyflawni, ac mae'r dull gweddilliol yn rhoi ffigur annigonol lai yn flynyddol er gwaethaf lefelau uwch o waith adeiladu tai. O ganlyniad i hyn, mae'r targed yn fwyfwy anodd ei fodloni bob blwyddyn. Bydd y sefyllfa yma yn parhau hyd nes bod cyfnod y cynllun wedi cael ei ddiweddarau. Ynghlwm wrth hyn caiff y ffigur ofynnol am dai ei hadolygu yn seiliedig ar yr angen yn ôl yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf. Hefyd, caiff cyflenwad safleoedd ar gyfer tai eu hailasesu.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi cwblhau dadansoddiad a dehongliad cychwynnol o'r Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014. Yn seiliedig ar gyfrifiad bras gan ddefnyddio'r ffigurau yma sydd wedi'u diweddarau, bydd angen 9,500 o anheddau newydd i ddiwallu'r angen rhagamcanol am dai rhwng 2011 2031. Byddai angen adeiladu llai o anheddau o lawer, sef tua 600 yn flynyddol, o hyn ymlaen. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gwneud rhagdybiaethau uchel. Yng nghydestun hyn, mae ffigurau adeiladu tai diweddar yn RhCT yn diwallu'r angen.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r targed tai yn y CDLI yn cael ei fodloni. Cafodd angen o 14,385 o anheddau erbyn 2021 ei nodi yn y cynllun a chyfradd o 959 o anheddau yn flynyddol yn ystod cyfnod y cynllun. Roedd hyn yn unol ag amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru pan gafodd y CDLI ei baratoi. Y targed ar gyfer 2015 oedd cwblhau 8,631 o unedau, ond dim ond 5,913 sy wedi'u cwblhau yn ystod cyfnod y cynllun hyd yn hyn. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer sylweddol o anheddau newydd.

Mae'r Cyngor yn credu bod cyfle sylweddol i'r gyfradd datblygu tai dyfu ymhellach yn sgil rhoi caniatâd i nifer sylweddol o unedau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac i gyfanswm o 8,678 ers 2011. Er hyn, noder bod galw'r farchnad yn cyfyngu gallu adeiladwyr i raddau o ran adeiladu nifer uwch o dai, pwynt sydd wedi'i grybwyll mewn adrannau blaenorol.

O'r herwydd, mae'r Cyngor yn derbyn nad yw'r targedau gwirioneddol presennol yn cael eu bodloni, ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid heb ymyrraeth benodol. Mae'r Cyngor, mewn ymateb i'r tangyflawniad mewn perthynas â'r polisi yma, yn bwrw ymlaen â nifer o ddulliau ymyrraeth gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar gyflawni gwaith ar y safleoedd, fel y trafodir uchod mewn perthynas â CS1 a CS2.



Un dull o'r fath yw ei Fforwm Datblygwyr unigryw, lle mae adeiladwyr tai preifat, landlordiaid rhent cymdeithasol ynghyd â'r Cyngor yn trafod eu profiadau wrth ddarparu tai, y rhwystrau i hyn ac atebion posibl.

Ym mis Gorffennaf 2015, cytunodd y Cabinet i gymeradwyo adroddiad 'Strategaeth Galluogi Datblygu Tai' sy'n nodi manylion am gynllun a fyddai'n cynnwys cael gwared ar dir mae'r Cyngor yn berchen arno er mwyn datblygu tai arno. Canlyniad arall hyn yw cynllun hunan-adeiladu peilot, lle mae rhai o'r safleoedd llai sy'n eiddo i'r Cyngor wedi'u nodi ar gyfer eu haddasrwydd i gynnwys lleiniau tai hunan-adeiladu. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys nodi tir addas i'r Cyngor y gellid ei werthu am brisiau fforddiadwy i unigolion sy'n dymuno rheoli, dylunio ac adeiladu eu heiddo eu hunain.

Yn ystod 2016-2017, comisiynodd y Cyngor y cwmni GVA Billfinger i ymgymryd ag arfarniadau prisio cynhwysfawr ar gyfer rhai o'r safleoedd hyn ynghyd â'r holl ddyraniadau tai sydd heb eu datblygu yn y CDLI. Roedd hyn i ddeall y safleoedd yn well ac wedyn helpu i alluogi eu datblygiad. Yn ystod 2017-18, cytunodd y Cyngor ymhellach ar raglen Tai Hwyluso, i ganiatáu benthyciad neu grantiau arian i helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r dyraniadau CDLI heb eu datblygu. Cynhaliwyd dadansoddiad manwl pellach o'r safleoedd, a ddatblygwyd yn rhannol ar yr asesiadau gwerthuso GVA, ond hefyd gan eu gwerthuso yn erbyn meini prawf strategol angenrheidiol; er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer datblygu a chyllido. Cysylltwyd â pherchnogion ac asiantau ar gyfer y rhestr fer o safleoedd yn ystod gwanwyn 2018, a chafodd cyfarfodydd eu cynnal ar lawer. Mae hyn wedi cynyddu diddordeb ac wedi symud rhaid safleoedd yn eu blaenau. Yn ddiweddar, mae cais wedi'i dderbyn ar un.

Mae nifer o gyfarfodydd gyda thirfeddianwyr hefyd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar er mwyn hwyluso gwaith adeiladu tai yn y Fwrdeistref Sirol. Cyflwynwyd cais yn ddiweddar ar ddyraniad tai ASDd 10.5, safle'r hen Hillside Club, Tonyrefail, ac mae'r dyraniad ASO 9.17, safle oddi ar Heol y Fynwent, Treorci, ar hyn o bryd ar y farchnad ar gyfer adeiladwyr tai. Er nad yw ar ddyraniad, cyflwynwyd cais am ddatblygiad tai hefyd ar safle hen ffatri Nidum yn Hirwaun, sydd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud ar 6 safle ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, er bod y Cyngor yn derbyn nad yw'r targed monitro yn cael ei gyflawni, mae'n debygol y bydd yn mynd i'r afael heb ymyrraeth benodol drwy'r strategaethau arloesol y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith er mwyn hwyluso gwaith datblygu tai.

Mae cynigion wedi cael eu cyflwyno ar nifer o safleoedd ar hap ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae disgwyl y bydd cynigion pellach yn cael eu cyflwyno. Yn wir, mae nifer eisoes wedi'u cyflwyno ar safleoedd hen ysgolion uwchradd yn Aberdâr a safle'r hen goleg yn Nhrecynon.

Mae'r Cyngor yn hyderus bydd y dulliau yma, ynghyd â gwelliannau pellach yn y farchnad dai, yn cefnogi cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn y cyflenwad tai yn Rhondda Cynon Taf. Mae cynnydd wedi bod o un flwyddyn i'r llall (ar wahân i 2017-2018) ers dechrau'r cyfnod cynllunio.



POLISI:	AMCAN:	POLISIŶAU CYSYLLTIEDIG:
SG 5 – Tai Fforddiadwy	1, 6 a 10	AE 3, ASO 11 a ASDd 12
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Adeiladu 1770 o dai fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod y Cynllun.	MABWYSIADU: 237 o Anheddau	
	2015: 1062 o Anheddau	
	2021: 1770 o Anheddau	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DC 2, DC 4, DLI 1, DLI 2, DLI 3 a DLI 4		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
<p>Mae Polisi SG 5 yn rhoi'r targed o adeiladu 1,770 o dai fforddiadwy yn ystod cyfnod y CDLI. Yn ystod 2017–2018 cafodd 198 o dai fforddiadwy newydd eu hadeiladu yn Rhondda Cynon Taf. Gan gynnwys y rhain, mae 1,135 o dai fforddiadwy wedi cael eu hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006. Cafodd 150 o dai ychwanegol eu cymeradwyo yn ystod 2017–2018.</p> <p>Mae datblygu tai fforddiadwy newydd yn Rhondda Cynon Taf yn gysylltiedig yn ei hanfod â datblygu tai marchnad gyffredinol. O ganlyniad i'r gostyngiad yn y nifer o dai a gafodd eu hadeiladu yn genedlaethol oherwydd y dirwasgiad economaidd, cafodd llai o dai eu hadeiladu yn y Fwrdeistref Sirol. Bu gostyngiad felly yn y nifer o dai fforddiadwy. Yn yr un modd, mae'r sefyllfa yma yn debyg i ddadansoddiad o'r broses fonitro o anghenion tai cyffredinol yn SG 4 uchod. Mae'r Cyngor yn credu y bydd cyfleoedd i ddatblygu rhagor o dai fforddiadwy yn cynyddu yn ne'r Fwrdeistref Sirol (lle mae'r angen yn fwy am dai fforddiadwy). Mae modd priodoli hyn i welliannau yn yr economi a chynnydd yng ngwaith adeiladu tai.</p> <p>Unwaith eto, fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r targedau'n cael eu bodloni, er y dylid cydnabod bod y nifer yma o gartrefi fforddiadwy a ddarperir yn ffigur arwyddocaol iawn.</p>		

POLISI:	AMCAN:	POLISIŌAU CYSYLLTIEDIG:
SG 6 – Gofynion Cyflogaeth	3	AE 11, ASO 14 – 16 ac ASDd 14
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Datblygu cyflogaeth 'strategol' ar 51 o hectarau a chyfleoedd cyflogaeth 'leol' ar 47 o hectarau.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: 25ha cyflogaeth 'strategol' / 23ha ar gyfer cyflogaeth 'leol'	
	2021: 51ha cyflogaeth 'strategol' / 47ha ar gyfer cyflogaeth 'leol'	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DC 3, DC 4, DC 6 and DLI 5		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
<p>Mae Polisi SG 6 o'r CDLI yn dynodi 51 o hectarau o dir ar gyfer cyflogaeth strategol a 47 o hectarau ar gyfer cyflogaeth leol. Bwriwyd ymlaen â gwaith datblygu ar un safle cyflogaeth lleol (ASO 14.2) yn Ystad Ddiwydiannol Hirwaun yn ystod 2016-2017 a chafodd un safle arall (ASO 14.1) ganiatâd cynllunio amlinellol ar 16 Mai 2016 yn hen ffatri Chubb, Glynrhedynog.</p> <p>Yn y safle wedi'i ddynodi o 4.17ha yn Ystad Ddiwydiannol Hirwaun (ASO 14.2) mae gwaith yn mynd rhagddo ar weithredu'r cynlluniau ar gyfer ffatri adfer adnoddau gwastraff a chynhyrchu ynni yn Fifth Avenue a Ninth Avenue. Mae'r cynllun yn cynnwys ffatri gwres a phŵer cyfunedig a all gynhyrchu hyd at 20 MW. Mae dau adeilad wedi'u hadeiladu hyd yma, ac mae gwaith sylweddol ar y tir wedi'i wneud.</p> <p>Mae'r cais i ailddatblygu hen safle ffatri Chubb yn estynedig at ddibenion cymysg yn safle wedi'i ddynodi ASO 14.1 wedi cael caniatâd amlinellol. Mae hyn yn cynnwys hyd at 172 o anheddau preswyl (dosbarth C3) a hyd at 20,750 troedfedd sgwâr o lorïau ar gyfer masnach, manwerthu a chyflogaeth (Dosbarthiadau A1, A2, A3, B1 a D1). Caiff y cynlluniau yma eu gweithredu yn fras ar drydedd adran ganolog y safle. Er bod ardal fawr o'r safle cyflogaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill, mae cynlluniau cyflogaeth sylweddol yn yr arfaeth. Mae cyfle yn ogystal i ddenu buddsoddiad sylweddol i un o gymunedau mwyaf tlawd RhCT. Mae'r Cyngor yn credu y gallai'r rhannau o'r safle cyflogaeth sy'n weddill gael eu datblygu ar gyfer ei ddefnydd dynodedig yn sgil y datblygiad yma. Mae amod arall ar y cais, sef cyflawni'r elfen o gyflogaeth ar ddechrau'r cam datblygu.</p> <p>Yn ddiweddar, roedd dyraniad cyflogaeth ASDd 14.1 yng Nghoed-elái, Tonyrefail hefyd wedi derbyn cais materion wedi'u cadw'n ôl a gymeradwywyd i ymestyn y ffordd bresennol i</p>		



frig y dyraniad a gwasanaethu'r llwyfandir unigol. Yn ogystal â hyn, cafodd yr holl fanylion seilwaith a draenio angenrheidiol eu cyflwyno yn y gobaith o weithredu'r caniatâd gwreiddiol, a gyflwynwyd gyntaf yn 2009.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fod £ 2.58miliwn o arian Ewrop wedi'i sicrhau tuag at becyn o £3.93miliwn er mwyn creu unedau busnes modern ar Safle Strategol Tresalem. Bydd y cynllun yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cyngor sawl caniatâd yn ystod 2017-2018 ar gyfer datblygiad diwydiannol. Mae'r 19,064.9m² o ofod diwydiannol gros a gafodd ganiatâd yn cynnwys nifer o newidiadau defnydd, estyniadau a datblygiadau newydd. Cafodd caniatâd ei roi ar gyfer unedau newydd, gan gynnwys canolfan arloesi (gofod swyddfa B1) sy'n cynnwys 359m² ym Mharc Busnes Cwm Elái, Pont-y-clun; 248m² o ofod swyddfa B1 newydd ym Mharc Magden, Llantrisant; 952m² o ofod diwydiannol B1 / B2 / B8 newydd sy'n cynnwys 7 uned ddechreuol yn Ystad Ddiwydiannol Pontcynon; ac adeiladu tair uned ar gyfer B1 / B2 / B8 sy'n cynnwys 1,329m² ar Ystad Ddiwydiannol Gelli yng Nghwm Rhondda.

Yn dilyn y caniatâd amlinellol a gafodd ei roi ar gyfer safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale, Pontypridd yn 2016-2017; cyflwynodd y Cyngor gais cynllunio llawn (nid materion wedi'u cadw'n ôl) yn 2017-2018 oherwydd cynnydd yn yr arwynebedd llawr o'r 12,675m gwreiddiol². O ganlyniad, maint yr elfen gofod swyddfa B1 a gafodd ganiatâd drwy'r cais llawn yw 8,488m² bellach. Mae elfennau eraill y cynllun yn cynnwys 1,064m² o D1; 1,038m² o D2; 568m² o A3; a 3,525m² ar gyfer islawr / man a rennir / cynllun / gwasanaethu ac ati; bydd y cynnig yn cael ei rannu ar draws tri adeilad. Mae gwaith ar y safle wedi cychwyn gyda gwaith glanhau tir yn 2017-2018.

Yn 2016-2017, cafodd hen safle Sogefi yn Llantrisant ganiatâd ar gyfer datblygu depo bws. Mae hyn yn rhan o gam cyntaf gwaith ailddatblygu'r safle yn bencadlys Edwards Coaches. Mae symud y cwmni i safle mwy yn sicrhau bydd y busnes llwyddiannus, lleol yma, sy'n cyflogi nifer o bobl yn RhCT, yn parhau i dyfu a ffynnu. Mae'r ail gam wedi'i weithredu yn 2017-2018 gyda'r adeilad Sogefi mwyaf yn cael ei adnewyddu a'i isrannu. Mae nifer o fusnesau lleol eisoes yn meddiannu dros hanner yr unedau sydd ar gael yn yr adeilad.

Cyflwynwyd cais hefyd ar gyfer 14,884m² o ofod swyddfa B1 ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest. Bydd yr adeilad, a fydd yn ymestyn dros bum llawr, yn Bencadlys yr Adran Gwaith a Phensiynau, a bydd yn dod â hyd at 1,550 o swyddi i'r safle.

Er na fydd ar safleoedd wedi'u dynodi, mae'r datblygiad yn dystiolaeth bod yr economi yn gwella a bod cwmnïau yn fodlon buddsoddi yn RhCT. Mae hefyd yn gyfraniad ychwanegol at fanc tir cyflogaeth y Cyngor.

Yn ogystal â'r safleoedd wedi'u dynodi, mae'r Cyngor yn monitro 101 o safleoedd cyflogaeth gweithredol yn flynyddol ledled y Fwrdeistref Sirol, ac o fewn y rhain y mae tua 1,719 o unedau. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn unedau dosbarth defnydd B1, B2 a B8 cyflogaeth traddodiadol. Mae'r unedau hefyd yn cynnwys dosbarthiadau defnydd eraill ar



gyfer ystadau diwydiannol, gan gynnwys rhai sui generis a rhai Dosbarth D penodol. Yn ogystal â sicrhau bod modd datblygu ar safleoedd newydd, mae'r CDLI yn allweddol o ran diogelu a rheoli'r safleoedd yma. Yn ôl y broses fonitro, 7.95% yw'r gyfradd wacter ledled unedau cyflogaeth y safleoedd gweithredol yma. 9.0% oedd y gyfradd yn 2016-2017 ac 13.8% oedd y gyfradd yn 2015-2016. Mewn rhai o'r safleoedd yma mae ardaloedd sylweddol o dir sydd wedi'i glirio neu sydd heb ei ddatblygu, a gallai'r rhain gael eu datblygu a chael buddsoddiad yn y dyfodol.

Mae gan y Cyngor 729.40 hectar o dir cyflogaeth ac mae 156.12 yn weddill ar gyfer datblygu arno. Mae 98.69 hectar o hyn ar gael yn syth. Mae hyn yn cynnwys safleoedd heb eu datblygu, safleoedd cyflogaeth anhywaith ac ardaloedd o dir heb ei ddatblygu ar safleoedd gweithredol. Maint y 101 o safleoedd cyflogaeth gweithredol, cyfredol yw 624.89 hectar. Mae hyn yn cynnwys 64.41 hectar o dir gwag, heb ei ddatblygu sydd ar gael yn syth ar gyfer datblygiad cyflogaeth.

Yn sgil neilltuo safleoedd cyflogaeth yn y CDLI, roedd y Cyngor o'r farn bod y safleoedd mwyaf priodol ac addas wedi cael eu dynodi i ddiwallu'r angen a gafodd ei gyfrifo am dir cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r tir wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth yn Safle Strategol Mwyndy, ASDd 8 a'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth yng Nghoed-elái, ASDd 14.1 (y ddau'n eiddo i Lywodraeth Cymru) yn cael eu hystyried yn fwyaf dymunol yn y Fwrdeistref Sirol. Dyw'r rhesymau penodol nad ydyn nhw wedi cael eu datblygu ddim yn amlwg. Gallai'r dirywiad economaidd a phroblemau o ran perchnogaeth tir ill dau fod wedi effeithio arnyn nhw.

Mae'r prif gynllun mwynglawdd brig sydd ar hyn o bryd yn rhan sylweddol o'r dyraniad cyflogaeth yn rhan o Safle Strategol Hirwaun, ASO 8, yn mynd yn ei flaen yn gynt na'r disgwyl o ran y gwaith adfer. Mae prosesau gweithredol yn eu lle i ddatblygu uwchgynllun ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol. Y gobaith yw y caiff y gwaith paratoi'r safle a chynllun deuoli pennau'r cymoedd A465 eu cwblhau yn gyfamserol. Buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn ardal gogledd y cymoedd yw'r cynllun deuoli, ac y bydd y safle yn sgil hynny'n allweddol o ran galluogi adfywiad economaidd yn y cylch.

Eto, mae'r Cyngor yn derbyn nad yw'r targed penodol yn cael ei fodloni o ran cyflawni gwaith ar y tir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth. Er hynny, bu gweithgarwch economaidd sylweddol a chalonogol ar y safleoedd cyflogaeth presennol. Yn rhan o'r gweithgarwch economaidd mae 1,240 o fusnesau wedi cael eu sefydlu yn RhCT yn ystod 2016 (StatsCymru). Mae hon yn ffigur uwch na'r ffigur ar gyfartaledd ymhlith awdurdodau de ddwyrain Cymru yn ystod yr un flwyddyn, sef 652.5. Mae hefyd yn gynydd cadarnhaol ar y blynyddoedd blaenorol: 925 (2015), 790 (2014), 785 (2013) a 505 (2012).

O ran cyflwyno a datblygu ar ein dyraniadau cyflogaeth, dylid cydnabod nad yw'r safleoedd wedi dod i'r amlwg fel roedden ni'n ei ddisgwyl, ac nad yw'r targedau gwirioneddol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae gweithgareddau datblygu ar ein safleoedd cyflogi presennol wedi bod yn sylweddol, fel y nodwyd yn yr adroddiad yna, ac adroddiadau blaenorol. Mae'n cael ei ragweld y bydd datblygu tir cyflogaeth ychwanegol yn heriol, ond mae'r Cyngor yn hyderus y bydd cyfleoedd i ddenu buddsoddiad mewn perthynas â diogelu cyflogaeth yn cynyddu. Mae modd priodoli hyn i welliannau yn yr economi. Bydd safleoedd presennol a safleoedd a fydd yn cael eu dynodi felly yn diwallu'r angen. Oherwydd hyn, mae'r Cyngor



yn credu y gallai'r dangosydd monitro yma gael ei ddiwygio i adlewyrchu gweithgarwch cyflogaeth yn well yn y Fwrdeistref Sirol.

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 7 – Datblygiadau Manwerthu	2 a 6	ASO 17 ASO 15
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Gwella cynaliadwyedd a hyfywedd 8 Anheddiad Allweddol a 3 Prif Dref yn Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod y Cynllun. Datblygu rhwng 34,400m ² a 36,400m ² o lorïau manwerthu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y Cynllun.	MABWYSIADU: Dim	
	2015: 40% o ddynodiadau	
	2021: 100% o ddynodiadau	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DC 4, DC 6, DC 7, DLI 6, DLI 7, a DLI 8		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
<p>Mae'r CDLI yn dynodi tir ar gyfer rhwng 34,400 metr sgwâr a 36,400 metr sgwâr o lorïau manwerthu newydd.</p> <p>Yn 2017-2018, cafodd caniatâd ei roi ar gyfer gwagle manwerthu maint 4,282.4m². Mae'r ceisiadau yn cynnwys uned fanwerthu fawr ar lawr gwaelod hen Westy'r Black Lion yn Aberdâr; 2 uned ym Mharc Magden, Llantrisant ar gyfer Dosbarth A2 / A3; 568m² o ofod A3 ar hen safle Canolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale; siop fwyd newydd (Dosbarth A1) ym Mharc Menter Dinas ychydig y tu allan i ganol tref Porth; a newid defnydd i 1,305m² o siop fwyd A1 ar gyfer archfarchnad Co-operative yng Nghwm-bach.</p> <p>Ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, mae 7,717m² o lorïau manwerthu newydd wedi cael caniatâd ym Mharc Manwerthu Pontypridd, Lennox – ASDd 15.1. Mae'r safle 2 hectar yma bellach wedi cael ei ddatblygu'n llawn ac mae'n weithredol.</p> <p>Cafodd caniatâd ei roi yn 2016-2017 ar gyfer uned fanwerthu fawr (gydag eiddo preswyl uwch ei ben) yng ngwesty'r Boot. Dechreuwyd ar y gwaith yn 2017-2018. Mae'r uned yn cynnwys 425m²</p>		



o ofod llawr manwerthu o fewn safleoedd siopa cynradd canol tref Aberdâr a bydd yn gwneud defnydd buddiol o eiddo gwag hirdymor. Ymhellach, dechreuwyd clirio tir yn 2017 ar safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale, Pontypridd lle bydd y datblygiad yn cwmpasu 568m² o adeiladau Dosbarth A3 (bwyd a diod). Dechreuodd gwaith adeiladu ar y safle yn ystod 2018.

Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar y seilwaith ehangach ar gyfer yr uwchfarchnad ar Safle Strategol Mwyndy-Tonysguboriau a gafodd ganiatâd yn ystod cyfnod monitro 2014-2015. Cafodd y canol tref ehangach ganiatâd sy'n cynnwys 34,000m² o lorïau ar gyfer manwerthu, hamdden, swyddfeydd a gwesty. Yn sgil cael caniatâd, caiff canolfan leol ei hadeiladu ar Safle Strategol Llanilid a bydd elfen o fanwerthu. Yn ystod 2015-2016, cafodd cytundeb S106 ei lofnodi gan roi caniatâd cynllunio ar gyfer archfarchnad yn cynnwys gwelliannau hygyrchedd ar y Safle Strategol yn Hirwaun.

Yn ogystal â'r gwaith ar safleoedd wedi'u dynodi sy'n cael caniatâd ac yn cael ei weithredu, mae gwaith ychwanegol wedi cael ei gwblhau yn y Brif Dref, Pontypridd gan gynnwys ymestyn y siop genedlaethol, B & M a buddsoddi mewn siopau yng nghanol y dref. Yn rhan o hyn y mae adnewyddu'r siop Pep & Co, sydd bellach yn cael ei meddiannu. Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) hefyd wedi cael ei datblygu ym Mhontypridd, a'r gobaith yw y bydd rhagor o welliannau i'r ystod ac ansawdd o siopau yn y dref.

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran manwerthu yn y CDLI. Yn unol â hynny, ni ystyrir bod angen ymyrraeth i wella dilyniant y caniatadau hyn ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, bydd yr angen manwerthu ehangach yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei asesu'n llawn trwy adolygu'r CDLI.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau gwacter y Prif Drefi a'r Aneddiadau Allweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf (DLI 7):

Prif Dref / Anheddiad Allweddol	Cyfradd Wacter 2017-2018	Cyfradd Wacter 2016-2017	Cyfradd Wacter 2015-2016	Cyfradd Wacter 2014-2015	Cyfradd Wacter 2013-2014	Cyfradd Wacter 2012-2013	Cyfradd Wacter 2011-2012	Cyfradd Wacter 2010-2011
Aberdâr	14.09%	10.4%	9%	9.0%	12.7%	8.18%	6.0%	12.9%
Pontypridd	7.31%	8.7%	8.7%	8.7%	9.2%	9.22%	7.28%	6.63%
Llantrisant/Tonysguboriau	5.3%	4.3%	2.6%	1.7%	2.7%	2.68%	3.57%	0.9%
Glynrhedynog	13.04%	17.4%	13%	10.9%	8.7%	6.52%	8.7%	13.0%
Hirwaun	21.73%	22.7%	22%	9.5%	0%	0%	4.76%	4.76%
Llanharan	0%	5.0%	0%	0%	10%	0%	0%	5.0%
Aberpennar	11.7%	11.7%	12.7%	18.3%	20.4%	23.66%	18.28%	19.35%
Y Porth	11.57%	14.0%	10.8%	14.2%	15.8%	11.48%	10.92%	15.13%
Tonypanyd	16.44%	16.4%	20.53%	19.7%	18.4%	23.33%	18.24%	18.24%



Tonyrefail	18.51%	20.4%	12.9%	13.5%	9.6%	11.53%	7.55%	9.26%
Treorci	7.37%	5.8%	9%	6.8%	4.2%	6.83%	5.93%	4.2%
Cyfraddau Gwacter Cyffredinol	11.5%	12.4%	10.6%	10.8%	11.4%	10.8%	9.1%	10.7%



11.5% oedd cyfradd wacter canol tref gyffredinol y Prif Drefi ac Aneidiadau Allweddol. Mae'r ffigurau yn dod o arolwg manwerthu blynyddol y Cyngor ym mis Hydref 2017. Mae hon bron 2.2% yn uwch na chyfradd wacter canol trefi'r DU ar gyfartaledd, sef 9.3% ym mis Hydref 2017 (Springboard). Roedd cyfradd wacter Rhondda Cynon Taf yn debyg i gyfradd Cymru ar gyfartaledd. 11.5% oedd cyfradd Rhondda Cynon Taf tra 11.7% oedd cyfradd Cymru (Hydref 2017, Springboard).

Yn gyffredinol, mae gan Brif Drefi unigol Pontypridd a Llantrisant / Tonysguboriau gyfraddau swyddi gwag isel, yn enwedig Llantrisant / Tonysguboriau sydd â chyfradd swyddi gwag o 5.3%, sydd yn sylweddol is na chyfartaledd y DU a Chymru. Mae Pontypridd hefyd yn is na chyfartaledd Cymru gyda chyfradd swyddi gwag o 7.31% yn unig. Fodd bynnag, mae Aberdâr wedi gweld cynnydd yn ei gyfradd swyddi gwag dros y ddwy flynedd ddiwethaf, i 14.09%. Yn ôl hynny, mae Aberdâr yn dal i fod yn dyst i fuddsoddiad sylweddol. Cafodd hen westy'r Black Lion a Boot Hotel yn Sgwâr Victoria ganiatâd ar gyfer datblygiad manwerthu llawr gwaelod gyda datblygiad preswyllo uchod yn 2017-2018 a 2016-2017 yn y drefn honno. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y Boot a gobeithio y bydd gwaith ar westy'r Black Lion yn cychwyn yn fuan. Yn ogystal, mae'r ffaith bod banciau HSBC a Natwest wedi gadael y dref hefyd yn cyfrannu 1% at gyfradd swyddi gwag y dref.

Mae cyfraddau gwacter yr Aneidiadau Allweddol yn weddol amrywiol. Er enghraifft, 0% yw'r gyfradd wacter yn Llanharan o'i chymharu â bron 21.73% yn Hirwaun. O'r 11 o'r Prif Drefi ac Aneidiadau Allweddol; mae pump yn is na chyfartaledd Cymru tra bod Aberpennar yn cyfateb i gyfartaledd Cymru (11.7%). Mae Glynrhedynog (13.04%), Hirwaun (21.73%), Tonypany (16.44%), Tonyrefail (18.51%) ac Aberdâr (14.09%) uchod. Mae'r gyfradd swyddi gwag gyffredinol wedi gostwng 0.9% ers 2016-2017, gan adlewyrchu tueddiadau cyffredinol y DU a Chymru.

Er bod y gyfradd wacter wedi cynyddu eleni o'i chymharu â 2016-2017, mae'n parhau i fynd law yn llaw â thueddiadau cyffredinol y DU. Serch hynny, mae Rhondda Cynon Taf ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sy'n dangos bod canol trefi yn parhau i gyflawni'n gyson. Mae'r byd manwerthu yn gadarnhaol, yn fwy na dim. Mae llond llaw o ganiatadau llai eu maint wedi'u cymeradwyo, a fydd yn cyfrannu at fywiogrwydd ac ymarferoldeb canol ein trefi. Mae modd dweud bod elfen o hyn o ganlyniad i'r buddsoddiad helaeth parhaus yn adfywiad canol ein trefi.



POLISI:	AMCAN:	POLISIŶAU CYSYLLTIEDIG:
SG 8 – Trafnidiaeth	6 ac 8	ASO 20 i ASO 23 ac ASDd 18 i ASDd 21
TARGED:	TARGED MONITRO:	
<p>Hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio ledled Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Lleihau'r angen i deithio drwy ddatblygu gwasanaethau newydd mewn lleoliadau hygyrch yn ystod cyfnod y cynllun.</p>	MABWYSIADU: Dim	
	2015: 40% o ddynodiadau	
	2021: 100% o ddynodiadau	
CYFLAWNIAD:	 	
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 9 a DLI 10		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
<p>Mae'r CDLI yn dynodi tir ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau trafndiaeth gan gynnwys priffyrdd pwysig, heolydd, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo.</p> <p>Isod y mae'r rheini sydd wedi cael eu cwblhau hyd at y dyddiad yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ASO 21.3 – Ehangu cyfleusterau parcio a theithio presennol yn Nhresalem; • ASO 23.3 – Llwybr seiclo a chysylltiadau Blaenau'r Cymoedd i Ystad Ddiwydiannol Hirwaun; • ASO 21.2 – Y tir i'r de o Dŷ Trevithick wrth ochr yr A470 yn Abercynon. • ASDd 20.6 – Cynllun Parcio a Theithio Gorsaf Ffynnon Taf; • ASDd 21.1 – Cynllun Connect 2 Trefforest • ASDd 21.2 – Cynllun Extension to Connect 2 Pontypridd; • ASDd 21.3 – Llwybr seiclo rhwng Maes-y-coed a'r Porth; • ASDd 21.4 – Llwybr seiclo Glyn-taf i Nantgarw; • ASDd 21.6 – Pontypridd i Donyrefail trwy Lantrisant; mae adrannau 1 a 2 bellach wedi'u cwblhau ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y drydedd adran. Mae cyllid wedi cael ei ddynodi ar gyfer gwaith ar y llwybr o'r pen gorllewinol hyd at dafarn y Cross Inn. • ASDd 18.2 – Deuoli Ffordd Osgoi Tonysguboriau – mae cynllun adeiladu tymor hir 		



wedi'i ddechrau er mwyn gwella cylchfan Mwyndy Cross ymhellach.

Yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i nodi uchod, bu cynnydd yng nghynlluniau wedi'u dynodi eraill. Yn yr Adran Strategol Ogleddol, mae'r Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yn Ne Aberpennar wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer ffordd gyswllt dwyrain-orllewin drwy welliannau i gyffordd ar yr A4059. Dechreuodd y gwaith adeiladu yn haf 2017 gyda gwaith ar y brif bont yn dechrau yn haf 2018. Mae'r Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yng Ngogledd Aberpennar wedi cael ei hadolygu'n rhan o ddatblygu ffordd gyswllt yn y de. Serch hynny, bydd y ffordd yn y de yn cael ei blaenoriaethu.

Mae'r gwasanaeth parcio a theithio Safle Strategol 5 (Hirwaun) wedi cael ei gynnwys yn rhan o gynllun Porth Cynon yn CTLI De Ddwyrain Cymru. Crëwyd manau parcio ychwanegol yn ddiweddar yn gyfleuster parc a theithio yn Abercynon, yn dilyn ail asesiad o gynllun y maes parcio. Cafodd rhan o'r llwybr beicio rhwng Ystad Ddiwydiannol y Gelli a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda ei rhoi ar waith yn 2017-2018. Cafodd hyn ei ariannu gan y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae'r holl lwybrau beicio eraill o fewn yr ASO wedi'u clustnodi ar gyfer gwelliant neu estyniadau yn rhan o Fap Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol, mae Ffordd Osgoi A473 Llanharan wedi'i chynnwys o fewn CTLI Cymoedd De Ddwyrain Cymru ac roedd adroddiad cam 1 WeITAG wedi'i gwblhau o fewn 2017-2018. Mae gwelliannau i gyffyrdd allweddol yn parhau mewn perthynas â dyraniad Ffordd Osgoi A473 Tonysguboriau. Mae gan bob llwybr beicio arall gynigion i wella rhannau o'r llwybr sydd ar Fap Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Mae'n bosibl y caiff dynodiadau trafndiaeth eraill yn y CDLI eu datblygu yn rhan o system Metro De Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymestyn cyfleuster Parcio a Theithio Tresalem ymhellach. Mae potensial i ymestyn y gwasanaeth yn fwy oherwydd bod disgwyl i ddefnyddwyr y cyfleusterau presennol gynyddu cymaint ag y bo modd yn ymarferol ymhen 2 flynedd o ganlyniad i gynlluniau arfaethedig y system Metro. Mae gwaith ar y gwasanaeth parcio a theithio yn Ffynnon Taf wedi dod i ben a chan fod Ffynnon Taf yn cael ei hadnabod yn gangen allweddol o'r rhwydwaith trafndiaeth, mae'n debygol y bydd gwelliannau ychwanegol yn rhan o waith y system Metro/y Fargen Ddinesig (ASDd 20.6). Mae CTLI Cymoedd De Ddwyrain Cymru yn cynnwys cynlluniau arfaethedig i gynyddu'r gwasanaeth yng ngorsafodd Pont-y-clun a Threfforest – mae'n debygol y bydd eu defnyddwyr yn cynyddu i'r nifer uchaf yn ymarferol o fewn y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â hyn, mae defnydd o orsaf Llanharan yn gymharol uchel, ac mae gwaith ymarferoldeb yn mynd rhagddo ynghylch y posibilrwydd i ymestyn cyfleusterau parcio a theithio. Mae dwy ran o lwybr beicio Pontypridd i Donyrefail drwy Lantrisant wedi'u cwblhau. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi am y drydedd. Mae cyllid wedi cael ei ddynodi ar gyfer gwaith ar y llwybr o'r pen gorllewinol hyd at dafarn y Cross Inn.

Mae'r mwyafrif o'r cynlluniau trafndiaeth a llwybrau seiclo sydd wedi'u dynodi wedi cael eu cynnwys yn rhan o Gynllun Trafndiaeth Lleol Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Cafodd hwn ei lunio gan 5 Awdurdod Lleol yr ardal ac ynddo cafodd amserlenni targed/posibl eu nodi, yn ogystal â ffynonellau ar gyfer eu hariannu.



Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ymarfer ymgynghori â'r Cyngor yn ddiweddar ar gydweddu deuli'r A465. Gobeithio y bydd y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n fuan. Cyflwynwyd cynigion i gysylltu'r ffordd ddeuol â'r estyniad arfaethedig i Ffordd Osgoi Aberdâr A4059 (polisi CS8.a3), fel y'i cynhwysir yng Nghynllun Cludiant Lleol Cymoedd De Ddwyrain Cymru.

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am gynnydd yn y cynlluniau trafndiaeth wedi'i dynodi yn Atodiad 1 – Statws Dynodiadau.

Yn ystod 2017–2018, mae'r CDLI a'r broses Rheoli Datblygiadau wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau. Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy (2 annedd o'r 1,153 a gafodd ganiatâd). Mae 1000% (12 o 12) o'r datblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Mae'r holl ddatblygiadau manwerthu newydd (23 o 23) a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy (DLI 10). Y ddau annedd nad oedden nhw o fewn 400 metr i o leiaf un dull cludiant yw anheddau gweithiwr amaethyddol.

Mae'r targedau monitro bron yn cael eu bodloni, ac mae rhagor o ystyriaeth wedi cael ei rhoi ar gyfer ariannu'r cynlluniau yma sy'n weddill yn y dyfodol agos.

POLISI:	AMCAN:	POLISIÂU CYSYLLTIEDIG:
SG 9 – Trin Gwastraff	1, 2, 4, 5, 6 a 8	ASO 1 i ASO 27
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Datblygu rhwng 12.5 a 21.7 o hectarau i ddiwallu'r angen am reolaeth wastraff yn ystod cyfnod y Cynllun.	MABWYSIADU: Ddim yn berthnasol	
	2015: Ddim yn berthnasol	
	2021: Ddim yn berthnasol	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DLI 10		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
Yn ystod 2017-2018, chafodd capasiti trin gwastraff ddim ei ganiatáu. Mae'r capasiti, felly, yn parhau maint 9.95 hecтар, sef 79.6% a 45.9% o ofynion capasiti isaf a mwyaf y Cynllun		



Gwastraff Rhanbarthol.

Dyma gyfraddau gwaredu Rheoli Gwastraff Rhondda Cynon Taf yn ystod 2017–2018:

- 1.76% wedi'i dirlenwi;
- 0.79% wedi'i aildefnyddio;
- 45.99% wedi'i ailgylchu;
- 45.98% wedi'i defnyddio yn y broses o adfer ynni;
- 14.53% wedi'i gompostio.

Mae'r Cyngor yn credu ei fod yn bodloni'r targed mewn perthynas â rheoli gwastraff. Eto, caiff rhagor o ystyriaeth ei rhoi i'r maes yma yn rhan o adolygu'r CDLI, a chaiff unrhyw ddiwygiadau o ganllawiau cenedlaethol ynghylch gwastraff sydd eu hangen eu cynnwys.

POLISI:	AMCAN:	POLISI'AU CYSYLLTIEDIG:
SG 10 – Mwynau	10	AE 14 a ASDd 26
TARGED:	TARGED MONITRO:	
Cynnal banc tir 10 mlynedd o agregau wrth gefn sydd wedi cael caniatâd.	MABWYSIADU: Ddim yn berthnasol	
	2015: Ddim yn berthnasol	
	2021: Ddim yn berthnasol	
CYFLAWNIAD:		
DANGOSYDDION ALLBWN CRAIDD A LLEOL:		
DC 11		
DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU:		
Chafodd dim gwaith caniatâd i gloddio am agregau crai yn ystod 2017–2018. Parhaodd gwaith cynhyrchu agregau yn Rhondda Cynon Taf yng Nghwarel Craig yr Hesg ym Mhontypridd ac yng nghwareli Forest Wood ger Pont-y-clun.		
Mae'r Cyngor yn ystyried cais i ymestyn Cwarel Craig yr Hesg, Pontypridd i'r gorllewin ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galluogi gwaith cloddio graddol am 10 miliwn o dunelli o dywodfaen pennant ac mae'r cais hefyd yn cynnwys cynllun i adfer y cwarel yn gyffredinol.		



5 MONITRO'R GWERTHUSIAD O GYNALIADWYEDD

- 5.1 Mae GG y cynllun yn cynnwys 22 o dargedau a 25 o ddangosyddion o effaith sylweddol. Nod y rhain yw mesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI. Yn ogystal â hyn, eir ati i fodloni'r gofyn am fonitro yn yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yn rhan o fonitro'r GG.
- 5.2 Mae sicrhau bod y dangosyddion arfaethedig yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i ragweld canlyniadau i'r cynllun yn rhan allweddol o benderfynu ynghylch cynnydd y cynllun o ran ei gynaliadwyedd.

Canlyniadau o Fonitro'r GG

1. Tai	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau'r bwlc rhwng y cyflenwad o dai anghenion arbennig a fforddiadwy a'r angen amdanyn nhw. 	<ul style="list-style-type: none"> Y ganran o dai fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn o'r holl dai sy'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn.
Canlyniadau Monitro	
<p>Yn ystod 2017–2018, cafodd cyfanswm o 552 o anheddau, gan gynnwys rhai marchnad a rhai fforddiadwy, eu hadeiladu. Roedd 198 o'r rhain yn fforddiadwy, sef 35.8% o'r holl dai a gafodd eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn. Cafodd 150 o unedau fforddiadwy eraill eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod yma o gyfanswm o 1,153 o anheddau a gafodd eu cymeradwyo, sef 13.0%.</p> <p>Mae'r nifer yma o unedau fforddiadwy 50 yn llai na'r 248 a adeiladwyd yn 2016-2017, fodd bynnag, mae'n gynydd sylweddol ar y ffigurau ar gyfer 2015-2016 (98 annedd). O safbwynt GG, fodd bynnag, bu'r ffigurau cyffredinol mewn perthynas â thai fforddiadwy yn symud i'r cyfeiriad cywir yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd y GG yn gywir i ragweld cynnydd yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Yn ogystal â hyn, rhagwelodd y GG y byddai hyn yn cael effeithiau hirdymor cadarnhaol ar iechyd a'r economi drwy annog pobl ifainc a theuluoedd i barhau i fyw yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn wir yn enwedig yn ardaloedd y gogledd, lle mae diboblogi yn broblem.</p> <p>Fel sydd wedi'i nodi yn y dadansoddiad o ganlyniadau SG 5 (Tai Fforddiadwy), mae perthynas agos rhwng ffigurau o ran adeiladu tai fforddiadwy a ffigurau o ran adeiladu tai yn gyffredinol. Er mwyn cael effaith hirdymor a chadarnhaol ar dai, cyflogaeth ac iechyd sy'n parhau; bydd raid i'r nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu gynyddu yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd hyn yn dibynnu ar welliannau yn yr economi ac yng nghyfraddau adeiladu o dai marchnad ar raddfa genedlaethol a</p>	



lleol. Mae adeiladwyr tai wedi rhybuddio eu bod yn debygol o fod yn wyliadwrus yn ystod cyfnod pontio 'Brexit', felly, mae'n debyg bydd hyn yn creu sefyllfa anodd yn y dyfodol.

2. Diwylliant a Threftadaeth		
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>	
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau'r nifer o adeiladu ar y gofrestr 'mewn perygl' (yn flynyddol). Cynnal/diogelu safleoedd lleol dynodedig o werth diwylliannol ac ardaloedd o werth archeolegol fawr. 	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladai sydd mewn perygl (y nifer absoliwt). Y nifer o Safleoedd wedi'u Dynodi sydd â Chynlluniau Rheoli. 	
Canlyniadau Monitro	(Adeiladau mewn perygl)	(Cynlluniau rheoli)
<p>Ebrill 2017-Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> 47 o Adeiladau mewn Perygl; 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli. <p>Ebrill 2016-Mawrth 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> 47 o Adeiladau mewn Perygl; 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli. <p>Ebrill 2015-Mawrth 2016:</p> <ul style="list-style-type: none"> 47 o Adeiladau mewn Perygl; 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli. <p>Ebrill 2014-Mawrth 2015:</p> <ul style="list-style-type: none"> 47 o Adeiladau mewn Perygl; 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli. <p>Ebrill 2013-Mawrth 2014:</p> <ul style="list-style-type: none"> 47 o Adeiladau mewn Perygl; 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli. <p>Ebrill 2012-Mawrth 2013:</p>		



- 47 o Adeiladau mewn Perygl;
- 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli.

Ebrill 2011-Mawrth 2012:

- 47 o Adeiladau mewn Perygl;
- 7 o Ardaloedd wedi'u dynodi gyda Chynlluniau Rheoli.

Er y gallai adeiladau fod wedi cael eu hadfer (neu y gallai adeiladau rhestredig eraill fod wedi dirywio) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dim ond yn sgil arolwg Adeiladu mewn Perygl arall y cân nhw eu dileu/diwygio yn ffurfiol. Gan nad yw CADW wedi cynnal arolwg arall o'r adeiladau rhestredig yn RhCT ers 2011, does dim canlyniadau newydd i'r dangosydd yma. Mae gan 7 safle wedi'u dynodi gynlluniau rheoli.

Yn ystod y cyfnod monitro yma, mae sawl buddsoddiad cadarnhaol wedi'i wneud mewn adeiladau rhestredig yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn ychwanegu at y gwaith anhygoel sy eisoes wedi'i wneud yn ystod cyfnodau monitro blaenorol, megis ailddatblygu Neuadd Dref Aberdâr ac ailddatblygu Lido Ponty.

Mae nifer o welliannau eraill wedi'i gwneud yn ddiweddar i'r adeiladau ar y rhestr 'Adeiladau Mewn Perygl'. Mae hyn yn cynnwys gwesty'r Black Lion yn Aberdâr. Mae'i waliau allanol wedi'u hadnewyddu ac eleni, llwyddodd i sicrhau caniatâd ar gyfer datblygiad masnachol ar y llawr gwaelod a datblygiad preswyl uwch ei ben. Mae'r Labour Exchange sydd hefyd yn Aberdâr hefyd wedi'i adnewyddu'n llwyr. Ym Mhontypridd yn ystod y cyfnod monitro yma, mae'r gwaith adfer wedi parhau yn hen ysgol Coed y Lan sydd wedi cael ei adfer yn rhannol. Yn ogystal, mae llawer o eiddo eraill o fewn Ardal Gadwraeth Pontypridd wedi cael eu hadfer ac erbyn hyn mae manwerthwyr newydd yn meddu arnyn nhw, ac mae fflatiau preswyl uwch eu pen.

3. Cymunedau	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> • Gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cymunedol i bawb. • Cynyddu'r ganran o bobl sydd â chymwysterau a gwella sgiliau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y gyfran o ddatblygiadau tai, cyflogaeth a manwerthu newydd y mae modd eu cyrraedd yn hawdd drwy sawl modd o deithio yn flynyddol. • Y nifer o gofrestrïadau ar gyrsiau addysgol i oedolion fesul pob 1000 o'r boblogaeth. • Y ganran o blant 15/16 oed sy'n ennill y 'dangosydd pynciau craidd' (cyfuniad o



	radd 'C' yn y cymhwyster TGAU iaith Saesneg neu iaith Cymraeg, ac yn y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth).	
Canlyniadau Monitro	(Mynediad i foddau o deithio)	(addysg)
<p>Gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cymunedol i bawb.</p> <p>Ebrill 2017-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2016–2017 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 100% (12 o 12) o'r holl leoliadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae pob un o'r 23 o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. <p>Ebrill 2016-Mawrth 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2016–2017 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 100% (12 o 12) o'r holl leoliadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae pob un o'r 18 o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. <p>Ebrill 2015-Mawrth 2016</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.95% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2015–2016 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 92.3% (12 o 13) o'r holl ddatblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Cynllun arallgyfeirio ar fferm yw'r 13^{eg} uned. • Mae pob un o'r 23 o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2015–2016 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. <p>Ebrill 2014-Mawrth 2015</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.89% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2014–2015 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 86.6% (13 o 15) o'r holl ddatblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 100% o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd (22 o 22) yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd teithio neu fwy. 		



Ebrill 2013-Mawrth 2014

- Mae 99.6% o'r holl dai newydd a gafodd caniatâd yn ystod 2013–2014 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 78.6% (11 o 14) o'r holl leoliadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae'r holl leoliadau manwerthu yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.

Ebrill 2012-Mawrth 2013

- Mae 99.3% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2012–2013 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 89.5% (17 o 19) o'r holl ddatblygiadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 96% (28 o 29) o'r holl ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.

Ebrill 2011-Mawrth 2012

- Mae 97.7% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2011–2012 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 99.7% o'r holl ddatblygiadau cyflogaeth a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy.
- Mae 100% o'r datblygiadau manwerthu a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o un modd o deithio neu fwy.

Ar y cyfan, mae canlyniadau o'r dangosyddion ar gyfer hygyrchedd yn adlewyrchu cyflawniad uchel iawn. Bu cynnydd yn y ganran o dai a gafodd ganiatâd o fewn 400m o un modd o deithio neu fwy i 99.82%. Bu cynnydd sylweddol yn achos datblygiadau cyflogaeth o 86.6% i yn 2014-2015; 92.3% yn 2015-2016; a 100% yn 2016-2017 a 2017-2018; ac mae datblygiadau manwerthu wedi cael sgôr o 100% eto. Mae'n amlwg bod polisïau cryf y CDLI yn cael yr effaith gadarnhaol a ragwelwyd ar ddatblygiadau newydd. Bydd hyn hefyd yn effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau yn yr hirdymor.

Nid yw'r dangosydd isod ynglŷn â chanran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 yn y dangosyddion pynciau craidd ar gael ar gyfer 2017-2018. O ganlyniad, mae'r ffigwr ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 – sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd A * i C wedi'i ddefnyddio yn lle hynny.

Cynnyddu'r ganran o bobl sydd â chymwysterau a gwella sgiliau.

Ebrill 2017-Mawrth 2018

- Cyflawnodd 63.2% o ddisgyblion Rhondda Cynon Taf drothwy lefel 2 – sy'n



cyfateb i 5 TGAU gradd A * i C. Mae'r bwch i gyfartaledd Cymru (67%) 3.8 pwynt canran yn is.

Ebrill 2016-Mawrth 2017

- Roedd 1,917 o gofrestriadau ar gyrsiau addysgol i oedolion yn ystod 2016-2017.
- Cyrhaeddodd 55.1%% o ddisgyblion drothwy Lefel 2 y Dangosydd Pynciau Craidd mewn cyfuniad neu mewn cymwysterau cyfatebol (TGAU C neu uwch). Mae'r bwch o gymharu â chyfartaledd Cymru (57.6%) wedi parhau'n sefydlog (2.5%) o'i gymharu â'r llynedd.

Ebrill 2015-Mawrth 2016

- Doedd dim data ar gael mewn perthynas â chofrestriadau addysg i oedolion yn ystod 2015–2016 oherwydd amheuaeth ynghylch ei gywirdeb. Y gobaith yw y bydd gwybodaeth ddiweddar ar gael erbyn C2 2016–2017, ond mae'n bosibl na fydd modd gymharu hon â data blaenorol.
- Cyrhaeddodd 53.3%% o ddisgyblion drothwy Lefel 2 y Dangosydd Pynciau Craidd mewn cyfuniad neu mewn cymwysterau cyfatebol (TGAU C neu uwch). Roedd y bwch rhwng canlyniad RhCT a chanran Cymru ar gyfartaledd 2.4% yn llai na'r bwch yn 2014–2015 (54.8% oedd y ganran ar gyfartaledd ledled Cymru).

Ebrill 2014-Mawrth 2015

- 25.1 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg i oedolion fesul 1000 o'r boblogaeth (sef cyfanswm o 5,924 o gofrestriadau).
- 48.7% o ddisgyblion a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 y Dangosydd Pynciau Craidd mewn cyfuniad neu mewn cymwysterau cyfatebol (TGAU C neu uwch).

Ebrill 2013-Mawrth 2014

- 23.5 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg i oedolion fesul 1000 o'r boblogaeth (sef 4,503 o gofrestriadau).
- 45.26% o ddisgyblion a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 y Dangosydd Pynciau Craidd mewn cyfuniad neu mewn cymwysterau cyfatebol (TGAU C neu uwch).

Ebrill 2012-Mawrth 2013

- 21.66 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg i oedolion fesul 1000 o'r boblogaeth.
- 43.3% o ddisgyblion 15/16 oed a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 y Dangosydd



Pynciau Craidd mewn cyfuniad neu mewn cymwysterau cyfatebol (TGAU C neu uwch).

Ebrill 2011-Mawrth 2012

- 21.31 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg i oedolion fesul 1000 o'r boblogaeth.
- 43.3% o ddisgyblion 15/16 oed a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 y Dangosydd Pynciau Craidd.

Ebrill 2010-Mawrth 2011

- 26.86 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg i oedolion fesul 1000 o'r boblogaeth.
- 42.54 o ddisgyblion 15/16 oed a gyrhaeddodd y Dangosydd Pynciau Craidd (cyfuniad o radd C yn y cymhwyster TGAU Saesneg/Cymraeg ac yn y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth).

O ran cyflawniad TGAU, mae'r dangosydd wedi'i addasu gan nad yw'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 yn y dangosyddion pwnc craidd ar gael mwyach. Felly, bydd eleni'n gweithredu fel gwaelodlin ar gyfer monitro canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 – sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd A * i C (StatsCymru).

4. Iechyd	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> • Gwella hygyrchedd cyfleusterau hamdden a chwaraeon yng nghefn gwlad. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer o ymweliadau i gyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do ac awyr agored fesul 1000 o'r boblogaeth.
Canlyniadau Monitro	
<p>Ebrill 2017-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> • 12,217.6 o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth. <p>Ebrill 2016-Mawrth 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7,581 o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth. <p>Ebrill 2015-Mawrth 2016</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7,425 o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth. <p>Ebrill 2014-Mawrth 2015</p>	



- 8,155 o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Ebrill 2013-Mawrth 2014

- 9,917 o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Ebrill 2012-Mawrth 2013

- 11,628 o ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol fesul 1,000 gan ymwelwyr a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ymarferol.

Ebrill 2011-Mawrth 2012

- 9,876 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth i gyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do ac awyr agored.

Ebrill 2010-Mawrth 2011

- 9,313 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth i gyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do ac awyr agored.

Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr â chanolfannau hamdden yn ystod cyfnod monitro 2017-2018. Dyma'r nifer uchaf o ymwelwyr ers dechrau cyfnod y CDLI ac mae'n gwrthdroi'r duedd o ran gostyngiad yn nifer yr ymweliadau rhwng 2013-2013 a 2015-2016. Mae'r ffigur yn nodi bod lefelau uchel o gyfranogiad mewn ymarfer corff a defnydd uchel o ganolfannau hamdden i'w cael o hyd, sy'n gadarnhaol o ran iechyd. Yn ogystal â hyn, dyw'r AMB ddim yn cofnodi defnydd o gyfleusterau chwaraeon preifat na chyfranogiad mewn carfannau chwaraeon ac felly mae'n aneglur p'un a oes dirywiad cyffredinol yn y cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden.

Yn ystod y cyfnod monitro, mae caniatâd cynllunio wedi'i roi am elfen o D2 hamdden, yn rhan o ddatblygiad hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale. Mae hyn, law yn llaw â'r nifer uchel o gampfeydd preifat, stiwdios dawn, a defnyddiau ffirwydd a hamdden eraill a gafodd eu cofnodi yn ystod yr arolwg cyflogaeth blynyddol, yn dangos bod marchnad am gyfleusterau hamdden preifat yn y Fwrdeistref Sirol. Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod, ag arian cyhoeddus ac arian y sector preifat, mewn caeau chwaraeon pob tywydd ar hyd a lled RhCT yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn hefyd yn nodi bod cyfranogiad yn y gweithgareddau yma yn parhau yn y sector preifat. Ers iddo agor yn 2015, mae Lido Cenedlaethol Cymru wedi denu nifer uchel o ymwelwyr.

5. Economi	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> • Ehangu'r sail economaidd drwy greu busnesau cryfach a mwy amrywiol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgarwch economaidd fesul sector. • Cyfraddau gwacter pob Prif Dref ac Anheddiad



	<p>Allweddol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Busnesau newydd sy'n cael eu dechrau yn Rhondda Cynon Taf yn flynyddol.
Canlyniadau Monitro	

Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth

Galwedigaeth	Y Ganran wedi'i Dangos (NLP, 2008)	Y Ganran wedi'i Dangos (2011)
Gweithgynhyrchu	17.9	17.9
Adeiladu	5.2	5.2
Dosbarthiad o westai a bwytai	21.1	19.1
Trafnidiaeth a chyfathrebu	4.9	4.9
Cyllid, TGCh, gweithgarwch busnes arall	7.9	6.9
Gweinyddu, addysg ac iechyd cyhoeddus	37	35.3
Gwasanaethau eraill	5.1	4.1
Cysylltiedig â thwristiaeth	6.6	6.6

Mae targed y GG yn gofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i weithgarwch economaidd fesul sector. Dyw'r data uchod sy'n dangos cyflogaeth fesul galwedigaeth ddim ar gael bellach yn y fformat uchod. Yn AMB 2013, cafodd gwybodaeth o Gyfrifiad 2011 ei nodi. Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o gyflogaeth fesul galwedigaeth ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod 2017–2018 yn y fformat newydd yma yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru. Mae ffigurau Cyfrifiad 2011 a ffigurau o 2013-2014 wedi'u nodi yn ogystal â hynny er cymhariaeth. Mae'n bosibl y bydd angen ail-werthuso hyn, gan fod data'n cael ei ryddhau mewn modd anghyson.

Galwedigaeth pob person sy'n gweithio ac sydd rhwng 16 a 74 oed	Rhondda Cynon Taf 2017–2018 (%)	Rhondda Cynon Taf 2016–2017 (%)	Rhondda Cynon Taf 2013–2014 (%)	Rhondda Cynon Taf 2010–2011 (%)	Cymru 2017–2018 (%)	Cymru 2016–2017 (%)	Cymru 2013–2014 (%)	Cymru 2010–2011 (%)
1. Rheolwyr, Cyfarwyddwyr a Swyddogion	8.1	8.5	8.9	7.8	9.2	9.6	9.4	9.2



Uwch								
2. Galwedigaethau Proffesiynol	16.9	17.8	14.4	13.9	18.1	18.2	18.2	15.8
3. Galwedigaethau Technegol/sy'n gysylltiedig â Gwaith Proffesiynol	15.2	14.0	12.9	10.3	12.8	12.1	12.4	10.8
4. Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	9.2	9.4	9.8	11.4	10.7	10.2	11.1	11.1
5. Galwedigaethau Crefftiau Medrus	10.2	12.3	13.0	13.0	11.8	12.5	12.5	13.4
6. Galwedigaethau Gwasanaeth Personol	8.6	10.6	10.7	11.8	10.0	10.4	10.2	10.5
7. Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid	11.2	7.8	9.0	9.0	8.0	8.1	8.2	9.0
8. Gweithwyr Prosesau, Ffatrioedd a Pheiriannau	9.7	7.4	10.7	9.8	7.4	7.2	7.1	8.1
9. Galwedigaethau Elfennol	10.6	11.1	10.4	12.9	11.5	11.0	11.1	11.9

Wrth ddadansoddi'r data galwedigaethau uchod, gwelir bod Rhondda Cynon Taf yn debyg i Gymru gyfan. Mae nifer y bobl sy mewn galwedigaethau proffesiynol wedi cynyddu'n fawr ers 2013-2014. Mae nifer cynyddol o bobl yn gweithio mewn Galwedigaethau Technegol/sy'n gysylltiedig â Gwaith Proffesiynol ers 2011. Mae cyfradd 2017-2018 yn dangos bod 2.4% yn fwy o bobl yn gweithio mewn Galwedigaethau Technegol/sy'n gysylltiedig â Gwaith Proffesiynol yn Rhondda Cynon Taf o'i chymharu â Chymru yn gyffredinol.



Yn ôl y data ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae 105,700 o bobl wedi'u cyflogi yn y galwedigaethau yma (dyma oedd y nifer ym mis Rhagfyr 2017). Mae hwn yn uwch na'r niferoedd yn 2016-2017 (104,200), 2014 (97,325) a 2011 (93,600). Rhaid cadw mewn cof nad yw'r data'n cynnwys yr unigolion hynny wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau sy heb eu nodi. O ystyried y lefelau diweithdra uwch yng Nghymru, y gobaith yw bydd rhagor o bobl yn cael eu cyflogi yn y galwedigaethau sy wedi'u nodi, yn ogystal â mewn sectorau eraill.

Rhoddodd y Cyngor sawl caniatâd yn ystod 2017-2018 ar gyfer datblygiad diwydiannol. Mae'r 19,064.9m² o ofod diwydiannol gros a ganiateir yn cynnwys nifer o newidiadau defnydd, ac estyniadau. Yn ogystal, rhoddwyd caniatâd ar gyfer unedau newydd, gan gynnwys canolfan arloesi (gofod swyddfa B1) sy'n cynnwys 359m² ym Mharc Busnes Cwm Elái, Pont-y-clun; 248m² o ofod swyddfa B1 newydd ym Mharc Magden, Llantrisant; 952m² o ofod diwydiannol B1 / B2 / B8 newydd sy'n cynnwys 7 uned ddechreuol yn Ystad Ddiwydiannol Pontcynon; ac adeiladu tair uned ar gyfer B1 / B2 / B8 sy'n cynnwys 1,329m² ar Ystad Ddiwydiannol y Gelli yng Nghwm Rhondda.

Yn ogystal â'r safleoedd wedi'u dynodi, mae'r Cyngor yn monitro 101 o safleoedd cyflogaeth gweithredol yn flynyddol ledled y Fwrdeistref Sirol, ac o fewn y rhain y mae tua 1,719 o unedau. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn unedau dosbarth defnydd B1, B2 a B8 cyflogaeth traddodiadol. Mae'r unedau hefyd yn cynnwys dosbarthiadau defnydd eraill ar gyfer ystadau diwydiannol, gan gynnwys rhai sui generis a rhai Dosbarth D penodol. Yn ogystal â sicrhau bod modd datblygu ar safleoedd newydd, mae'r CDLI yn allweddol o ran diogelu a rheoli'r safleoedd yma. Yn ôl y broses fonitro, 7.95% yw'r gyfradd wacter ledled unedau cyflogaeth y safleoedd gweithredol yma. 9.0% oedd y gyfradd yn 2016-2017 ac 13.8% oedd y gyfradd yn 2015-2016. Mewn rhai o'r safleoedd yma mae ardaloedd sylweddol o dir sydd wedi'i glirio neu sydd heb ei ddatblygu, a gallai'r rhain gael eu datblygu a chael buddsoddiad yn y dyfodol. Mae cyfraddau cyflogaeth Rhondda Cynon Taf yn eithaf da ac yn unol â thueddiadau cyffredinol Cymru gyfan.

Cyfraddau Gwacter Canolfannau Manwerthu.

Isod y mae cyfraddau gwacter blynyddol safleoedd manwerthu'r 3 Prif Dref a'r 8 Anheddiad Allweddol o 2010–2011 hyd at 2017–2018:

Prif Dref / Anheddiad Allweddol	Cyfradd Wacter 2017-2018	Cyfradd Wacter 2016-2017	Cyfradd Wacter 2015-2016	Cyfradd Wacter 2014-2015	Cyfradd Wacter 2013-2014	Cyfradd Wacter 2012-2013	Cyfradd Wacter 2011-2012	Cyfradd Wacter 2010-2011
Aberdâr	14.09%	10.4%	9%	9.0%	12.7%	8.18%	6.0%	12.9%
Pontypridd	7.31%	8.7%	8.7%	8.7%	9.2%	9.22%	7.28%	6.63%
Llantrisant/Tonysguboriau	5.3%	4.3%	2.6%	1.7%	2.7%	2.68%	3.57%	0.9%
Glynrhedynog	13.04%	17.4%	13%	10.9%	8.7%	6.52%	8.7%	13.0%
Hirwaun	21.73%	22.7%	22%	9.5%	0%	0%	4.76%	4.76%
Llanharan	0%	5.0%	0%	0%	10%	0%	0%	5.0%
Aberpennar	11.7%	11.7%	12.7%	18.3%	20.4%	23.66%	18.28%	19.35%



Y Porth	11.57%	14.0%	10.8%	14.2%	15.8%	11.48%	10.92%	15.13%
Tonypanyd	16.44%	16.4%	20.53%	19.7%	18.4%	23.33%	18.24%	18.24%
Tonyrefail	18.51%	20.4%	12.9%	13.5%	9.6%	11.53%	7.55%	9.26%
Treorci	7.37%	5.8%	9%	6.8%	4.2%	6.83%	5.93%	4.2%
Cyfraddau Gwacter Cyffredinol	11.5%	12.4%	10.6%	10.8%	11.4%	10.8%	9.1%	10.7%

11.5% oedd cyfradd wacter canol tref gyffredinol y Prif Drefi ac Aneddiadau Allweddol. Mae'r ffigurau yn dod o arolwg manwerthu blynyddol y Cyngor ym mis Hydref 2017. Mae hon bron 2.2% yn uwch na chyfradd wacter canol trefi'r DU ar gyfartaledd, sef 9.3% ym mis Hydref 2017 (Springboard). Roedd cyfradd wacter Rhondda Cynon Taf yn debyg i gyfradd Cymru ar gyfartaledd. 11.5% oedd cyfradd Rhondda Cynon Taf tra 11.7% oedd cyfradd Cymru (Hydref 2017, Springboard).

Yn gyffredinol, mae gan Brif Drefi unigol Pontypridd a Llantrisant / Tonysguboriau gyfraddau swyddi gwag isel, yn enwedig Llantrisant / Tonysguboriau sydd â chyfradd swyddi gwag o 5.3%, sydd yn sylweddol is na chyfartaledd y DU a Chymru. Mae Pontypridd hefyd yn is na chyfartaledd Cymru gyda chyfradd swyddi gwag o 7.31% yn unig. Fodd bynnag, mae Aberdâr wedi gweld cynnydd yn ei gyfradd swyddi gwag dros y ddwy flynedd ddiwethaf, i 14.09%. Yn ôl hynny, mae Aberdâr yn dal i fod yn dyst i fuddsoddiad sylweddol. Cafodd hen westy'r Black Lion a Boot Hotel yn Sgwâr Victoria ganiatâd ar gyfer datblygiad manwerthu llawr gwaelod gyda datblygiad preswyllo uchod yn 2017-2018 a 2016-2017 yn y drefn honno. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y Boot a gobeithio y bydd gwaith ar westy'r Black Lion yn cychwyn yn fuan. Yn ogystal, mae'r ffaith bod banciau HSBC a Natwest wedi gadael y dref hefyd yn cyfrannu 1% at gyfradd swyddi gwag y dref.

Mae cyfraddau gwacter yr Aneddiadau Allweddol yn weddol amrywiol. Er enghraifft, 0% yw'r gyfradd wacter yn Llanharan o'i chymharu â bron 21.73% yn Hirwaun. O'r 11 Prif Dref Trefi ac Anheddiad Allweddol; mae pump yn is na chyfartaledd Cymru tra bod Aberpennar yn cyfateb i gyfartaledd Cymru o 11.7%. Mae Glynrhedynog (13.04%), Hirwaun (21.73%), Tonypanyd (16.44%), Tonyrefail (18.51%) ac Aberdâr (14.09%) yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd swyddi gwag cyffredinol wedi gostwng 0.9% o 2016-2017, gan adlewyrchu tueddiadau cyffredinol y DU a Chymru.

Er bod y gyfradd wacter wedi cynyddu eleni, mae'n parhau i fynd law yn llaw â thueddiadau cyffredinol y DU. Serch hynny, mae Rhondda Cynon Taf ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sy'n dangos bod canol trefi yn parhau i gyflawni'n gyson. Mae'r byd manwerthu yn gadarnhaol, yn fwy na dim. Mae llond llaw o ganiatadau llai eu maint wedi'u cymeradwyo, a fydd yn cyfrannu at fywiogrwydd ac ymarferoldeb canol ein trefi. Mae modd dweud bod elfen o hyn o ganlyniad i'r buddsoddiad helaeth parhaus yn adfywiad canol ein trefi.

Cyfradd busnesau newydd Rhondda Cynon Taf.

Dyw'r adeg y mae cyfradd busnesau newydd yn cael ei rhyddhau ddim yn cyfateb i'r flwyddyn ariannol/cyfnod monitro'r AMB. Caiff data ei ryddhau tua 11 o fisoedd ar ôl y cyfnod y mae'n cyfeirio ato. Yn sgil hyn, mae'r data diweddaraf yn disgrifio blwyddyn calendr 2016, ac yn y cyfnod hwnnw 1,240 oedd y gyfradd busnesau newydd sy'n fwy na chyfraddau'r blynyddoedd blaenorol, sef 925 (2015), 790 (2014), 785 (2013) a 505 (2012).



6. Cyflogaeth	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyfleoedd i weithio o fewn y Fwrdeistref Sirol. 	<ul style="list-style-type: none"> Y ganran y cynyddodd swyddi fesul sector/y gostyngodd y nifer o bobl sy'n economaidd anweithgar. Y ganran o bobl oedran gweithio sy'n gweithio.
Canlyniadau Monitro	
<p>2017-2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd 22.1% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr); 70.5% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru). <p>2016-2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd 23.0% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr); 69.4% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru). <p>2015-2016</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd 21.4% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr); 69.7% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru). <p>2014-2015:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd 23.5% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar; 67.4% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru). <p>2013-2014:</p>	



- Roedd 19.7% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar;
- 68.20% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru).

2012–2013:

- Roedd 21.4% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar;
- 62.5% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf. (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru).

2011–2012:

- Roedd 25.3% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar;
- 63.5% oedd gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf (o bobl 16-64 oed) (Stats Cymru).

2010-2011:

- Roedd 25.6% o'r holl bobl oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn economaidd anweithgar;

Mae 'Stats Cymru' yn dangos y bu gostyngiad o 0.9% yn y nifer o bobl oedran gweithio (16-64 oed) sy'n economaidd anweithgar yn Rhondda Cynon Taf ers y llynedd. Dyw'r ffigur ddim yn cynnwys myfyrwyr. Mae'r gyfradd ddiweithdra wedi lleihau 1.1% o'i chymharu â'r gyfradd o'r un cyfnod y llynedd, ond hon yw un o'r cyfraddau uchaf yn ystod cyfnod y cynllun. Ar y cyfan, ers dechrau cyfnod y cynllun, mae'r ddwy gyfradd wedi gwella'n fawr, yn arbennig y gyfradd ddiweithdra. Ers 2010-2011, mae'r gyfradd wedi cynyddu 0.7%.

7. Cludiant	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> • Lleoli datblygiadau newydd mewn modd sy'n hwyluso ac yn hybu dewisiadau teithio cynaliadwy. 	<ul style="list-style-type: none"> • y ganran [neu nifer absoliwt o] ddatblygiadau trafnidiaeth gynaliadwy. • Data Teithio i'r Gwaith o Gyfrifiad 2011. Mesur o'r cynnydd mewn gwasanaethau a defnyddwyr o



	wasanaethau bws lleol.
Canlyniadau Monitro	
<p>Atebion Teithio Cynaliadwy</p> <p>Yn ystod cyfnod monitro 2017-2018, cafwyd 4 datblygiad arall at ddibenion cynnig atebion teithio cynaliadwy. Roedd pob un o'r 4 yn Gynllun Teithio.</p> <p>Mae'r canlyniadau canlynol yn dod o Ddangosydd Lleol 10 (uchod) sy'n trafod pellter datblygiadau newydd o drafnidiaeth a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus presennol;</p> <p>Ebrill 2017-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2016–2017 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 100% (12 o 12) o'r holl leoliadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae pob un o'r 23 o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. <p>Ebrill 2016-Mawrth 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 99.82% o'r holl dai newydd a gafodd ganiatâd yn ystod 2016–2017 yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae 100% (12 o 12) o'r holl leoliadau cyflogaeth newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. • Mae pob un o'r 18 o ddatblygiadau manwerthu newydd a gafodd ganiatâd yn hygyrch ac o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. <p>Mae modd dadlau bod y rhain yn ganlyniad i weithredu safleoedd wedi'u dynodi yn y CDLI yn llwyddiannus ac i reoli datblygiadau yn llwyddiannus yn y Fwrdeistref Sirol.</p> <p>Teithio i'r Gwaith.</p> <p>Mae'r data Teithio i'r Gwaith yn dod o Gyfrifiad 2011. Does dim gwybodaeth fwy diweddar ar gyfer 2017-2018 oherwydd hynny. Er gwybodaeth, dyma'r data a gafwyd gan gyfanswm o 172,047 o breswylwyr rhwng 16 a 74 oed;</p> <p>Car Preifat, Beic Modur/Tacsi/Fan – 46.0%</p> <p>Trafnidiaeth Gyhoeddus – 4.8%</p> <p>Cerdded – 5.0%</p> <p>Seiclo/Arall – 0.5%</p> <p>Gweithio gartref – 1.6%</p>	



Dangosodd y data nad oedd 42.3% o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn gweithio am resymau amrywiol.

Car Preifat/Beic Modur/Tacsi/Fan oedd y modd mwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith. Bydd y CDLI yn parhau i ymdrechu i gymeradwyo datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy, ac i ddarparu amrywiaeth o foddau o deithio ar gyfer pobl.

Gwasanaethau Bysiau Lleol a'u defnyddwyr.

Mae'r nifer o wasanaethau bus lleol wedi gostwng o 67 i 66 ers y llynedd. Nid oedd colli un o'r gwasanaethau rhwng Pontypridd a Rhydfelen yn gadael unrhyw ardaloedd heb wasanaeth ond, arweiniodd at wasanaeth llai aml. Roedd y gwasanaeth o'r Maerdy i Ganol Dinas Caerdydd hefyd yn rhedeg yn llai aml, (yn flaenorol parhaodd y gwasanaeth i Fae Caerdydd). Erbyn hyn, mae angen i deithwyr newid bysiau i barhau â'u taith i Fae Caerdydd. Gwnaed gwelliannau i'r gwasanaeth o Donypanyd i Ganol Dinas Caerdydd lle cynyddodd yr amllder o 3 i 4 taith yr awr a newidiwyd y llwybr i wasanaethu Ystad Cefn-yr-hendy ym Meisgyn. Cyflwynwyd gwasanaeth bob awr ar ddydd Sul rhwng Cwm-bach, Aberdâr a Chwmdâr a chafodd y llwybr ar y gwasanaeth dydd Sul o Glynhafod i Hirwaun ei ymestyn i wasanaethu Merthyr Tudful.

Mae preswylwyr lleol wedi gofyn sawl gwaith ynghylch cynnal gwasanaethau newydd mewn ystadau tai newydd. Yn anffodus, mae darparwyr gwasanaethau bysiau yn aml yn anfodlon cynnig gwasanaeth mewn ystadau newydd, yn enwedig pan nad oes ond un ffordd i mewn/allan. Yr effaith bosibl ar amserlenni yw'r rheswm sydd wedi cael ei awgrymu dros hyn.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yn wasanaethau masnachol. Oherwydd bod yr wybodaeth yn sensitif yn fasnachol, dyw darparwyr y gwasanaethau ddim yn rhoi data defnydd i ni.

8. Amgylchedd Adeiledig	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo safonau dylunio uwch ac annog y gymuned i gymryd rhan yn y broses cynllunio. 	Y ganran (neu'r nifer o) ddatblygiadau ac adeiladau newydd sy'n bodloni gofynion BREEAM a/neu'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy.
Canlyniadau Monitro	
Cafodd proses statudol Codau ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ei ddileu yn ystod y flwyddyn monitro flaenorol, ac felly dyw hi ddim yn cael ei monitro bellach.	



9. Tirwedd	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Diogelu gwerth y dirwedd yn Rhondda Cynon Taf. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig y mae gwaith datblygu yn effeithio arnyn nhw.
Canlyniadau Monitro	
<p>Roedd 4 datblygiad adeilad newydd a gafodd ganiatâd o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) wedi'u dynodi yn ystod 2017-2018. Y mwyaf o'r ceisiadau hyn oedd 33 o anheddau y tu ôl Teras Delwen yn Nhreorci, Cwm Rhondda. Dynodwyd yr ATA a effeithiwyd yn yr achos yma ar gyfer y mynydd o amgylch ac o ystyried lleoliad y datblygiad, credir na fyddai'n niweidio'r ATA yn ormodol. Roedd y tri arall yn cynnwys annedd gweithiwr amaethyddol dros dro yn Nhonyrefail; annedd ar wahân o fewn cilfach bresennol ym Mhenycoedcae, Pontypridd; a thrac beicio o fewn safle presennol ar gyfer hamdden ar ffin RhCT ger Caerffili. Aseswyd yr holl geisiadau o ran dyluniad ac effaith weledol ac ystyriwyd eu bod yn dderbyniol o fewn yr ATA.</p>	

10. Bioamrywiaeth	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Diogelu bioamrywiaeth a gioamrywiaeth yr ardal. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) ac o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn y Fwrdeistref Sirol sydd ag 1 nodwedd cymhwysu neu fwy sydd mewn cyflwr annymunol. Yn ogystal â hyn, y nifer o safleoedd SINC sy'n cael eu colli oherwydd datblygiad a'r nifer o gynlluniau lliniaru sy'n cael eu cadarnhau yn flynyddol.
Canlyniadau Monitro	
<p>Yn ystod 2017-2018, chafodd dim un safle SINC ei effeithio gan ddatblygiadau. Sicrhaodd cais am lwybr beicio gynllun lliniaru trwy gynllun lliniaru a chafodd cynllun rheoli coetiroedd hirdymor eu sicrhau trwy gytundeb S.106 ar gyfer cynnig archfarchnad fach.</p>	



Cynghorodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y canlyniadau monitro diweddaraf fod 15 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig biolegol (neu gymysg o elfennau biolegol a daearegol) a 3 Ardal Gadwraeth Arbennig yn Rhondda Cynon Taf (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn fonitro 2017-2018 yn nodi bod gan 7 o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 2 Ardal Gadwraeth Arbennig un neu fwy o'u nodweddion cymwys mewn cyflwr anffafriol. Ar y llaw arall, mae gan 7 o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac 1 Ardal Gadwraeth Arbenigo leiaf 1 nodwedd mewn cyflwr dymunol neu niwtral, ac mae 1 mewn cyflwr amhenodol. Serch hynny, mae CNC yn nodi bod cyfnodau monitro yn amrywio rhwng 3 a 6 mlynedd yn ddibynnol ar y cynefin, felly mae'n bosibl bod statws rhai Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi newid.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r targed ar sail yr wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r SINC. Bydd yn manteisio ar y cyfle i drafod ffyrdd o gael data gwell am safleoedd SDdGA ac ACA â CNC.

11. Dŵr	
Targed y GG	Dangosydd y GG
<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo rheolaeth adnoddau dŵr gynaliadwy. Lleihau risg pobl ac eiddo o lifogydd, cynnal y gorlifdir ac osgoi caniatáu datblygiadau mewn ardaloedd risg llifogydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Y ganran [neu'r rhif yn gyfran o'r cyfanswm] o ddatblygiadau newydd o 5 annedd neu fwy sydd â systemau draenio cynaliadwy integredig. Cyfran y datblygiadau newydd ar orlifdir Dosbarth C1 ac C2 o'r holl ddatblygiadau sydd wedi cael caniatâd yn groes i NCT 15.
Canlyniadau Monitro	
<p>Yn ystod 2017–2018, cafodd 525 o anheddau ganiatâd a oedd yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy yn rhan o'r cynlluniau arfaethedig. 936 oedd y cyfanswm o geisiadau i adeiladu 5 annedd neu fwy a gafodd ganiatâd.</p> <p>Yn ystod 2017-2018, cafodd caniatâd ei roi ar gyfer 54 o anheddau o fewn parth perygl llifogydd C1 neu C2. Fodd bynnag, ym mhob achos, Cyfoeth Naturiol Cymru a gytunodd ar yr asesiadau canlyniadau llifogydd.</p>	



12. Newid Hinsawdd				
<i>Targed y GG</i>		<i>Dangosydd y GG</i>		
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. 		<ul style="list-style-type: none"> Y ganran o newid o allyriadau carbon deuocsid gan ddiwydiant/masnach, cartrefi, trafniadaeth ffordd ac at ei gilydd fesul person. 		
Canlyniadau Monitro				
<p>Mae'r tabl isod yn dangos Ffigurau Carbon Deuocsid yr Awdurdod Lleol (Medi 2015). Dyma'r data diweddaraf; cafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2017.</p>				
<i>Rhondda Cynon Taf</i>	<i>Diwydiant/Masnach</i>	<i>Domestig</i>	<i>Cludiant</i>	<i>Cyfanswm</i>
2005	2.3	2.5	2.1	6.8
2006	2.3	2.5	2.1	6.8
2007	2.2	2.4	2.1	6.6
2008	2.0	2.4	2.0	6.4
2009	1.8	2.2	1.9	5.8
2010	1.9	2.3	1.9	6.1
2011	1.7	2.2	1.9	5.6
2012	1.7	2.1	1.9	5.7
2013	1.7	2.1	1.8	5.5
2014	1.6	1.7	1.9	5.3
2015	1.4	1.6	1.8	4.9
<p>Yn ôl data DECC, mae allyriadau Co2 ym Mwrdeistref RhCT fesul person wedi lleihau'n raddol ers 2005. Yn gyffredinol, mae hyn wedi arwain at leihad cyson mewn allyriadau cyffredinol o 5.3 (2014) i 4.9 (2015). Mae'r data diweddaraf o 2015 yn dangos y bu gostyngiad mewn cyfanswm allyriadau ym mhob sector; diwydiant/masnachol, domestig a thrafnidiaeth. Mae'r data uchod wedi newid ychydig ers 2013 gan ei fod yn cyfeirio at yr holl drafniadaeth yn hytrach na thrafnidiaeth ffordd yn unig.</p>				



13. Ynni	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> Gwella effeithlonrwydd ynni a defnyddio cymaint o ynni adnewyddadwy â phosibl. Hybu gwaith dylunio ynni effeithlon ar gyfer datblygiadau. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfanswm yr ynni y mae modd ei gynhyrchu yn sgil datblygiadau Ynni Adnewyddadwy (MW) yn Ardaloedd Chwilio Strategol yn flynyddol. Y ganran [neu'r gyfran] o ddatblygiadau ac adeiladau newydd sy'n bodloni gofynion BREEAM a/neu Safonau'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy.
Canlyniadau Monitro	
<p>Dyluniad Ynni Effeithlon</p> <p>Mae dadansoddiad o'r canlyniadau mewn perthynas â datblygiadau ac adeiladau sy'n bodloni gofynion BREEAM a/neu Safonau'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy uchod o dan Ddangosydd 8 y GG.</p> <p>Ebrill 2017-Mawrth 2018</p> <p>Cafodd proses statudol Codau ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ei ddileu yn ystod blwyddyn fonitro 2015-2016, ac felly dyw hi ddim yn cael ei monitro bellach.</p> <p>Ynni Adnewyddadwy.</p> <p>Chafodd dim byd ei osod o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol F yn ystod 2017-2018. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Cyngor dri chais ar gyfer tyrbinau gwynt y tu allan i Ardal Chwilio Strategol F gyda chyfanswm cynhyrchu o 9MW.</p>	

14. Tir a Phridd	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu'r gyfran o ddatblygiadau sydd ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> Y ganran o dai fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn o'r holl dai sy'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn.
Canlyniadau Monitro	



2017-2018

- Cafodd 552 o anheddau eu cwblhau ac roedd 400 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 72.46%.

2016-2017

- Cafodd 716 o anheddau eu cwblhau ac roedd 429 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 59.9%.

2015-2016

- Cafodd 569 o anheddau eu cwblhau ac roedd 213 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 37%.

2014-2015

- Cafodd 553 o anheddau eu cwblhau ac roedd 350 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 63.3%.

2013-2014

- Cafodd 534 o anheddau eu cwblhau ac roedd 287 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 53.7%.

2012-2013

- Cafodd 414 o anheddau eu cwblhau ac roedd 195 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 47.1%.

2011-2012

- Cafodd 357 o anheddau eu cwblhau ac roedd 203 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 56.8%.

2010-2011

- Cafodd 462 o anheddau eu cwblhau ac roedd 289 ohonyn nhw ar dir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen, neu 62.5%.

Mae'r dangosydd yn awgrymu y bu cynnydd yn y datblygiadau a gafodd eu cwblhau ar dir llwyd, neu dir a oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen, dros y blynyddoedd diwethaf – o 37% yn 2015-2016 i 59.9% yn 2016-2017, ac i 72.26% yn y cyfnod monitro yma. Mae hyn yn welliant amlwg ar gyflawniadau blynyddoedd blaenorol. Bydd y CDLI yn parhau i gefnogi aildddefnyddio tir i'w ddatblygu yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.



15. Gwastraff	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau'r tunelli o wastraff sy'n cael ei dirlenwi. Symud gwastraff i fyny'r Hierarchaeth Wastraff. 	<ul style="list-style-type: none"> Y ganran o wastraff trefol sy'n cael ei dirlenwi. Y ganran o wastraff trefol sy'n cael ei aildddefnyddio/ei ailgylchu.
Canlyniadau Monitro	
<p>Ebrill 2017-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> 1.76% o wastraff wedi'i dirlenwi; 0.79% wedi'i aildddefnyddio; 45.99% wedi'i ailgylchu; 45.98% wedi'i ddefnyddio yn y broses o adfer ynni; 14.53% wedi'i gompostio. <p>Ebrill 2016-Mawrth 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> 2.12% wedi'i dirlenwi; 0.71% wedi'i aildddefnyddio; 49.72% wedi'i ailgylchu; 41.92% wedi'i ddefnyddio yn y broses o adfer ynni; 14.25% wedi'i gompostio. <p>Ebrill 2015-Mawrth 2016</p> <ul style="list-style-type: none"> 22.59% wedi'i dirlenwi; 0.56% wedi'i aildddefnyddio; 46.29% wedi'i ailgylchu; 25.95% wedi'i defnyddio yn y broses o adfer ynni; 13.64% wedi'i gompostio. <p>Ebrill 2014-Mawrth 2015</p> <ul style="list-style-type: none"> 35.01% wedi'i dirlenwi; 0.56% wedi'i aildddefnyddio; 42.23% wedi'i ailgylchu; 	



- 15.00% wedi'i ddefnyddio yn y broses o adfer ynni;
- 11.28% wedi'i gompostio.

Ebrill 2013-Mawrth 2014

- 41.56% wedi'i dirlenwi;
- 0.49% wedi'i aildefnyddio;
- 38.20% wedi'i ailgylchu;
- 9.14% wedi'i ddefnyddio yn y broses o adfer ynni;
- 10.61% wedi'i gompostio.

Ebrill 2012-Mawrth 2013

- 38.4% wedi'i dirlenwi;
- 0.39% wedi'i aildefnyddio;
- 35.18% wedi'i ailgylchu;
- 17.42% wedi'i ddefnyddio yn y broses o adfer ynni;
- 8.6% wedi'i gompostio.

Mae canlyniadau'r dangosydd hwn yn dangos gostyngiad clir a chadarnhaol yng nghanran y gwastraff a gafodd ei anfon i safleoedd tirlenwi rhwng 2015-2016 a 2017-2018. Roedd gostyngiad o 20.83% yn y ffigur. Mae ailgylchu wedi gostwng ychydig, ond mae'r effaith yn lleihau wrth ystyried swm y gwastraff sydd wedi bod yn destun adennill ynni a chompostio. Yn gyffredinol, mae RhCT yn cyflawni'n dda iawn o ran rheoli gwastraff gyda dim ond 1.76% yn mynd i safleoedd tirlenwi. Ystyrir, felly, bod y Cyngor yn parhau i fodloni'r dangosydd hwn.

16. Mwynau	
<i>Targed y GG</i>	<i>Dangosydd y GG</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn y ganran o ffynonellau agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu ar gyfer yr holl ddatblygiadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer o achosion o waith sy'n cael caniatâd i gloddio am agregau crai yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau.
Canlyniadau Monitro	
Chafodd dim gwaith caniatâd i gloddio am agregau crai yn ystod 2017–2018. Parhaodd gwaith cynhyrchu agregau yn Rhondda Cynon Taf yng Nghwarel	



Craig yr Hesg ym Mhontypridd ac yng nghwareli Forest Wood ger Pont-y-clun. Mae'r Cyngor yn ystyried cais i ymestyn Cwarel Craig yr Hesg, Pontypridd i'r gorllewin ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galluogi gwaith cloddio graddol am 10 miliwn o dunelli o dywodfaen pennant ac mae'r cais hefyd yn cynnwys cynllun i adfer y cwarel yn gyffredinol.

17. Ansawdd Aer						
Targed y GG			Dangosydd y GG			
<ul style="list-style-type: none"> Cynnal a gwella ansawdd aer. 			<ul style="list-style-type: none"> Y ganran o ostyngiad yn y llygryddion sy'n cael eu monitro drwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) (NO_x, NO₂, PM₁₀). 			
Canlyniadau Monitro						
2017–2018	Nifer o ardaloedd (AQMA)	Nifer o safleoedd yn yr Ardaloedd	NO ₂ ar gyfartaledd yn yr Ardaloedd	Newid (%)	Cyfran NO ₂ gwaethaf yn yr Ardaloedd	Newid (%)
Cwm Rhondda	5	361	54.27	8.9%	52.41	7.1%
Cwm Cynon	3	500	48.41	10.3%	52.74	10.7%
Taf-elái	8	399	41.76	10.1%	40.84	10.2%
Cyfanswm	16	1260	48.15	9.7%	48.66	9.3%
2016-2017	Nifer o ardaloedd (AQMA)	Nifer o safleoedd yn yr Ardaloedd	NO ₂ ar gyfartaledd yn yr Ardaloedd	Newid (%)	Cyfran NO ₂ gwaethaf yn yr Ardaloedd	Newid (%)
Cwm Rhondda	4	341	54.27	5.9%	56.40	7.9%
Cwm Cynon	3	500	48.41	11.6%	59.07	12.1%
Taf-elái	8	403	41.76	5.2%	45.46	1.2%



Cyfanswm	15	1244	48.15	7.5%	53.64	7.4%
2015-2016	<i>Nifer o ardaloeedd (AQMAS)</i>	<i>Nifer o safleoedd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>NO2 ar gyfartaledd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>	<i>Cyfran NO2 gwaethaf yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>
Cwm Rhondda	4	341	51.23	-0.9%	52.29	8.3%
Cwm Cynon	3	500	43.39	-5.3%	52.69	0.4%
Taf-elái	8	403	39.68	-2.75%	44.91	-4.3%
Cyfanswm	15	1244	44.76	0.9%	49.96	-4.2%
2014-2015	<i>Nifer o ardaloeedd (AQMAS)</i>	<i>Nifer o safleoedd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>NO2 ar gyfartaledd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>	<i>Cyfran NO2 gwaethaf yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>
Cwm Rhondda	4	341	52.14	-12.5%	57.05	-8.5%
Cwm Cynon	3	500	41.21	-13.38%	52.47	-11.7%
Taf-elái	7	396	40.80	-4.8%	46.94	-17.5%
Cyfanswm	14	1237	44.72	-10.7%	52.15	-12.4%
2013-2014	<i>Nifer o ardaloeedd (AQMAS)</i>	<i>Nifer o safleoedd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>NO2 ar gyfartaledd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>	<i>Cyfran NO2 gwaethaf yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>
Cwm RHONDDA	4	453	59.61	26.9%	62.38	27.3%
Cwm Cynon	3	381	47.79	27.9%	59.40	31.2%
Taf-elái	6	825	42.85	17.9%	56.88	23.4%
Cyfanswm	13	1659	50.09	24.5%	59.55	27.3%
2012-2013	<i>Nifer o ardaloeedd (AQMAS)</i>	<i>Nifer o safleoedd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>NO2 ar gyfartaledd yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>	<i>Cyfran NO2 gwaethaf yn yr Ardaloeedd</i>	<i>Newid (%)</i>



Cwm Rhondda	4	453	46.98	3.8%	49.00	-3.4%
Cwm Cynon	3	381	37.36	-9.0%	45.27	-5.0%
Taf-elái	6	825	36.34	-10.0%	46.08	-17.6%
Cyfanswm	13	1659	40.23	-3.8%	46.78	-9.0%

2011–2012	<i>Nifer o ardaloedd (AQMA's)</i>	<i>Nifer o safleoedd yn yr Ardaloedd</i>	<i>NO2 ar gyfartaledd yn yr Ardaloedd</i>	<i>Newid (%)</i>	<i>Cyfran NO2 gwaethaf yn yr Ardaloedd</i>	<i>Newid (%)</i>
Cwm Rhondda	4	467	45.28	-10.43%	50.72	-4.12%
Cwm Cynon	3	313	41.05	-6.06%	47.64	0.72%
Taf-elái	6	808	40.36	-14.49%	55.94	7.99%
Cyfanswm	13	588	41.8	-11.81%	55.94	9.47%

Yn ystod 2017-2018, mae swm NO2 yn y Fwrdeistref wedi cynyddu'n gyffredinol i 9.3%. 7.4% oedd y gyfradd yn 2016-2017. Er gwaethaf hyn, mae'r ffigurau uchod yn taflu goleuni ar fuddion yr AQMA's a monitro'u heffeithiolrwydd o hyd.

Adolygiad Cydymffurfiaeth Manwl o Gynigion Monitro yng Nghyfarwyddeb yr AAS

		Gofynion Cyfarwyddeb yr AAS	Cydymffurfio	Cyfeirio at fesurau monitro arfaethedig
	Mesurau monitro			
1	Mae mesurau arfaethedig ar gyfer monitro yn glir, ymarferol ac yn gysylltiedig â'r dangosyddion a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn yr AAS.	Cyfarwyddeb 2001/42/EC Erthygl 5 (1) i.	✓	✓



2	Caiff monitro ei ddefnyddio, pan fo'n briodol, yn ystod cyfnod gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen i gyweirio diffygion yng ngwybodaeth sylfaenol yr AAS.	Cyfarwyddeb 2001/42/EC Erthygl 10.	✓	✓
3	Mae monitro yn ei gwneud yn bosibl nodi effeithiau negyddol yn gynnar. (Gallai hyn gynnwys amcangyfrifon sy'n cael eu profi'n anghywir).		✓	✓
4	Caiff camau eu gweithredu mewn ymateb i effeithiau negyddol sylweddol.		✓	✓



6 CASGLIAD AC ARGYMHELLION

- 6.1 AMB 2018 yw'r seithfed adroddiad monitro i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Rhondda Cynon Taf ym mis Mawrth 2011. Mae canfyddiadau'r AMB yn gyfle pwysig i'r Cyngor asesu effeithiolrwydd y Cynllun.
- 6.2 Yn rhan o fframwaith monitro CDLI Rhondda Cynon Taf y mae ystyried 5 ffactor allweddol yn fanwl. Yn ogystal â hyn, mae CDLI Cymru 2005 yn ei gwneud yn ofynnol ystyried 7 ffactor ychwanegol wrth fonitro Cynlluniau Datblygu Lleol. Er y drafodaeth fras ynghylch y broses monitro uchod, mae'r adran ganlynol yn cynnwys casgliadau ohoni, gan fynd i'r afael â gofynion y fframweithiau monitro yma.

Fframwaith Monitro CDLI Rhondda Cynon Taf

- 6.3 Mae ymatebion i'r holl ffactorau asesu sydd wedi'u nodi yn y CDLI wedi'u hamlinellu isod:
- 1) A fu newidiadau sylweddol mewn polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol?**
- 6.4 Bu nifer o newidiadau a newidiadau arfaethedig gweddol fawr i bolisi, canllawiau a deddfwriaeth genedlaethol, ac mae trafodaeth yn eu cylch yn adran 3 o'r adroddiad yma. Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru (Drafft PPW 10). Er bod hyn yn arwyddocaol, dyw'r diwygiadau i bolisiâu, canllawiau na deddfwriaeth ddim yn ddigon i gyfiawnhau adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cyngor yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd y canllawiau yma yn newid y fframwaith cynllunio lleol yn sylweddol yn y dyfodol. Dyw'r Cyngor ddim o'r farn y bydd y newidiadau yma yn effeithio yn uniongyrchol ar y broses o weithredu'r cynllun; serch hynny, maen nhw'n cael eu hystyried yn rhan o'r weithdrefn adolygu statudol.
- 2) A fu newidiadau allanol sylweddol?**
- 6.5 Na fu. Ym marn y Cyngor, fu dim newidiadau sylweddol yn y cyd-destun sosio-economaidd allanol sydd wedi effeithio ar y broses o weithredu'r CDLI. Mae'n cydnabod bod gwelliannau calonogol yn yr economi ac yn y diwydiant adeiladu tai ar y llaw arall. Mae'n bosibl bydd hyn yn newid pan fydd y DU yn gadael yr UE.
- 6.6 Mae Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2014 yn dangos na fu ond ychydig o newid yn rhanbarth de ddwyrain Cymru, ac mai ef yw'r rhanbarth mwyaf tlawd yng Nghymru o hyd. Mae hyn yn amlwg yn dueddiad y bydd raid i'r CDLI barhau i ymateb iddo mewn cynlluniau arfaethedig a pholisïau.



- 6.7 Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 3 am amgylchiadau economaidd y CDLI. Mae'n ymddangos bod yr economi yn gwella, fel y mae modd ei weld ym mhrisiau tŷ; y nifer o fusnesau newydd ar gyfartaledd a'r nifer uwch o dai a gafodd ganiatâd/eu cwblhau. Serch hynny, dim ond 0.1% y cynyddodd y GDP hyd at fis Mawrth 2018, sef y gyfradd dwf arafaf ers Chwarter 4 yn 2012. Mae'r gyfradd gyflogaeth hefyd wedi cynyddu eto eleni; yn dilyn tuedd 2016-2017, ac mae wedi cynyddu'n sylweddol o'i chymharu â blwyddyn fonitro 2015-2016. Mae'r gyfradd ddiweithdra dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch nag unrhyw adeg arall ers cyflwyno'r cynllun yma. Mae'r Cyngor yn credu y bydd y CDLI yn cynnig plattform cadarn i gwblhau tai a datblygiadau masnachol newydd wrth i'r economi barhau i wella.
- 3) ***Newidiadau sylweddol yn y cyd-destun lleol e.e. safle cyflogaeth pwysig yn cau gan danseilio'r economi leol, neu effaith gyfun nifer o safleoedd cyflogaeth yn cau;***
- 6.8 Mae effaith y dirwasgiad economaidd byd-eang ar yr economi wedi bod yn destun pryder sylweddol ers sawl blwyddyn. Fel y mae tystiolaeth yn Adran 3 yn dangos, bu gostyngiad mewn datblygiadau ac yn sectorau tai a masnach ar ôl 2008. Yn galonogol, mae canlyniadau cyfnod monitro 2016–2017 yn dangos tyfiant cymedrol yn y ddau sector yma. Mae caniatadau mewn perthynas â chyflogaeth hefyd wedi cynyddu yn 2017-2018 gyda'r Cyngor yn rhoi caniatâd ar gyfer 19,064.9m² o ofod diwydiannol gros. Mae hyn yn cynnwys nifer o newidiadau mewn defnydd, estyniadau a datblygiadau newydd. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer unedau newydd, gan gynnwys canolfan arloesi (gofod swyddfa B1) sy'n cynnwys 359m² ym Mharc Busnes Cwm Elái, Pont-y-clun; 248m² o ofod swyddfa B1 newydd ym Mharc Magden, Llantrisant; 952m² o ofod diwydiannol B1 / B2 / B8 newydd sy'n cynnwys 7 uned yn Ystad Ddiwydiannol Pontcynon; ac adeiladu tair uned ar gyfer B1 / B2 / B8 sy'n cynnwys 1,329m² ar Ystad Ddiwydiannol y Gelli yng Nghwm Rhondda. Yn dilyn ymlaen o'r caniatâd amlinellol a gafodd ei roi ar gyfer safle hen ganolfan siopa Dyffryn Taf, Pontypridd yn 2016-2017, cyflwynodd y Cyngor gais cynllunio llawn (nid materion wedi'u cadw'n ôl) yn 2017-2018 oherwydd cynnydd yn yr arwynebedd llawr o'r 12,678m gwreiddiol². O ganlyniad i hyn, mae'r elfen o ofod swyddfa B1 wedi'i gymeradwyo gan y cais llawn bellach yn 8,488m². Mae elfennau eraill y cynllun yn cynnwys 1,064m² o D1; 1,038m² o D2; 568m² o A3; a 3,525m² ar gyfer islawr / man a rennir / cynllun / gwasanaethu ac ati; bydd y cynnig yn cael ei rannu ar draws tri adeilad. Mae gwaith ar y safle wedi cychwyn gyda gwaith glanhau tir yn 2017-2018. Mae pob caniatâd yn dyst i'r twf yn yr economi a pharodrwydd cwmnïau i fuddsoddi yn Rhondda Cynon Taf. Felly, er bod heriau o hyd yn sgil ôl-effeithiau'r dirwasgiad o ran gweithredu'r CDLI, mae tystiolaeth o dyfiant a buddsoddiad yn RhCT.
- 6.9 Mae dadansoddiadau o'r sector tai yn y Fwrdeistref Sirol mewn Polisiau Craidd 1 i 5 yn Adran 4 yn yr adroddiad yn galonogol. Mae canlyniadau eleni yn dangos bod lefel sefydlog o waith adeiladu tai yn cyd-fynd â blynyddoedd monitro 2015-2016 a 2014-2015, sy'n dangos bod y farchnad dai yn sefydlog a bod yr adferiad yn mynd yn ei flaen.



6.10 Mae'r Cyngor yn ystyried y CDLI yn fframwaith defnyddio tir effeithiol a fydd o gymorth i wella'r economi leol.

4) *A fu newidiadau sylweddol o ran pwysau datblygu, neu o ran anghenion a strategaethau buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat pwysig?*

6.11 Mae ymchwil yn Adran 3 yn awgrymu bod strategaethau buddsoddi'r sector cyhoeddus a phreifat yn parhau i gynnwys gweithgareddau datblygu yn Rhondda Cynon Taf. Roedd buddsoddiad o du'r sector cyhoeddus yn ystod 2017–2018 yn cynnwys cymorth ar gyfer amrywiaeth o raglenni grant a chyllid ar gyfer cynlluniau adfywio canol trefi ym Mhontypridd ac Aberdâr. Ym Mhontypridd cafodd grant gwerth £6,678,000 ei gymeradwyo gan Fframwaith Adfywio Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys cynlluniau megis Canolfan Pontypridd a Homestep Plus. Fodd bynnag, daeth arian VVP i ben ym mis Mawrth 2017 er bod gweithredu'r prosiect yn parhau drwy gydol 2017-2018. O ganlyniad i fuddsoddiad yn y sector cyhoeddus yn 2017–2018 cafodd 552 o anheddau eu datblygu a chafodd gwaith i ddatblygu 1,153 o anheddau ychwanegol ei gymeradwyo.

5) *Phryderon sylweddol ynghylch canfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisi, cyflawniad safle, cyfraddau cynnydd ac unrhyw broblemau wrth roi'r cynllun ar waith.*

Mae canlyniadau'r broses fonitro ar gyfer 2017-2018 yn nodi bod y targedau mewn perthynas â 3 o'r 10 polisi craidd yn parhau, yn cael eu diwallu neu'n rhagori arny'n nhw (wedi'u nodi yn wyrdd) a bod Polisi CS 8 yn cael ei fodloni'n rhannol ac mae'n annhebygol y bydd raid ymyrryd i gyflawni'r targedau yma (gwyrdd / ambr). Dyw 4 targed ddim yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ond mae modd gwella'r sefyllfa, neu y bydd cynnydd digonol, heb ymyrraeth uniongyrchol. Dyw 2 darged polisi ddim yn cael eu cyflawni ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid heb ymyrraeth benodol.

6.12 Mae Adran 5 o'r AMB yn amlinellu canlyniadau'r GG. Ar y cyfan. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y cynllun yn symud i gyfeiriad cadarnhaol yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar gynaliadwyedd. Ymhlith y rhain y mae Cyflogaeth, Iechyd, Trafnidiaeth, Yr Amgylchedd Adeiledig, Tirwedd, Dŵr, Newid Hinsawdd, Ynni, Tir a Phridd, Ansawdd Aer a Gwastraff. Mae canlyniadau rhai dangosyddion ar gyfer Diwylliant a Threftadaeth a Chymunedau yn bodloni targedau, ond dyw eraill ddim. Dyw nifer y tai sy wedi'u cyflenwi ddim yn bodloni gofynion penodol y Dangosydd yn llawn. Serch hynny, fel y nodir drwy gydol yr adroddiad, mae nifer sylweddol o dai yn cael eu cyflenwi.

6.13 **1) *A yw'r strategaeth sylfaenol yn gadarn o hyd (os nad yw, mae'n bosibl y bydd angen adolygiad cynllun cyfan)?***



Mae'r dystiolaeth a gafodd ei chasglu yn rhan o broses monitro 2017–2018 yn dangos bod y CDLI yn gadarn ac yn effeithiol o hyd, a bod y rhan fwyaf o'r Cynllun yn cael ei chyflawni. Mae effaith y dirwasgiad economaidd byd-eang wedi peri i gynnydd rhai agweddau fod yn arafach nag eraill. Ein barn er gwaethaf hyn yw y bydd y CDLI yn blatfform cadarn i dyfiant ac adfywio cynaliadwy yn yr economi yn ystod cyfnod y Cynllun. Gan ystyried y bydd y CDLI wedi cael ei fabwysiadu ers n8 mlynedd yn fuan. Mae'r Cyngor yn hyderus y caiff sawl safle ei gwblhau o hyd, (yn unol ag amserlen y CDLI) yn ystod y 3 mlynedd o'r Cynllun sy'n weddill. Yn ogystal â hyn, mae gwaith cyflawni datblygiadau ledled gogledd a de'r awdurdod ar safleoedd nad ydyn nhw wedi'u lleoli yn parhau ac mae hwn yn gymorth sylweddol o ran cyflawni nodau'r Strategaeth. Mae'r 5,913 o dai newydd yn dystiolaeth o hyn – cafodd 2,099 o'r rhain eu hadeiladu yn yr Ardal Strategol Ogleddol. Mae nifer yr anheddau sydd wedi cael eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2011, sef 8,742, yn fwy calonogol byth. Mae nifer sylweddol o'r rhain (2,572) yn y Gogledd. Mae'r ffaith bod mwy a mwy o dai yn cael eu hadeiladu yn dangos bod y fframwaith cynllunio yn sbarduno twf yn Rhondda Cynon Taf.

2) *Pa effaith y mae'r polisiau yn ei chael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol?*

- 6.14 Mae canlyniadau'r GG, sydd wedi'u hamlinellu eisoes, yn dangos bod y rhan fwyaf o agweddau ar gynaliadwyedd y CDLI yn symud i gyfeiriad cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys Cyflogaeth, Iechyd, Trafnidiaeth, Yr Amgylchedd Adeiledig, Tirwedd, Dŵr, Newid Hinsawdd, Ynni, Tir a Phridd a Gwastraff.
- 6.15 Fel sydd wedi'i drafod uchod, mae polisiau'r CDLI yn parhau i gael effaith lesol ar argaeledd, amrywioldeb ac ansawdd tai ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae lleoliad cynaliadwy'r datblygiadau yma, fel y nodir yn nangosydd DLI 10 mewn perthynas â hygyrchedd i drafnidiaeth heblaw am geir, yn dangos bod 99.82% o bob caniatâd preswyl a phob caniatâd manwerthu a chyflogaeth o fewn 400 o fetrau o un modd o deithio neu fwy. Disgwylir bydd y duedd yma'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar adnoddau a chynaliadwyedd lleol, cenedlaethol a byd-eang.

3) *A oes angen newid y polisiau er mwyn adlewyrchu newidiadau i bolisi cenedlaethol?*

- 6.16 Fel y nodir yn Adran 4, cafodd nifer o newidiadau mewn perthynas â pholisiau a chanllaw cenedlaethol eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn fonitro. Yn ogystal â hyn, gwelwyd nifer o newidiadau deddfwriaethol yn 2015-2016 a 2016-2017 sy'n debygol o newid y ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn cydweithio ar sail ranbarthol. Fel sydd wedi'i nodi yn Adran 3 mewn ymateb i Adran 1 o'r Fframwaith Monitro isod; bydd raid ystyried y newidiadau polisi yma yn ddiamheuaeth mewn perthynas â pholisiau'r CDLI. Serch hynny, mae modd mynd i'r afael â nhw yn yr adolygiad o'r CDLI yn unol â'r hyn sydd ei angen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r cynllun ar hyn o bryd a bydd y newidiadau yma'n cael eu hystyried yn rhan o'r broses adolygu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, caiff ystyriaeth deg ei rhoi iddyn nhw yn y broses penderfyniadau rheoli datblygiad.



4) A yw'r polisiau a'r targedau perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol wedi cael eu cyflawni neu yng nghanol cael eu cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) perthnasol?

6.17 Mae canfyddiadau'r CDLI a'r GG wedi'u hamlinellu yn Adrannau 4 a 5 o'r AMB.

Mae canlyniadau ymarfer monitro y CDLI yn dangos y bu cynnydd da mewn perthynas â'r rhan fwyaf o dargedau'r CDLI, fel y nodir ym Mharagraff 6.12. Bu ychydig o bryder ynghylch y cyflawniad araf o rai elfennau o'r cynllun, yn enwedig o ran cyflawni safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer tai yn y CDLI ac o ran cwblhau tai fforddiadwy yn rhan o hyn. Serch hynny, mae'r Cyngor yn hyderus o hyd bod modd bodloni'r targedau heb ymyrraeth. Mae'n hyderus yn enwedig o ystyried y cynnydd ychwanegol yn y nifer o dai sydd wedi cael caniatâd/eu hadeiladu eleni, sef 1,153. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn cwrdd â thirfeddianwyr dyraniadau tai er mwyn goresgyn y rhwystrau o ran datblygu. Mae'r cyfansymiau o dai sydd wedi'u rhestru yng nghwestiwn 1 yn dystiolaeth o lwyddiant o ran adeiladu tai ledled RhCT. Mae'r Cyngor yn pryderu am y diffyg cynnydd mewn gwaith datblygu tir ar gyfer cyflogaeth ac mewn datblygu Safleoedd Strategol penodol. Bydd yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r problemau yma.

6.18 Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r canfyddiadau yn y GG yn dangos bod y cynllun yn symud i gyfeiriad cadarnhaol yn y rhan fwyaf o agweddau ar gynaliadwyedd. Ymhlith y rhain y mae Cyflogaeth, Iechyd, Trafnidiaeth, Yr Amgylchedd Adeiledig, Tirwedd, Dŵr, Newid Hinsawdd, Ynni, Tir a Phridd a Gwastraff. Mae canlyniadau rhai dangosyddion ar gyfer Diwylliant a Threftadaeth a Chymunedau yn bodloni targedau, ond dyw eraill ddim. Dyw nifer y tai sy wedi'u cyflenwi ddim yn bodloni gofynion penodol y Dangosydd yn llawn. Serch hynny, fel y nodir drwy gydol yr adroddiad, mae nifer sylweddol o dai yn cael eu cyflenwi.

6.19 Mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol Tai Amlfeddiannaeth ym mis Mai 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghori a ddechreuodd ar 25 Ionawr ac a ddaeth i ben ar 23 Mawrth 2018. Ystyriwyd bod Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Amlfeddiannaeth yn angenrheidiol gan fod y mathau yma o eiddo yn gyffredin o gwmpas campws Prifysgol De Cymru yn Nhreforest. Mae'r gymuned leol wedi mynegi pryderon cynyddol bod crynhoad y tai amlfeddiannaeth wedi cyrraedd lefel sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar gydlyniant cymunedol. Mae dau ddiben i'r Canllawiau Cynllunio Atodol, sef: yn gyntaf, amlygu'r adeg pan fydd crynhoad y tai amlfeddiannaeth mewn ardal benodol yn dechrau cael effaith anffafriol ar y gymuned; ac yn ail, roi arweiniad ar safonau tai amlfeddiannaeth, a sut dylen nhw gael eu datblygu.

6.20 Nod Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Amlfeddiannaeth yw cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â Phobl, Lle ac Economi, trwy sicrhau na chaiff cymunedau sefydledig eu dadleoli, ac na chaiff cydlyniant ei danseilio gan grynodiadau tai sy'n dod i'r amlwg ar gyfer preswylwyr tymor byr. Bydd y ddogfen hefyd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod modd i gymunedau gynnal eu cyfleusterau, a bod modd iddyn nhw gadw eu bywiogrwydd trwy atal clystyrau mawr o dai



amfeddiannaeth. Yn ogystal â hyn, gan fod y Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynllunio i osgoi effeithiau negyddol crynodiadau tai amfeddiannaeth, bydd hefyd yn cyfrannu at yr amcanion lles a gafodd eu nodi o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

5) *Os nad oes cynnydd wedi bod, beth yw'r rhesymau dros hyn a pha effaith gynyddol a allai ei chael?*

6.21 Yn anochel, mae'r dirwasgiad economaidd byd-eang wedi effeithio ar weithgarwch yn y marchnadoedd tai a masnachol. Cafodd y gostyngiad mewn buddsoddiad newydd mewn datblygiadau tai a masnachol yn ystod y dirwasgiad effaith negyddol ar gyflawniad rhai elfennau o'r CDLI.

6.22 Serch hynny, yn nhermau polisïau Tai Craidd, mae'r Cyngor yn ystyried y ffigur wreiddiol o angen, a gafodd ei seilio ar amcanestyniadau aelwydydd yn 2008, yn rhy uchel. Mae hefyd yn dod yn fwyfwy amlwg bod gofyniad y CDLI am dir ar gyfer tai yn afrealistig o uchel. Fel yn achos awdurdodau eraill yng Nghymru sydd â CDLI a fabwysiadwyd, mae'r gofyniad am dir ar gyfer tai yn uwch o lawer na gallu'r diwydiant i'w gyflawni, ac mae'r dull gweddilliol yn rhoi ffigur annigonol lai yn flynyddol er gwaethaf lefelau uwch o waith adeiladu tai. O ganlyniad i hyn, mae'r targed yn fwyfwy anodd ei fodloni bob blwyddyn.

Er bod polisïau a safleoedd wedi'u dynodi yn y CDLI yn parhau hyd nes bod modd eu haddasu yn y cam adolygu, mae'n synhwyrol derbyn mewn egwyddor bod amcanestyniadau diweddar Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylen nhw felly gael eu hystyried. Yn seiliedig ar gyfrifiad bras gan ddefnyddio'r ffigurau yma sydd wedi'u diweddarau, bydd angen 9,500 o anheddau newydd i ddiwallu'r angen rhagamcanol am dai rhwng 2011-2031. Byddai angen adeiladu llai o anheddau o lawer, sef tua 600 yn flynyddol, o hyn ymlaen. Mae hyn yn darged y mae'r Cyngor wedi rhagori arno yn ystod blwyddyn fonitro 2016-2017 ac mae wedi dod yn agos iawn at ragori arno yn 2017-2018 (552 o anheddau).

6) *Pa agweddau, os oes rhai, o'r CDLI sydd angen cael eu haddasu neu eu newid oherwydd nad ydyn nhw'n gweithio'n gywir, neu oherwydd nad ydyn nhw'n cyflawni amcanion y strategaeth a/neu amcanion datblygu cynaliadwy?*

6.23 Bydd y Cyngor yn ystyried canlyniadau'r AMB yma yn rhan o'i broses adolygu statudol. Yn achos targedau nad ydyn nhw'n cael eu bodloni, caiff tystiolaeth ei hadolygu a chaiff unrhyw ymyrraeth sydd ei hangen ei hystyried.

7) *Os oes angen newid polisïau neu gynigion, pa gamau gweithredu posibl sydd eu hangen i gyflawni hyn?*

6.24 Bydd y Cyngor yn ystyried canlyniadau'r AMB yma yn rhan o'i broses adolygu statudol. Yn achos targedau nad ydyn nhw'n cael eu bodloni, caiff tystiolaeth ei



hadolygu a chaiff unrhyw ymyrraeth sydd ei hangen ei hystyried. Caiff unrhyw addasiadau i bolisiau eu gwneud ar y cam priodol.

ARGYMHELLION

6.25 Ym marn y Cyngor, mae'r CDLI yn gwneud cynnydd yn ara' deg. Mae tyfiant mewn rhai meysydd yn arafach na'r hyn a gafodd ei ddisgwyl wrth ysgrifennu'r cynllun. Serch hynny, mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod o broses monitro yn awgrymu bod cynnydd da o ran cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau'r CDLI. Mae disgwyl y bydd y gwaith datblygu sydd wedi digwydd yn Rhondda Cynon Taf ers mabwysiadu'r CDLI ynghyd â buddsoddiad arfaethedig gan y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y dyfodol yn sicrhau y caiff strategaeth graidd y CDLI ei chyflawni'n llwyddiannus.

CYDYMFFURFIO

6.26 Yn yr adolygiad cafodd ei nodi bod y gwaith sydd wedi cael ei gwblhau hyd yn hyn o ran AMB Rhondda Cynon Taf yn bodloni gofynion cyfarwyddeb yr AAS a chanllawiau presennol. Mae hefyd yn rhoi sail i asesu effeithiolrwydd y CDLI o ran ysgogi datblygiadau cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol.

6.27 Mae manylion am yr asesiad cydymffurfiaeth ar ddiwedd Adran 5.



Atodiad 1 – Statws Safleoedd wedi'u dynodi yn y CDLI

Statws Safleoedd wedi'u Dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol				
Ardal Strategol Ogleddol				
Polisi	Lleoliad	Math o Safle wedi'i Ddynodi	Y Cyfnod Disgwyllie dig y Caiff ei Gwblhau	Diweddariad Statws 2016-2017
Safleoedd Strategol				
ASO 4	Hen Safle Glofa'r Maerdy, Rhondda Fach	Safle Strategol	2018-2021	Mae'r gwaith datblygu mynedfa newydd wedi cael caniatâd cynllunio yn rhan o gynllun arfaethedig am fferm wynt a buddsoddiad sylweddol mewn elfennau hamdden sydd wedi'u diogelu drwy adran 106.
ASO 5	Hen Safle Glofa Fernhill, Blaenrhondda	Safle Strategol	2014-2017	Mae trafodaethau cyn cais/trafodaethau ynglŷn â'r cais yn cael eu cynnal ar gyfer mân ddatblygiad ar wahanol rannau o'r safle.
ASO 6	Safle hen ffatri Phurnacite, Abercwmboi	Safle Strategol	2014-2017	Mae trafodaethau cyn cais cynnar yn parhau. Mae uwchgynllun a briff wedi cael eu llunio ar gyfer y safle.
ASO 7	Tir yn Nhresalem / Aber-nant, Aberdâr	Safle Strategol	2010-2013	<p>Tresalem: Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol am archfarchnad ar 31/03/15.</p> <p>Cafodd caniatâd ei roi ar gyfer campws coleg ac mae gwaith datblygu wedi dechrau ar elfen gyflogaeth/hamdden y safle.</p> <p>Mae trafodaethau gyda'r tirlfeddiannwr yn parhau.</p> <p>Cyhoeddodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fod £2.58miliwn o arian Ewrop wedi'i sicrhau ar gyfer pecyn o £3.93miliwn i greu unedau busnes modern ar Safle Strategol Tresalem. Bydd y cynllun yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa</p>



				Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.
ASO 8	Tir i'r de o Hirwaun	Safle Strategol	2018-2021	<p>Rhodddwyd caniatâd cynllunio a chytundeb adran 106 am archfarchnad a gwelliannau hygyrchedd.</p> <p>Rydyn ni'n rhagweld bydd y safle ar gyfer adeiladu tai, cyn i ffordd yr A465 gael ei deuoli. Yn ogystal â hyn, mae gweithrediadau mwyngloddio brig wedi dod i ben ac mae llwyfandir wedi'i greu i ddarparu ar gyfer datblygu swyddi yn y dyfodol. Rydyn ni'n rhagweld bydd hyn yn cychwyn adeg Nadolig 2018.</p>
Tai				
ASO 9.1	Tir i'r de o Ffordd y Rhigos, Hirwaun	Tai	2014-2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.2	Tir i'r dwyrain o Drenant, Pen-y-waun	Tai	2018-2021	Cafodd cais amlinellol ei dderbyn ar ddiwedd Mawrth 2018 ar gyfer 93 o anheddau. Bydd y cais yn cael ei adrodd ymhellach yn ystod 2018-2019.
ASO 9.3	Tir i'r de-ddwyrain o Ganolfan Cymuned Llwydcoed	Tai	2010-2013	Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau ynghylch mynediad i'r safle.
ASO 9.4	Safle'n cynnwys yr hen weithfeydd brics, hen laethdy a thir tomen tu ôl Birchwood, Llwydcoed	Tai	2010-2013	Mae'r safle wedi'i gwblhau.
ASO 9.5	Fferm Tegfan, Potters Field, Trecynon	Tai	2014-2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Mae diddordeb wedi'i fynegi yn y safle. Bydd y Cyngor yn



				gweithio ar y cyd â'r sawl â diddordeb i geisio symud hyn yn ei flaen.
ASO 9.6	Tir yn Nant y Wenallt, Heol Abernant, Aber-nant	Tai	2010-2013	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.7	Tir wedi'i ymylwg gan Heol Cefnpennar a Phillip Row, Cwm-bach	Tai	2014-2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Mae trafodaethau cyn cais cychwynnol wedi'u cynnal.
ASO 9.8	Dyffryn Row, Cwm-bach	Tai	2014-2017	Mae cais cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer cam cyntaf y datblygiad (5 annedd). Mae dwy uned wedi'u hadeiladu.
ASO 9.9	Gweddill Fferm Ynyscynon, Cwm-bach	Tai	2018-2021	Mae cais am ganiatâd cynllunio amlinellol i adeiladu 77 o anheddau ar 3.29ha wedi cael ei gymeradwyo. Mae rhaid cwblhau cytundeb adran 106 cyn bwrw ymlaen. Mae'r apêl oedd heb ei benderfynu ar y safle bellach wedi'i benderfynu. Erbyn hyn, dylai gwaith ar y safle fynd rhagddo yn amodol ar gais materion wedi'u cadw'n ôl.
ASO 9.10	Tir at ddiwedd Stryd Godreaman, Godreaman	Tai	2010-2013	Cafodd caniatâd ei roi ar gyfer nifer o leiniau hunan-adeiladu ar y safle. Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar yr annedd gyntaf.
ASO 9.11	Tiroedd Gwernifor, Aberpennar	Tai	2010-2013	Mae'r cynllun arfaethedig wedi cael ei weithredu.
ASO 9.12	Heol Cefn Maerdy, y Maerdy	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.13	Tir yn Nheras Gwernllwyn, Tylorstown.	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.14	Safle oddi ar Stryd Fenwick, Pont-y-gwaith	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.15	Hen Safle Ysbyty ac Iard	Tai	2018-	Cafodd cais ei wrthod ar



	Ysgol, Treherbert		2021	12.09.2017 gan ei fod yn cael ei ystyried yn annerbyniol o safbwynt cynllunio.
ASO 9.16	Safle ar ddiwedd Mace Lane, Treorci	Tai	2018-2021	Mae briff datblygu drafft wedi cael ei lunio. Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.17	Safle oddi ar Ffordd y Fynwent, Treorci	Tai	2018-2021	Mae'r safle ar werth ar hyn o bryd.
ASO 9.18	Safle'r Ysbyty, Llwynypia	Tai	2014-2017	Cafodd cais Adran 73 newydd ei roi i adnewyddu'r caniatâd, ynghyd â chytundeb Adran 106 wedi'i ddiweddarau.
ASO 9.19	Tir yn Stryd y Parc, Cwm Clydach	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.20	Tir yn Heol Dinas / Heol Graig Ddu, Dinas	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 9.21	Tir yn Catherine Crescent, y Cymer	Tai	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Mae'r safle wedi'i drosglwyddo yn ddiweddar i berchnogion newydd.
Cyflogaeth/Manwerthu				
ASO 14.1	Ystad Ddiwydiannol Glynrhedynog a Highfield, y Maerdy	Cyflogaeth	2018-2021	Mae cynllun defnydd cymysg wedi cael caniatâd amlinellol ym mis Mai 2016.
ASO 14.2	I'r gogledd o Fifth Avenue, Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun.	Cyflogaeth	2018-2021	Cafodd 'parc adfer adnoddau gwastraff a chynhyrchu ynni cynaliadwy' ganiatâd ar 21/12/10. Dechreuodd gwaith datblygu yn ystod cyfnod monitro 2015–2016. Cafodd cais ei gyflwyno ar gyfer ail gam diwygiedig Enviroparks ym mis Chwefror 2018 a bydd yn cael ei adrodd ymhellach yn ystod 2018-



				2019.
ASO 14.3	Tir y Ffatri Cyw lâr Mayhew gynt, Trecynon	Cyflogaeth	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI, er y bu ymholiadau cyn cais ynghylch datblygiad defnydd cymysg.
ASO 14.4	Ystad Ddiwydiannol Cae Mawr, Treorci	Cyflogaeth	2018-2021	Rhodddwyd caniatâd cynllunio hybrid ar gyfer archfarchnad a chafodd caniatâd amlinellol ar gyfer datblygiadau B1/B2/B8 ei ddiddymu ar 09/10/14. Mae trafodaethau cyn gwneud cais yn parhau.
ASO 17.1	Tir yn Stryd Rhydychen, Aberpennar	Manwerthu	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASO 17.1	Safle Strategol 5: Tir i'r de o Hirwaun	Manwerthu	2018-2021	Rhodddwyd caniatâd cynllunio a chytundeb adran 106 am archfarchnad a gwelliannau hygyrchedd.
Pob Safle wedi'i Ddynodi Arall				
ASO 20.1	Y Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Ne Aberpennar	Cludiant		Cafodd y cynllun ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Cafodd caniatâd cynllunio ei sicrhau ar gyfer ffordd gyswllt rhwng y dwyrain a'r gorllewin trwy gyffordd well ar yr A4059. Dechreuodd y gwaith adeiladu yn 2017 a'r disgwyl yw bydd gwaith ar y brif bont ffordd yn dechrau yn haf 2018.
ASO 20.2	Ffordd liniaru Rhondda Fach Uchaf	Cludiant		Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Cafodd ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru.
ASO 20.3	Y Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yng Ngogledd Abercynon	Cludiant		Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Cafodd y cynllun ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Mae'r broses o lunio'r astudiaeth



				<p>draffig gychwynnol wedi dechrau.</p> <p>Cafodd e ei adolygu yn rhan o ddatblygiad ffordd gyswllt yn y de. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r broses WeITAG, mae ffordd gyswllt y de bellach yn flaenoriaeth.</p>
ASO 21.1	Safle Strategol 5: Tir i'r de o Hirwaun; (Parcio a Theithio)	Cludiant		<p>Mae gwasanaeth Parcio a Theithio wedi cael ei gynnwys yng nghynllun Porth Cynon, sy'n rhan o CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru.</p>
ASO 21.2	Y tir i'r de o Dŷ Trevithick wrth ochr yr A470 yn Abercynon (Parcio a Theithio);	Cludiant		<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Cafodd manau ychwanegol eu creu yn ddiweddar yn Abercynon yn dilyn ailasesiad o gynllun y maes parcio.</p>
ASO 21.3	Ehangu cyfleusterau parcio a theithio presennol yn Nhresalem. (Parcio a Theithio)	Cludiant		<p>Cynllun datblygu yn y CDLI wedi'i gwblhau – ymestyn y cyfleuster hyd yn oed yn fwy gan fod disgwyl y bydd defnyddwyr y cyfleusterau presennol yn cynyddu i'r nifer uchaf yn ymarferol ymhen 2 flynedd o ganlyniad i gynlluniau arfaethedig y system Metro.</p>
ASO 22	Rhwydwaith Rheilffyrdd a Gwelliannau i Orsaf Hirwaun.	Cludiant		<p>Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Cafodd y cynllun ei gynnwys yn Astudiaeth Llwybr Cymru Network Rail.</p> <p>Mae'r potensial i ymestyn ac i drawsnewid y llinell cludo nwyddau presennol ar gyfer teithwyr yn cael ei adolygu yn rhan o gynlluniau arfaethedig y system Metro.</p>
ASO 23.1	Rhwydwaith Llwybrau Cymunedau Cwm Rhondda	Llwybrau Seiclo		<p>Cafodd y cynllun ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Mae Cymdeithas Twneli'r Rhondda wedi diogelu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu astudiaeth o gyflwr Twannel Blaen-cwm. Diben</p>



				<p>hyn yw ffurfio achos busnes dros ailagor y twnnel yn rhan o ymestyn y rhwydwaith i ardal Castell-nedd Port Talbort.</p> <p>Cafodd cyllid ei ddynodi ar gyfer gwaith dichonoldeb/dylunio. Prif nod hwn yw ystyried hygyrchedd ysgolion, gorsafoedd ac ati sy'n gallu ffurfio sail i lwybr cymunedol ehangach ar hyd Rhondda Fawr.</p> <p>Cafodd rhan o'r llwybr rhwng Ystad Ddiwydiannol y Gelli a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda ei chyflwyno yn 2017-2018. Cafodd y fenter ei hariannu gan y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.</p> <p>Mae'r cynnig ar gyfer llwybr ar hyd Cwm Rhondda Fawr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.</p>
ASO 23.2	Llwybr Seiclo Cwm Cynon	Llwybrau Seiclo		<p>Cafodd Cam 3 y cynllun ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru – gan 'lenwi'r bylchau' ar hyd y llwybr.</p> <p>Mae Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018 yn cynnwys cynigion i wella rhannau o'r llwybr presennol a chynigion ar gyfer rhannau newydd o'r llwybr, gan gynnwys cyswllt i Dwnnel Aber-nant.</p>
ASO 23.3	Llwybr seiclo a chysylltiadau Blaenau'r Cymoedd i Ystad Ddiwydiannol Hirwaun	Llwybrau Seiclo		<p>Mae gwaith adeiladu'r llwybr wedi cael ei gwblhau, ond mae potensial am welliannau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith deuli'r A465.</p> <p>Mae Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018, yn cynnwys cynigion i wella rhannau o'r llwybr presennol.</p>



ASO 23.4	Pont-y-gwaith i'r Maerdy	Llwybrau Seiclo		<p>Cafodd ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru.</p> <p>Mae'r cynnig i ymestyn Llwybr Cymunedol Rhondda Fach o Bont-y-gwaith i'r Maerdy wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.</p>
ASO 23.5	Cwmaman i Aberaman	Llwybrau Seiclo		<p>Cafodd ei gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru.</p> <p>Mae'r cynnig i lunio llwybr newydd rhwng Cwmaman ac Aberaman wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.</p>
ASO 23.6	Lady windsor i Lanwynno	Llwybrau Seiclo		<p>Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.</p> <p>Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.</p>
ASO 27	Cynlluniau Adfer Tir	Adfer Tir		<p>Mae'r cynlluniau canlynol wedi'u cwblhau:</p> <p>Cynllun adfer tir glofa Aberaman</p>
ASO 28	Coleg Morgannwg, Trecynon	Addysg		<p>Mae'r Coleg yn Nhrecynon yn debygol o gau o ganlyniad i waith datblygu presennol y Coleg newydd yn Nhresalem. Fydd dim angen cynnal y gwaith ymestyn ar y safle wedi'i ddynodi yma oherwydd hyn. Yn lle hynny, mae caniatâd amlinellol wedi'i roi i'r safle ar gyfer hyd at 110 o anheddau.</p>
Ardal Strategaeth Ddeheuol				
Polisi	Lleoliad	Math o Safle wedi'i	Y Cyfnod Disgwyliedig	Statws



		Ddynodi	y Caiff ei Gwblhau	
Safleoedd Strategol				
ASDd 7	Hen Lofa a Golosgfa Cwm, Tyn-y-nant, Pontypridd	Safle Strategol	2014-2017	Cafodd y gwaith canlynol ganiatâd cynllunio amlinellol ar 30/12/14: dymchwel strwythurau gan gadw tyrau rhestredig, gwella'r safle, adfer tir, a chynnal datblygiadau cymysg. Mae'r datblygiadau cymysg yn cynnwys: gwaith i adeiladu 851 o breswylfeydd ac ysgol gynradd; gwaith i aildrefnu mynedfeydd; gwaith i adeiladu maes parcio ar gyfer ceir, beiciau a Gwasanaethau rheolaidd; gwaith tirlunio strwythurol; gwaith i ddarparu manau cyhoeddus ac i adeiladu seilwaith cysylltiedig; a gwaith ar dir cyhoeddus.
ASDd 8	Ardal Mwyndy/ Tonysguboriau	Safle Strategol	2014-2021	<p>Tonysguboriau: Cafodd y gwaith canlynol ganiatâd cynllunio amlinellol ar 24/12/14 i adeiladu canol tref: siop fwyd o faint 10,801 metr sgwâr (gros); gorsaf danwydd; 35,522 metr sgwâr o lorïau ar gyfer manwerthu; caffi o faint 600 metr sgwâr; gwasanaethau ariannol/proffesiynol ar 1,000 metr sgwâr o dir, cyfleusterau bwyd a diod ar 2,390 metr sgwâr o dir (gros); swyddfeydd (Dosbarth B1) ar 1,400 metr sgwâr o dir (gros); gwagle Dosbarth D1 ar 750 metr sgwâr o dir; sinema; gwesty; 64 o anheddau; maes parcio; mynedfa; gwaith ailbroffilio'r tir, tirlunio a lliniaru llifogydd.</p> <p>Cafodd cam 1 o'r gwaith uchod ganiatâd cynllunio llawn ar 27/11/13, sef archfarchnad, iard gwasanaethau, maes parcio, gorsaf danwydd, ffordd i mewn ar gyfer cwsmeriaid a ffordd i mewn o'r A473. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.</p>



				<p>Mae cais amlinellol ar gyfer 460 o anheddau, ysgol gynradd, canolfan leol a man agored wedi cael caniatâd yn ystod 2017-2018</p> <p>Mwyndy: Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI ar y rhan a fydd yn cynnwys datblygiad cyflogaeth.</p>
ASDd 9	Hen Safle OCC, Llanilid (rhannol)	Safle Strategol	2010-2013	<p>Mae cais cynllunio hybrid wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol sy'n cynnwys cytundeb adran 106 ar 16/07/15. Mae'n cynnwys y canlynol: hyd at 1,850 o anheddau; canolfan yn y gymdogaeth a fydd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol/hamdden; canolfan feddygol; ysgol gynradd; lloriau ar gyfer manwerthu, gwasanaethau, bwyd a diod; swyddfeydd/lloriau ar gyfer masnach Dosbarth B1; gwaith draenio; seilwaith gwasanaethau, trafnidiaeth a phriffyrdd; gwaith tirlunio ar ardaloedd strategol a mannau awyr agored ar gyfer y cyhoedd. Mae ffordd i mewn ac i'r A473 wedi cael caniatâd llawn, yn ogystal â gwaith draenio a datblygu; hyn fydd cam cyntaf y gwaith datblygu.</p>
Tai				
ASDd 10.1	Cefn Lane, Glyn-coch	Tai	2014-2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.2	Fferm Trane, Tonyrefail	Tai	2010-2013	Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i roi caniatâd amlinellol.
ASDd 10.3	Fferm Collenna, Tonyrefail	Tai	2014-2017	Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith cynllunio hanesyddol o hyd.
ASDd 10.4	Bryngolau, Tonyrefail	Tai	2014-2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.



ASDd 10.5	Safle'r Clwb Hillside gynt, Capel Hill, Tonyrefail	Tai	2014- 2017	Cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ei adnewyddu ym mis Mai 2014. Cafodd trafodaethau cyn ymgeisio eu cynnal yn gynnar yn 2018, ac mae disgwyl i gais ddilyn.
ASDd 10.6	Tir i'r dwyrain o Stryd y Felin, Tonyrefail	Tai	2014- 2017	Cafodd cais ei gyflwyno ym mis Mawrth 2018 ar gyfer elfen fanwerthu y safle yma (A1/A3). Mae gwaith arfaethedig yn cynnwys y ffordd y rhagwelir y bydd yn hwyluso elfen dai y safle. Bydd y cais yn cael ei adrodd arno ymhellach yn 2018-2019.
ASDd 10.7	Tir yn Gwern Heulog, Coed-elái	Tai	2010- 2013	Cafodd yr holl safle (132 o anheddau) ganiatâd amlinellol ar 22/03/13, a chafodd 54 o'r rhain ganiatâd llawn ar yr un dyddiad. Mae 24 o anheddau yn cael eu hadeiladu hyd yn hyn.
ASDd 10.8	Tir tu ôl i Deras Tylcha Wen, Tonyrefail	Tai	2018- 2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.9	Tir sy'n Rhan o Fferm Tylcha Ganol, i'r De o Stryd y Felin, Tonyrefail	Tai	2018- 2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.10	Tir i'r dwyrain o Hafod Wen ac i'r gogledd o Concorde Drive, Tonyrefail	Tai	2014- 2017	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.11	Tir i'r de o Heol Brynna, Brynna	Tai	2010- 2013	Bu trafodaethau cyn cais ond ar hyn o bryd does dim digon o garthffosydd.
ASDd 10.12	Tir i'r dwyrain o Ysgol Gynradd Sirol Dolau, Heol Pen-y-bont, Bryncae	Tai	2010- 2013	Datblygiad wedi'i gwblhau yn 2014-2015.



ASDd 10.13	Tir i'r gorllewin o Lechau, Llanhari	Tai	2014-2017	Datblygiad wedi'i gwblhau yn 2014-2015.
ASDd 10.14	Pen-y-gawsi, Llantrisant	Tai	2010-2013	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.15	Tir i'r de o Lys Brynteg, y Beddau	Tai	2010-2013	Cwblhau'r datblygiad
ASDd 10.16	Safle'r Link, Pen-yr-Eglwys, Pentre'r Eglwys	Tai	2010-2013	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.17	Fferm Glyntaf, Rhydfelen	Tai	2014-2017	Mae rhan o'r safle wedi cael ei weithredu (15 o anheddau). O ran yr hyn sy'n weddill (65 o anheddau): Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 10.18	Tir i'r de o The Ridings, Tonteg ac i'r dwyrain o Heol yr Orsaf, Pentre'r Eglwys	Tai	2010-2013	Diolch i Gam II y cynllun, mae 168 o anheddau wedi'u cwblhau.
Cyflogaeth/Manwerthu				
ASDd 14.1	Coed-elái, Tonyrefail	Cyflogaeth	2018-2021	Mae cais Materion a Gadwyd yn ôl wedi ei gymeradwyo ar gyfer cynllun gwaith priffyrdd, a fydd yn gwasanaethu'r safle.
ASDd 14.2	Tir i'r de o Ystad Ddiwydiannol Gellihirion, Pontypridd	Cyflogaeth	2018-2021	Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI.
ASDd 15.1	Tir gerllaw Parc Manwerthu Pontypridd Ar gyfer nwyddau cymharol neu	Manwerthu	2018-2021	Mae'r cynllun arfaethedig wedi'i gwblhau.



	nwyddau cyfleus.			
ASDd 15.2	Safle Strategol 8: Cyn safle OCC, Llanilid, Llanharan	Manwerthu	2018-2021	Mae cais cynllunio hybrid wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol sy'n cynnwys cytundeb adran 106 ar 16/07/15. Mae'n cynnwys y canlynol: hyd at 1,850 o anheddau; canolfan yn y gymdogaeth a fydd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol/hamdden; canolfan feddygol; ysgol gynradd; lloriau ar gyfer manwerthu, gwasanaethau, bwyd a diod; swyddfeydd/lloriau ar gyfer masnach Dosbarth B1; gwaith draenio; seilwaith gwasanaethau, trafnidiaeth a phriffyrdd; gwaith tirlunio ar ardaloedd strategol a mannau awyr agored ar gyfer y cyhoedd. Mae ffordd i mewn ac i'r A473 wedi cael caniatâd llawn, yn ogystal â gwaith draenio a datblygu; hyn fydd cam cyntaf y gwaith datblygu.
ASDd 15.3	Tir i'r dwyrain o Stryd y Felin, Tonyrefail	Manwerthu	2018-2021	Cafodd cais ei gyflwyno ym mis Mawrth 2018 ar gyfer elfen fanwerthu y safle hwn (A1 / A3). Mae gwaith arfaethedig yn cynnwys y ffordd y rhagwelir y bydd yn hwyluso elfen dai y safle. Bydd y cais yn cael ei adrodd arno ymhellach yn 2018-2019.
Pob Safle wedi'i Ddynodi Arall				
ASDd 18.1	Ffordd osgoi Llanharan	Cludiant		Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i gymeradwyo'r Cynllun yn rhan o CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Adroddiad Cam 1 WeITAG wedi'i gwblhau.
ASDd 18.2	Gwaith Deuoli Ffordd Osgoi Tonysguboria u'r A473	Cludiant		Mae gwelliannau i gyffyrdd allweddol yn parhau.
ASDd 19	Gwelliannau i Rwydwaith ac	Cludiant		Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers



	i Orsafoedd Rheilffyrdd			y CDLI. Mae nifer o gynlluniau yn rhan o ail Gynllun Trafnidiaeth Leol Cymru.
ASDd 20	Gwasanaeth Parcio a Theithio/Parcio a Rhannu	Cludiant		<p>Mae gwaith ar y gwasanaeth parcio a theithio yn Ffynnon Taf wedi dod i ben. Gan fod Ffynnon Taf yn cael ei hadnabod yn gangen allweddol o'r rhwydwaith trafndiaeth, mae'n debygol y bydd gwelliannau ychwanegol yn rhan o waith y system Metro/y Fargen Ddinesig.</p> <p>Mae CTLI Cymoedd De Ddwyrain Cymru yn cynnwys cynlluniau arfaethedig i gynyddu'r gwasanaeth yng ngorsafoedd Pont-y-clun a Threfforest – mae'n debygol y bydd eu defnyddwyr yn cynyddu i'r nifer uchaf yn ymarferol o fewn y ddwy flynedd nesaf.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae defnydd o orsaf Llanharan yn gymharol uchel, ac mae gwaith ymarferoldeb yn mynd rhagddo ynghylch y posibilrwydd i ymestyn cyfleusterau parcio a theithio.</p>
ASDd 21.1	Treforest Connect 2	Llwybrau Seiclo		<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mae'n bosibl y caiff llwybrau posibl eraill eu nodi o ganlyniad i'r gofynion yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.</p>
ASDd 21.2	Cynllun Extension to Connect 2 Pontypridd	Llwybrau Seiclo		<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.</p>
ASDd 21.3	Maes-y-coed i'r Porth	Llwybrau Seiclo		<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a</p>

				gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.
ASDd 21.4	Glyntaf i Nantgarw	Llwybrau Seiclo		Wedi'i gwblhau Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.
ASDd 21.5	Trallwng i Gilfynydd	Llwybrau Seiclo		Mae'r cynllun wedi'i gynnwys yn CTL Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.
ASDd 21.6	Pontypridd i Donyrefail drwy Lantrisant	Llwybrau Seiclo		Mae dwy ran wedi cael eu cwblhau. Trydedd adran wedi'i hadeiladu'n rhannol. Mae cyllid wedi cael ei ddynodi ar gyfer gwaith ar y llwybr o'r pen gorllewinol hyd at dafarn y Cross Inn yn ystod 2018-2019.
ASDd 21.7	Gyfeillion i Lanwynno.	Llwybrau Seiclo		Dim cynlluniau arfaethedig eraill ers y CDLI. Mae'r cynnig i wella rhannau o'r llwybr wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.
ASDd 24	Cynlluniau Adfer Tir	Adfer Tir		Mae'r cynlluniau canlynol wedi cael eu cwblhau: Cynllun ôl-ofal adfer tir Coed-elái, Tonyrefail Cynllun adfer tir Tomen Lo Isaf yr Albion, Cilfynydd Cynllun adfer tir Cefn-yr-hendy, Meisgyn
ASDd	Tir ym Mharc	Tai		Mae gwaith wedi dechrau ar y



26	Carafanau'r Beddau			cynllun arfaethedig.
----	-----------------------	--	--	----------------------

